**Adran y Prif Weithredwr**
**Chief Executive's Department**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

# Y GYFROL GOFNODION
# THE MINUTES VOLUME

## COFNODION PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU'R CYNGOR A GYNHALIWYD YN Y CYFNOD YN ARWAIN AT 5 MAWRTH 2015

*******

## MINUTES OF COMMITTEES AND SUB-COMMITTEES OF THE COUNCIL HELD IN THE PERIOD LEADING TO 5 MARCH 2015

**Dilwyn Williams**
**Prif Weithredwr / Chief Executive**

www.gwynedd.gov.uk

# Y GYFROL GOFNODION

Mae'r Gyfrol hon yn cynnwys cofnodion y pwyllgorau a'r is-bwyllgorau canlynol:


| | | |
|---|---|---|
| **(A)** | **Y CYNGOR** | **Tudalen** |
| (1) | Cyngor a gynhaliwyd ar 4/12/14 | 1-12 |
| **(B)** | **Y CABINET** | |
| (1) | Cabinet y Cyngor a gynhaliwyd ar 25/11/14 | 13 - 14 |
| (2) | Cabinet y Cyngor a gynhaliwyd ar 16/12/14 | 15 - 17 |
| (3) | Cabinet y Cyngor a gynhaliwyd ar 13/1/15 | 18 – 20 |
| **(C)** | **PWYLLGORAU CRAFFU** | |
| (1) | Pwyllgor Craffu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13/11/14 | 21 – 25 |
| (2) | Pwyllgor Craffu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 15/1/15 | 26 – 29 |
| (3) | Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 2/12/14 | 30 – 36 |
| (4) | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau a gynhaliwyd ar 11/12/14 | 37 – 44 |
| **(CH)** | **PWYLLGORAU, IS-BWYLLGORAU A CHYRFF ERAILL** | |
| (1) | Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 24/11/14 | 45 – 58 |
| (2) | Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 15/12/14 | 59 – 74 |
| (3) | Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 12/1/15 | 75 – 89 |
| (4) | Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 2/2/15 | 90 – 97 |
| (5) | Pwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar 8/12/14 | 98 – 99 |
| (6) | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 8/12/14 | 100 – 101 |
| (7) | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 9/12/14 | 102 – 105 |
| (8) | Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 18/12/14 | 106 – 112 |
| (9) | Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 26/1/15 | 113 – 117 |
| (10) | Pwyllgor Iaith a gynhaliwyd ar 29/1/15 | 118 – 123 |

# Y CYNGOR 4/12/14

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Dewi Owen (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Stephen Churchman, Annwen Daniels, Anwen Davies, Edward Dogan, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Aled Evans, Jean Forsyth, Gweno Glyn, Simon Glyn, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllian, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Jason Humphreys, Peredur Jenkins, Aeron Jones, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles W.Jones, Dyfrig Jones, Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, Llywarch Bowen Jones, Sion Wyn Jones, Dilwyn Lloyd, June E.Marshall, Dafydd Meurig, Michael Sol Owen, W.Roy Owen, Peter Read, E.Caerwyn Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams, Owain Williams, R.H.Wyn Williams, Mandy Williams-Davies, Robert J.Wright ac Eurig Wyn.

**Hefyd yn bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Arwel E.Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), Nia Davies (Rheolwr Cynllunio), Eirian Roberts a Lowri Haf Evans (Swyddogion Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Endaf Cooke, Lesley Day, Gwynfor Edwards, Huw Edwards, Trevor Edwards, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Linda Morgan, W.Tudor Owen, Nigel Pickavance a Dyfrig Siencyn.

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Thomas Ellis.

**1. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 9 Hydref, 2014 fel rhai cywir.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

'Roedd yr aelodau wedi derbyn nodyn briffio ymlaen llaw gan y Swyddog Monitro ynglŷn â'r eitemau canlynol:-

Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor (eitem 11 ar y rhaglen)
Treth Cyngor: Disgresiwn i ganiatáu disgownt (eitem 12 ar y rhaglen)

- Datganodd y Cynghorydd Liz Saville Roberts fuddiant personol yn eitem 11 ar y rhaglen oherwydd bod aelod agos o'r teulu yn derbyn gostyngiad Treth Cyngor.

  Nid oedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

- Datganodd y Cynghorwyr Anwen Davies, Thomas Ellis, Eirwyn Williams ac Owain Williams fuddiant personol yn eitem 12 ar y rhaglen oherwydd eu bod yn berchen ar dai gwag.
- Datganodd y Cynghorydd Dilwyn Lloyd fuddiant personol yn eitem 12 ar y rhaglen oherwydd ei fod wedi gwerthu tŷ gwag yn ddiweddar.
- Datganodd y Cynghorydd Mandy Williams-Davies fuddiant personol yn eitem 12 ar y rhaglen oherwydd bod ei gŵr wedi etifeddu tŷ oedd yn wag ar hyn o bryd.
- Datganodd y Cynghorydd Llywarch Bowen Jones fuddiant personol yn eitemau 12 ar y rhaglen oherwydd bod gan ei ferch dŷ gwyliau.
- Datganodd y Cynghorydd Gethin Williams fuddiant personol yn eitem 12 ar y rhaglen oherwydd bod aelod o'r teulu, hefo cyswllt personol agos.

'Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau hynny.

**3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(a) Croeso

Estynnwyd croeso i'r aelod newydd dros Ward Bowydd a Rhiw, y Cynghorydd Annwen Daniels.

(a) Cydymdeimlad

Talwyd teyrnged gan y Cadeirydd i'r diweddar Arwel Jones, cyn-gadeirydd y Cyngor, fu'n cynrychioli Ward Diffwys a Maenofferen hyd 2008, a chydymdeimlwyd â'i deulu yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-

Y Cynghorydd Stephen Churchman ar golli ei dad;
Y Cynghorydd Dafydd Meurig ar golli ei dad;
Y Cynghorydd Tudor Owen ar golli ei fam;
Y Cynghorydd Anwen Davies ar golli ei mam.

Teulu Meinir Wyn Jones, cyn-bennaeth Ysgolion Dyffryn Nantlle a Brithdir ac enillydd cenedlaethol ym myd cerdd dant a chanu gwerin.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am eraill o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

(b) Cofion Gorau

Cyfeiriwyd at anhwylder y Cynghorydd Huw Edwards a nodwyd bod yr aelodau'n anfon eu cofion gorau ato.

(c) Llongyfarchiadau

Llongyfarchwyd:-

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar fod yn llwyddiannus mewn dwy Seremoni Wobrwyo Genedlaethol dros yr wythnos ddiwethaf:-

- Mewn seremoni yn Llundain ar 27 Tachwedd, cafodd yr Awdurdod a Harrison Design Ltd. eu ‘Cymeradwyo’n Uchel’ gan y Sefydliad Tirwedd yn y categori Datblygiadau Cyhoeddus (Graddfa Ganolig) am brosiect Lôn Gwyrfai.
- Y diwrnod canlynol cafodd yr Awdurdod lwyddiant yn noson wobrwyo’r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru pan fu iddynt ennill y brif wobr am y prosiect Ysgol Llanegryn.

Elfyn Evans o Ddinas Mawddwy, y Cymro cyntaf i gymryd rhan ym Mhencampwriaeth Ralio’r Byd a ddaeth yn 8fed ar ei flwyddyn gyntaf ac yn 5ed yn Rali Cymru.

Elen Evans o Ddinas Mawddwy ar ennill dros hanner cant o gapiau yn chwarae rygbi i Ferched Cymru.

Elain Llwyd o Gwmtirmynach ar ennill cadair Eisteddfod Ffermwyr Ieuainc Cymru.

**4. CWESTIYNAU**

*(Dosbarthwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i’r aelodau yn eu cyfarfodydd grwpiau ar fore’r Cyngor.)*

**(1) Cwestiwn gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd**

“Pam y bu i Arweinydd Cyngor Gwynedd wrthod cynnig i ymuno ag arweinyddion Cynghorau Sir Benfro, Caerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Môn, Pen-y-bont ar Ogwr a Wrecsam i arwyddo llythyr yn galw ar i Weinidog Cyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru, Carl Sargeant AC, fanteisio ar y Bil Cynllunio cyfredol i warchod a hybu’r iaith Gymraeg?”

**Ateb gan y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor**

“‘Rydym mewn cyfnod ymgynghori ar hyn o bryd ar gynnwys y Bil Cynllunio. Bydd yr Aelod Cabinet perthnasol, y Cynghorydd John Wyn Williams, yn ymateb yn llawn ac yn gynhwysfawr i gynnwys y Bil ac yn cyflwyno ymateb i’r Cabinet ei ystyried y mis hwn ac yna’r ymateb yn cael ei yrru’n llawn i’r Gweinidog. Dyna’r ffordd briodol i ymateb i’r Bil Cynllunio yn ystod y cyfnod ymgynghori.”

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd**

“O gymryd ei fod wedi gwrthod ymuno gyda’r arweinyddion eraill, ‘roedd gan Grŵp Plaid Cymru ddatganiad i’r wasg ryw bythefnos wedi iddo ddod i’r amlwg nad oedd Arweinydd Gwynedd wedi ymuno â’r arweinyddion eraill oedd yn dweud bod Grŵp Plaid Cymru Gwynedd yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys mewn unrhyw ddeddfwriaethau newydd wrth edrych ar faterion cynllunio ac yn mynd ymlaen i ddweud bod Plaid Cymru yn datgan yn glir a di-flewyn-ar-dafod bod Tîm Plaid Cymru Gwynedd wedi arwain ar y gwaith o bwyso a lobïo ar y newid i’r Bil Cynllunio newydd. O dderbyn y geiriau yma, sy’n eiriau clodwiw iawn, lle mae gwrthod arwyddo llythyr syml yn cymeradwyo’r egwyddorion yma yn gadael Grŵp Plaid Cymru? Nid yw’r Arweinydd a’r Grŵp yn canu o’r un llyfr emynau hyd y gwelaf. Mae hefyd yn codi cwestiynau ynglŷn â hygrededd hwn os yw’r grŵp yn cytuno gyda gwrthod arwyddo’r llythyr ac mae’n codi cwestiwn sylfaenol ynglŷn â dyfodol arweinyddiaeth y grŵp. Ydi’r Arweinydd yn gweld ei ddyfodol fel Arweinydd Grŵp Plaid Cymru ac Arweinydd y Cyngor hwn gan nad yw’n amlwg yn ateb dyheadau ei grŵp ei hun, na’r Cyngor hwn na phobl Gwynedd drwyddi draw?”

**Ateb gan y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor**

"'Rwyf bron â chynnig taflen ail-ymuno â Phlaid Cymru i'r aelod oherwydd mae'n ymddangos ei fod yn cymryd mwy o ddiddordeb yn y grŵp hwn na'i grŵp ei hun ac mae eisiau dylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd o fewn y grŵp hwn. Yr unig ffordd o wneud hynny, yn gyfansoddiadol, yw trwy ymaelodi â phlaid wleidyddol. Mae hwn yn amlygu mater eto lle mae yna wahaniaeth barn rhyngof i â'r Cynghorydd Alwyn Gruffydd. Mae Alwyn Gruffydd yn credu mai'r ffordd i ddylanwadu ac i gael y maen i'r wal yw trwy wneud cymaint o sŵn ag y gallwch, trwy weiddi a strancio a gwneud llawer o sylw cyhoeddus. Dyna'r llwybr mae Alwyn Gruffydd am ei ddilyn. Popeth yn iawn os ydi Alwyn Gruffydd am ddilyn y ffordd yna. Fel mae'r datganiad gan Blaid Cymru yn amlygu, mae'n dangos yn glir iawn ein bod ni fel gwleidyddion ym Mhlaid Cymru wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd gyda Gweinidogion, gyda'r Prif Weinidog, drwy ein cynrychiolwyr ar y pwyllgor perthnasol yn y Senedd yng Nghaerdydd yn ceisio dylanwadu ar y Bil yma. Nid yw strancio a gweiddi yn cael unrhyw ddylanwad. Mae'n hynod o anodd cael dylanwad oni bai eich bod mewn llywodraeth, wrth gwrs, ond 'rydym yn gwneud ein gorau i wneud hynny. Dyna'r ffordd rydym ni'n gweithio a dyna'r ffordd fwyaf effeithiol o gynrychioli ein dyheadau ni a hefyd i gynrychioli'r Cyngor hwn. 'Rwy'n falch mai dyma'r egwyddorion 'rydym ni'n glynu atynt."

**(2) Cwestiwn gan y Cynghorydd Craig ab Iago (ac a ofynnwyd gan y Cynghorydd Selwyn Griffiths yn absenoldeb yr aelod)**

"Beth yw'r camau mae'r Cyngor wedi eu cymryd er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i'r Bil Cynllunio newydd?"

**Ateb gan y Cynghorydd John Wyn Williams, Aelod Cabinet Cynllunio**

"'Rydym ni'n lobïo'n barhaol hefo'r swyddogion a'r Aelodau Cynulliad a Llywodraeth Cymru ar faterion iaith. Fe ddaru ni ymateb i'r Bil drafft a rŵan 'rydym yn y broses o ymateb i'r Bil ei hun, a byddwn wedi gwneud hynny cyn diwedd y flwyddyn. Mae swyddogion y Cyngor, minnau fel Aelod Cabinet, yr Arweinydd a'r Aelodau Cynulliad wedi bod yn lobïo ers talwm iawn ar y mater iaith a'r Bil Cynllunio. 'Roeddwn ar y 27ain o'r mis diwethaf o flaen Pwyllgor Craffu Cymunedau'r Cynulliad oedd yn edrych i mewn i'r Bil Cynllunio. 'Roedd 4 cynghorydd yno dros Gymru, wedi cael gwahoddiad i ddod yno a hefyd 'roedd yna rywfaint o swyddogion yn cael eu holi ar wahân i ni. 'Roedd Aled Davies yno. Fe ddaru ni ddefnyddio'r cyfle hwnnw hefyd i drafod beth 'rydym eisiau yn y Bil ynglŷn â'r iaith Gymraeg. Mae swyddogion y Cyngor wedi rhoi geiriad cyfreithiol at ei gilydd i'r cymalau perthnasol yn y Bil fyddai'n gwneud yr iaith Gymraeg yn ddeddfwriaethol, h.y. yn rhoi hawliau iddi fyddai wedyn yn gweithredu ar bob dim arall maen nhw'n wneud o hynny i lawr wedyn fel fframwaith strategol cenedlaethol a strategol lleol, ayb. Dyna'r ffordd ymlaen ac mae'r Pwyllgor Craffu wedi gofyn i ni yrru'r cymalau yma iddynt oherwydd bod ganddynt ddiddordeb mawr ynddynt ac mae yna gynghorau eraill wedi holi yn y cyfamser am weld y cymal oherwydd maent hwythau hefyd yn fodlon iawn i gefnogi'r cymal. Dyna'r math o waith 'rydym ni'n wneud ac yn parhau i'w wneud, sef lobïo'n barhaol ynglŷn â'r iaith Gymraeg a'r Bil Cynllunio."

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Selwyn Griffiths**

"Allwch chi sicrhau y bydd y swyddogion yn parhau â'r gwaith lobïo hwn?"

**Ateb gan y Cynghorydd John Wyn Williams, Aelod Cabinet Cynllunio**

"Gallaf."

**(3) Cwestiwn gan y Cynghorydd Sion Jones**

“Sut wnaeth yr Aelod Cabinet Economi benderfynu ar yr ymgeisydd gorau i fod yn ‘Bencampwr Busnes Gwynedd’?”

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Economi, y Cynghorydd John Wynn Jones**

“Pencampwr Busnesau Bychain sydd gennym, ac nid busnesau yn gyffredinol, ac mae hynny’n bwysig. Yn y cyfnod economaidd heriol hwn penderfynais y dylai Cyngor Gwynedd ddangos ei gefnogaeth i’r 12,000 a mwy o fusnesau bychain yn y sir, y rhai sydd yn cyflogi llai na deg, drwy benodi Pencampwr. Wrth edrych am berson brwdfrydig a allai uniaethu gyda sefyllfa'r busnesau yma penderfynais mai Siân Gwenllian oedd y person yna gan ei bod wedi gweithio i fusnes bach am saith mlynedd ac wedi gweithio ar ei liwt ei hun am gyfnodau hir dros y 25 mlynedd ddiwethaf. Yn ei chyfnod ar y Cyngor mae Siân wedi dangos fod ganddi wir ddiddordeb yn y maes. Gwn o gydweithio efo Siân ar y Cabinet ei bod yn berson sy’n gweithio’n galed, yn un fydd yn gwrando yn astud ar yr hyn fydd gan y sector fusnes bach i’w ddweud ac yn un sy’n barod i chwilio am atebion i unrhyw rwystrau allai godi yn eu hymwneud â’r Cyngor Sir. ‘Rwy’n edrych ymlaen at gydweithio efo hi ac i adeiladu ar y gwaith sydd eisoes ar droed gan y Cyngor yn y maes yma.”

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Sion Jones**

“Fyddai’r Aelod Cabinet yn fodlon edrych ar y mater eto gan edrych ar yr opsiynau ymhellach?”

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Economi, y Cynghorydd John Wynn Jones**

“Rhydd i’r cwestiynydd ei farn am bwy mae o’n credu sy’n deilwng, a rhydd i minnau hefyd, ac ar hyn o bryd, fi sy’n penderfynu. Bydd yntau’n gallu penderfynu pan fydd ar y Cabinet.”

**5. CYFLWYNIAD GAN YR AELOD CABINET GOFAL CWSMER**

Derbyniwyd cyflwyniad gan y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Gofal Cwsmer yn manylu ar ddatblygiadau yn y meysydd gofal cwsmer, democratiaeth a chyfreithiol, iaith, eiddo, technoleg gwybodaeth, y wefan, gwasanaethau i drigolion (Siop Gwynedd a Galw Gwynedd) a llyfrgelloedd.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gyfres o gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau mewn perthynas â:-

- Lansiad Strategaeth Iaith Hunaniaith. Gofynnwyd i’r Aelod Cabinet drefnu cyflwyniad i gyfarfod nesaf y Cyngor ar y Strategaeth.
- Y darogan, yn ôl y Swyddfa Ystadegau, y bydd y Gymraeg yn iaith leiafrifol yng Ngwynedd erbyn 2026.
- Cost gwefan newydd y Cyngor.
- Y diweddaraf o ran datblygu gwefannau cynghorau cymuned a thref. Cytunodd yr Aelod Cabinet i wneud ymholiadau pellach a dod yn ôl at yr aelod.
- Canfod arbedion drwy leihau nifer y peiriannau llungopïo ar draws y Cyngor.
- Anhawster cysylltu â swyddogion cynllunio drwy Galw Gwynedd. Nododd yr Aelod Cabinet ei fod ar ddeall bod y broblem hon wedi’i datrys bellach, ond petai gan yr aelod esiamplau o hyn, y byddai’n hapus i ddelio â hwy.

- Problemau mynediad i'r anabl i Lyfrgell Porthmadog oherwydd uchder ymyl y palmant. Cytunodd yr Aelod Cabinet i wneud ymholiadau pellach a dod yn ôl at yr aelod.
- Siomedigaeth na dderbyniodd Gwynedd unrhyw gyfran o'r pecyn ariannol o £1m a ddyrannwyd yn ddiweddar gan y Llywodraeth i wahanol gynlluniau iaith ledled Cymru.

Diolchwyd i'r Aelod Cabinet am ei gyflwyniad.

## 6. HER GWYNEDD

Derbyniwyd cyflwyniad llafar gan yr Aelod Cabinet Adnoddau yn atgoffa'r aelodau o'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r Prif Weithredwr a Thîm Her Gwynedd am eu hymroddiad i gael y neges drosodd i drigolion Gwynedd.

Nodwyd bod angen cywiro'r cyfeiriad yn y tabl ar dudalen 2 o'r cyflwyniad at fwlch o £50m i ddarllen £52m.

Mynegwyd pryder gan rai aelodau bod yr ysgolion wedi derbyn rhagrybudd y byddent yn wynebu diffyg yn eu cyllidebau'r flwyddyn nesaf, allai olygu bod gorfodaeth arnynt i ddiswyddo athrawon, a bod y llythyr wedi'i anfon atynt cyn i'r Cyngor bennu ei gyllideb ar gyfer 2015/16.

Mewn ymateb, rhoddodd y Prif Weithredwr esboniad llawn o'r toriad i ysgolion gan nodi:-

- Bod y targed o £4.3m a roddwyd i'r ysgolion yn gyfystyr â 6% o'r gyllideb, tra bo gwasanaethau eraill, megis y Gwasanaeth Plant, wedi derbyn targed llawer uwch o 16%.
- Bod rhaid i'r Cyngor gael cyllideb gytbwys a bod peidio gwneud toriadau ysgolion yn golygu toriadau llawer trymach mewn gwasanaethau eraill.
- Na wnaed unrhyw benderfyniad i ddiswyddo athrawon, ond yn hytrach i ofyn i'r ysgolion ystyried sut orau i wireddu'r £4.3m gan ystyried goblygiadau hynny yn erbyn dewisiadau eraill fydd ar gael i'r Cyngor.
- Nad diswyddo athrawon oedd yr unig opsiwn i'r ysgolion ac y gallent edrych ar gyllidebau eraill, e.e. y gyllideb ynni drwy leihau ôl troed carbon, ac ati.
- Bod yr ysgolion wedi derbyn rhagrybudd bod toriadau'n bosib' ac y disgwylid y byddai unrhyw bennaeth darbodus a phwyllog yn ariannol yn sefydlu cynllun wrth gefn ar gyfer y sefyllfa waethaf.
- Gan fod y broses o ddiswyddo athrawon yn cymryd amser maith, 'roedd rhai ysgolion yn cynllunio'n briodol drwy fynd ati ar unwaith i ddechrau'r broses drwy nodi y gallasent fod yn edrych am ddiswyddiadau gwirfoddol, rhag ofn y byddai'n rhaid gweithredu ar hynny maes o law. Byddai'n rhy hwyr i wneud hynny ar ôl i'r Cyngor sefydlu ei gyllideb ym mis Chwefror a byddai'r ysgolion yn mynd i'r flwyddyn ariannol nesaf gyda chyllideb anghyfreithlon. Ni fyddai'n disgwyl i'r un ysgol ddiswyddo unrhyw un nes gwybod yn bendant beth yw'r sefyllfa ariannol.
- Y derbynnid bod sôn am ddiswyddiadau yn creu ansefydlogrwydd a phryder ymysg y staff, ond, yn yr hinsawdd sydd ohoni, ni ellid rhoi sicrwydd i unrhyw un bod ei swydd yn ddiogel.
- Y cydnabyddid y gallai ymddangos yn beth od i rybuddio ysgolion y bydd ganddynt lai o arian cyn i'r penderfyniad hynny gael ei wneud, ond bu'n arferol, ers dechrau oes y Cyngor, i'r Gwasanaeth Addysg ysgrifennu at yr ysgolion yr adeg yma o'r flwyddyn gyda'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Dylai pob pennaeth ysgol

ddeall mai tafluniad yw hwn o'r hyn allai ddigwydd i'r dyfodol a gallai'r ysgolion naill ai anwybyddu'r sefyllfa neu ddechrau cynllunio ar ei gyfer.

- Bod yr Aelod Cabinet Addysg wedi anfon llythyr at gadeirydd pob corff llywodraethol yn egluro beth sydd wedi'i anfon i'r ysgolion a beth sydd angen iddynt wneud. Ni dderbyniodd y cynghorwyr gopi o'r llythyr hwnnw oherwydd bod yr Adran Addysg yn disgwyl eu bod yn llywodraethwyr ac yn derbyn yr wybodaeth felly, ond mater bach fyddai eu cylchlythyru ar yr un pryd â'r ysgolion o hyn allan os mai dyna eu dymuniad, a gallai fynd â'r genadwri yma yn ôl i'r adran.
- Na fyddai'r diffyg yng nghyllidebau ysgolion yn dod yn gyfan gwbl o doriadau, ond hefyd o ganlyniad i leihad yn niferoedd plant.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet Addysg ar rôl a phwrpas y Gweithgor Targed Arbedion Ysgolion a sefydlwyd i i ddatblygu cynlluniau ar gyfer gwireddu targed arbedion yr ysgolion dros y tair blynedd nesaf.

Codwyd y materion canlynol yn ogystal:-

- Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod yr aelodau yn derbyn pob gwybodaeth angenrheidiol yng nghyswllt yr her sy'n wynebu'r Cyngor.
- Cyfeiriwyd at anhawster mynychu gweithdai aelodau oherwydd cyfrifoldebau teuluol ac ymrwymiadau gwaith.
- Nodwyd, ar ôl i Ysgol Rhosgadfan wario rhai miloedd ar uwchraddio band llydan yr ysgol, bod GwE wedi gosod system newydd yno eleni ar gost yr ysgol, a phwysleisiwyd y dylai penaethiaid gael gwybodaeth am gynlluniau o'r fath ymlaen llaw er mwyn arbed gwario ddwywaith ar yr un adnodd.
- Nodwyd bod cynghorwyr yn cael eu beirniadu am dderbyn y toriadau, ond 'roedd eu dwylo wedi'u clymu a phwysleisiwyd pwysigrwydd cyfleu'r neges yma i'r cyhoedd.
- Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol, fod Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Parheid i ddisgwyl am y canllawiau diwygiedig gan y Llywodraeth, ond byddai'n rhaid i'r Cyngor adolygu'r strategaeth o gwmpas gwanwyn y flwyddyn nesaf.
- Mynegwyd siomedigaeth bod cyn lleied o'r cyhoedd wedi dod i'r cyfarfodydd Her Gwynedd ac awgrymwyd bod yr angen i gofrestru ar gyfer y cyfarfodydd fin nos wedi bod yn llyffethair i bobl ddod yno. Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet y rhagwelai y byddai yna fwy o gyhoedd yn cymryd rhan yn y gyfres nesaf o gyfarfodydd fyddai'n trafod y toriadau. Hefyd, mewn ymateb i sylw na chafwyd digon o amser i drafod yn llawn yn y gyfres gyntaf o gyfarfodydd, sicrhaodd yr Aelod Cabinet Adnoddau'r aelodau y byddai amser addas yn cael ei neilltuo ar gyfer y drafodaeth fanwl fydd ei hangen. Erfyniwyd ar yr holl Aelodau i fynd i'r gweithdai hyn.
- Holwyd ai'r ateb oedd cael gwirfoddolwyr i wneud y gwaith sy'n cael ei gyflawni gan swyddogion cyflogedig ar hyn o bryd? Atebodd yr Aelod Cabinet y bwriedid edrych ymhellach ar weithio gyda'r trydydd sector.
- Galwyd ar i'r Cyngor gyfarfod yn fwy aml er mwyn i'r Aelodau Cabinet egluro'r toriadau sy'n dod ymhen tri mis. Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet nad oedd yr un toriad wedi'i gynllunio eto. 'Roedd cais wedi'i wneud i'r adrannau ddod â syniadau gerbron fel y gellid ystyried beth sy'n bosib' ei dorri a byddai'r holl ddewisiadau hyn yn cael eu cyflwyno gerbron yr holl gynghorwyr. Nododd aelod fod ganddi lythyr gan un uned yn dweud eu bod yn wynebu toriad o £48,000. Mewn ymateb, eglurodd y Prif Weithredwr fod un o'r cynlluniau effeithlonrwydd yn cael ei drafod gyda'r sector wirfoddol ar hyn o bryd ac o bosib' bod yna elfen o gamddealltwriaeth. Cytunodd i edrych i mewn i'r mater ar ran yr aelod.

- Galwyd am ail-edrych ar y penderfyniadau i gwtogi arian i Gymorth i Ferched a Thrais yn y Cartref. Mewn ymateb, eglurodd y Prif Weithredwr nad oedd y penderfyniad wedi'i wneud eto. 'Roedd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol wedi argymell bod y cynllun i ddileu elfen o wasanaeth o fewn Cymorth i Ferched yn cael ei gyfeirio i graffu a byddai'r Cabinet yn ystyried hynny yn eu cyfarfod ar 16 Rhagfyr.

Diolchwyd i'r Aelod Cabinet Adnoddau am ei gyflwyniad.

**7. RHEOLAETH TRYSORLYS: ADDASIAD I STRATEGAETH FUDDSODDI 2014/15**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Adnoddau adroddiad yn gofyn i'r Cyngor adolygu a diweddaru'r atodlen o wrthbartion cymeradwy, sy'n rhan o'r Strategaeth Fuddsoddi, yn sgil newidiadau mewn rheoleiddio ar gyfer banciau.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau:-

- Eglurodd y Pennaeth Cyllid nad oedd ganddo bryder ynglŷn ag unrhyw un o'r banciau ar y rhestr a phetai yna bryder yn codi am fanciau unigol y byddai'r Cyngor yn derbyn gwybodaeth ddyddiol ac arweiniad ac yn gweithredu ar hynny ar unwaith.
- Nododd yr Aelod Cabinet nad oedd gan y Cyngor unrhyw wybodaeth ynglŷn â pha fanciau yn y wlad yma sy'n ymdrin ag Israel, ac felly nad oedd gan y Cyngor unrhyw fath o bolisi ynglŷn â defnydd o'r banciau hynny.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r addasiadau i'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi am 2014/15 (Atodiad A i'r adroddiad) ar gyfer y tri mis o 1 Ionawr 2015 i 31 Mawrth 2015.**

**8. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2015/16**

Yn absenoldeb yr Aelod Cabinet dros Atal Tlodi, cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn gofyn i'r Cyngor gadarnhau parhad y Cynllun Lleol cyfredol ar gyfer darparu cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill, 2015.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Parhau i weithredu Cynllun Lleol y Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2015 fel ag yr oedd yn ystod 2014/15. Felly, bydd yr amodau canlynol (i – iiii isod) ynghylch yr elfennau disgresiwn yn parhau:**

**i) Gweithredu diystyrwch o 100% i bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a hawlwyr oed gweithio fel ei gilydd.**

**ii) Peidio cynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r pedair wythnos safonol sydd yn y Cynllun Rhagnodedig.**

**iii) Peidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r tri mis safonol sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.**

**(b) Lle'n briodol, dirprwyo'r grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Atal Tlodi, i wneud mân addasiadau i'r cynllun am 2015/16, ar yr amod na fydd yn newid sylwedd y cynllun.**

**9. TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU – 2015/16**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Adnoddau adroddiad yn gofyn am gadarnhad ffurfiol am 2014/15 ac wedi hynny o'r penderfyniadau blaenorol i beidio caniatáu disgownt i ail gartrefi a pheidio caniatáu disgownt ar eiddo gwag.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd y Pennaeth Cyllid nad oedd yna drefn apelio yn erbyn y rheol 6 mis yng nghyswllt eiddo gwag Dosbarth C a bod y rheol hon yn bodoli fel terfyn amser rhesymol i annog pobl i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.
- Cyfeiriwyd at y broblem gynyddol o bobl yn cofrestru eu tai gwyliau fel busnes er mwyn osgoi talu'r dreth ac awgrymwyd bod angen sefydlu is-bwyllgor i edrych ar hyn neu gyfeirio'r mater i bwyllgor craffu. Awgrymwyd hefyd y byddai'n dda o beth cael Pencampwr Trethi Teg yn y Cyngor. Atebodd yr Aelod Cabinet fod y Cyngor yn lobïo am fesur yn y ddeddf i'w gwneud yn ofynnol cael caniatâd cynllunio i drosglwyddo ail gartref yn uned fusnes.
- Mynegwyd anfodlonrwydd o ddeall ei bod yn mynd i gymryd 3 blynedd cyn y gellir gweithredu'r ddeddf fydd yn caniatáu i gynghorau godi mwy na'r 100% arferol o Dreth Cyngor ar ail gartrefi. Atebodd yr Aelod Cabinet fod hyn yn sylw i'w basio ymlaen i'r Gweinidog perthnasol yng Nghaerdydd.
- Awgrymwyd y gallai dyblu'r Dreth Cyngor ar ail-gartrefi roi pobl allan o fusnes drwy danseilio'r diwydiant twristiaeth sy'n rhoi gwaith i bobl leol.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Bod Cyngor Gwynedd ar gyfer 2015/16 yn caniatáu <u>DIM</u> disgownt yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i'r ddau ddosbarth o ail gartrefi (dosbarthiadau A a B) fel y diffinnir yn Rheoliadau Treth Cyngor (Dosbarthau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) 1998.**

**(b) Bod Cyngor Gwynedd ar gyfer 2015/16 yn caniatáu <u>DIM</u> disgownt yng nghyswllt eiddo gwag (dosbarth C).**

**10. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD – AMSERLEN DDIWYGIEDIG YN Y CYTUNDEB CYFLAWNI**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cynllunio adroddiad yn argymell i'r Cyngor gymeradwyo amserlen ddiwygiedig i baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd er mwyn adlewyrchu'r newid mewn amgylchiadau a chydymffurfio a gofynion deddfwriaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â lefel twf tai arfaethedig y Cynllun Adnau drafft ac effaith hynny ar gymunedau lleol, ynghyd â gwelliant (a gafodd ei eilio) i wrthod yr amserlen, rhybuddiodd y Swyddog Monitro mai'r amserlen yn unig oedd gerbron y Cyngor a bod yr amserlen honno ynghlwm â chytundebau cyfreithiol a phroses a gytunwyd rhwng y ddau gyngor a Llywodraeth Cymru yn 2010 ac y byddai yna oblygiadau difrifol i beidio dilyn y broses honno.

Galwyd am bleidlais gofrestredig ar y gwelliant.

Eglurodd y Swyddog Monitro fod rhaid i welliant newid geiriad yn hytrach na negyddu'r cynnig gwreiddiol ac na fyddai gwrthod derbyn yr amserlen ddiwygiedig yn arwain y Cyngor i unman. 'Roedd yna drefn o ran lle a sut i gyfrannu at y drefn a'r broses gyda chyd-bwyllgor o'r ddau gyngor yn cadw trosolwg o'r broses hefyd.

Galwyd am bleidlais gofrestredig ar y cynnig gwreiddiol.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y cynnig:-

**O blaid y cynnig: (33)** Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Annwen Daniels, Dyfed Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Siân Gwenllian, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Peredur Jenkins, Anne Lloyd Jones, Charles W.Jones, Dyfrig Jones, John Wynn Jones, June Marshall, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Dewi Owen, Michael Sol Owen, Caerwyn Roberts, John Pughe Roberts, Gareth Roberts, Mair Rowlands, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Gethin Glyn Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams, R.H.Wyn Williams, Mandy Williams-Davies ac Eurig Wyn.

**Atal: (1)** Y Cynghorydd Elin Walker Jones.

**Yn erbyn: (18)** Y Cynghorwyr Anwen Davies, Elwyn Edwards, Aled Evans, Gweno Glyn, Simon Glyn, Alwyn Gruffydd, Louise Hughes, Jason Humphreys, Eric Merfyn Jones, Llywarch Bowen Jones, Sion Wyn Jones, Liz Saville Roberts, Angela Russell, Ann Williams, Elfed Williams, Gruffydd Williams, Owain Williams a Robert J.Wright.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig i baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd er mwyn adlewyrchu'r newid mewn amgylchiadau a chydymffurfio â gofynion deddfwriaethol.**

**11. RHYBUDDION O GYNNIG**

(A) Adroddwyd y derbyniwyd rhybudd o gynnig, ynghyd â rhybudd trefniadaethol, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, gan y Cynghorydd Elin Walker Jones, i drafod y cynnig canlynol yn y Cyngor llawn, yn hytrach na'i gyfeirio i bwyllgor.

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

"**Mae Cyngor Gwynedd yn datgan gwrthwynebiad llwyr i Bartneriaeth Fasnach a Buddsoddiad Trawsiwerydd: (TTIP: Transatlantic Trade and Investment Partnership). Cytundeb masnachu rhwng yr Unol Daleithiau ac Ewrop yw TTIP, sy'n cael eu trafod y tu ôl i ddrysau caeedig ac yn annemocrataidd. Mae TTIP yn ceisio lleihau rhwystrau rheoleiddiol i fusnesau mawr - pethau fel cyfraith diogelwch bwyd ac amgylcheddol, rheoliadau bancio a grym cenhedloedd unigol. Mae gwasanaethau fel y GIG mewn peryg' - mae TTIP yn fandad i gwmnïau preifat gymryd gwasanaethau drosodd. Ar hyn o bryd, mae'r trafodaethau yn dal i gynnwys y GIG. Mae'r trafodaethau yn peryglu democratiaeth gan y bydd hawl gan gwmnïau preifat erlyn llywodraethau os yw polisïau'r llywodraethau hynny yn achosi colledion mewn elw. Mandad i gwmnïau mawr i gymryd yr awenau yw hyn, yn hytrach na'r system ddemocrataidd, etholedig fel sydd gennym ar hyn o bryd.**

**'Rydym yn galw ar yr Undeb Ewropeaidd i atal yr holl drafodaethau am TTIP; i gyhoeddi'r mandad trafod, ac i ganiatáu archwiliad priodol o'r cytundeb gan Senedd Ewrop, Seneddau Cenedlaethol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.**

**'Rydym yn galw ar Arweinydd y Cyngor i ysgrifennu at ein haelodau seneddol yn Ewrop i fynegi ein gwrthwynebiad ar fyrder."**

Yn ystod y drafodaeth:-

- Cyfeiriodd y cynigydd at amrywiol wefannau ac erthyglau oedd yn amlygu gwrthwynebiad sawl corff i TTIP.
- Cefnogwyd y cynnig ar y sail bod y cytundeb masnachu hwn yn fygythiad i ddemocratiaeth.

Galwyd am bleidlais gofrestredig ar y cynnig.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y cynnig:-

**O blaid y cynnig: (47)** Stephen Churchman, Annwen Daniels, Anwen Davies, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Aled Evans, Gweno Glyn, Simon Glyn, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllian, Annwen Hughes, Jason Humphreys, Peredur Jenkins, Anne Lloyd Jones, Charles W.Jones, Dyfrig Jones, Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones, John Wynn Jones, Llywarch Bowen Jones, Sion Wyn Jones, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Dewi Owen, W.Roy Owen, E.Caerwyn Roberts, Liz Saville Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Ann Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams, Owain Williams, R.H.Wyn Williams, Mandy Williams-Davies, Robert J.Wright ac Eurig Wyn.

**Atal: (0)**

**Yn erbyn: (0)**

**PENDERFYNWYD derbyn y cynnig.**

(B) Adroddwyd y derbyniwyd rhybudd o gynnig, ynghyd â rhybudd trefniadaethol, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, gan y Cynghorydd Siân Gwenllian, i drafod y cynnig canlynol yn y Cyngor llawn, yn hytrach na'i gyfeirio i bwyllgor.

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

**"Mae'r Cyngor hwn yn nodi:**

- **Amcangyfrifwyd bod Trysorlys y Deyrnas Unedig yn colli cymaint â £12 biliwn bob blwyddyn oherwydd bod cwmnïau rhyngwladol yn osgoi talu trethi.**
- **Mae'r defnydd o hafanau trethi gan gwmnïau'r Deyrnas Unedig yn rhemp, gyda 98 o 100 cwmni'r FTSE yn defnyddio hafanau trethi fel mater o drefn.**
- **Mae cwmnïau rhyngwladol mawr yn talu cyn lleied â 5% mewn trethi corfforaethol yn fyd-eang, tra bod busnesau llai yn talu hyd at 30%.**

**Mae'r Cyngor hwn yn credu:**

- **Fel awdurdod lleol mae gennym ddyletswydd i ddarparu'r gwasanaethau cyhoeddus gorau bosib'.**
- **Byddai ein gallu i ddarparu gwasanaethau lleol o safon yn cael ei wella'n sylweddol gan gynnydd mewn refeniw gan y llywodraeth o ganlyniad i fynd i'r afael ag osgoi trethi.**
- **Dylai pawb sy'n elwa ar wariant cyhoeddus gyfrannu eu cyfran deg.**
- **Mae'n rhaid i'r Deyrnas Unedig arwain y blaen wrth greu system dreth decach a mynd i'r afael ag osgoi treth.**

**Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:**

- **I gefnogi'r ymgyrch dros gyfiawnder trethi a chefnogi'r cynnig isod:**

**Tra mae llawer o bobl gyffredin yn wynebu gostyngiad yn incwm y cartref a chynnydd mewn costau byw, mae rhai cwmnïau rhyngwladol yn osgoi biliynau o bunnoedd o drethi mewn system dreth sy'n methu gwneud iddyn nhw dalu eu cyfran**

**deg. Byddai llywodraethau lleol mewn gwledydd sy'n datblygu ac yn y Deyrnas Unedig fel ei gilydd yn elwa o system dreth decach lle mae cwmnïau rhyngwladol yn talu eu cyfran deg, gan alluogi awdurdodau o amgylch y byd i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o safon. 'Rydym yn galw ar lywodraeth y Deyrnas Unedig i weithredu a rhoi terfyn ar anghyfiawnder cwmnïau rhyngwladol mawr sy'n osgoi talu trethi."**

Yn ystod y drafodaeth:-

- Nodwyd bod achosion proffil uchel o osgoi treth yn tanseilio ymddiriedaeth yn y system drethi ac yn taro ar fusnesau sy'n chwarae'n deg ac yn talu eu siâr, a chynigiwyd ac eiliwyd i ychwanegu'r geiriad a ganlyn at y cynnig gwreiddiol:-

  *"Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i:-*

  *(1) gau bylchau, megis eithriad Eurobond, sef i atal cwmnïau rhag symud elw o'r wlad.*
  *(2) gynyddu tryloywder yn y system drethi.*
  *(3) mynd i'r afael â chwmnïau segur sy'n osgoi ffeilio trethi corfforaethol.*
  *(4) sicrhau bod gwledydd sydd wedi datblygu yn cymryd rhan lawn yn yr ymdrechion rhyngwladol i fynd i'r afael â'r broblem osgoi trethi."*
- Mynegwyd pryder bod 186 o weithwyr y Cyngor ar gytundebau oriau sero.
- Awgrymwyd y dylai'r cynnig gwreiddiol sefyll fel y mae rhag cymhlethu'r mater.
- Nodwyd bod Fforwm Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol yn hyrwyddo ac yn ymgyrchu am dryloywder ar hyd y llinellau hyn ac am ddiwygio'r sefyllfa o ran trethu corfforaethol, a bod Gwynedd, trwy fod yn aelod o'r sefydliad hwn, yn cydweithio gyda chronfeydd pensiwn awdurdodau eraill i ddwyn pwysau ac i ddylanwadu'n briodol ar y mater pwysig hwn.
- Galwyd am drefn drethu deg a chytbwys fel nad oes raid i fusnesau bychain a theuluoedd cyffredin wneud iawn am y diffyg ac wynebu toriadau mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Cytunodd cynigydd y cynnig gwreiddiol i ddiwygio'r cynnig ar y llinellau a nodwyd gyda chaniatâd y Cyngor a'r eilydd.

Pleidleisiwyd ar y cynnig diwygiedig, ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD derbyn y cynnig gwreiddiol, gyda'r ychwanegiad a ganlyn:-**

**"Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i:-**

**(1) gau bylchau, megis eithriad Eurobond, sef i atal cwmnïau rhag symud elw o'r wlad.**
**(2) gynyddu tryloywder yn y system drethi.**
**(3) mynd i'r afael â chwmnïau segur sy'n osgoi ffeilio trethi corfforaethol.**
**(4) sicrhau bod gwledydd sydd wedi datblygu yn cymryd rhan lawn yn yr ymdrechion rhyngwladol i fynd i'r afael â'r broblem osgoi trethi."**

Dymunwyd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 4.20pm.

______________________________

**CADEIRYDD**

# CABINET Y CYNGOR 25/11/14

**Yn bresennol** – Y Cynghorwyr : Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Mair Rowlands, Peredur Jenkins, John Wynn Jones, R H Wyn Williams, W Gareth Roberts, John Wyn Williams.

**Hefyd yn bresennol** – Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), William Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Hawis Jones (Rheolwr Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd), Iwan G D Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Rhian Tomos (Arweinydd Tîm Cefnogi'r Cabinet).

## 1. CROESAWU/YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan yr Arweinydd, y Cyng. Dyfed Edwards. Yn sgil ei absenoldeb, cafodd y cyfarfod ei gadeirio gan y Dirprwy Arweinydd, y Cyng. Dyfrig Siencyn.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyng. GarethThomas. Nid oedd yn gallu mynychu cyfarfod y Cabinet oherwydd rhesymau teuluol.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyng. Bob Wright a wahoddwyd i'r cyfarfod yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

Croesawyd aelodau Cabinet, y Cyng. John Pughe Roberts (Cadeirydd Pwyllgor Archwilio) a'r swyddogion i'r cyfarfod.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o Bwyllgorau Craffu.

## 5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar Hydref 6ed  2014.

## 6.1 CYLLIDEB REFENIW 2014/15 – ADOLYGIAD 2IL CHWARTER
## 6.2 GORWARIANT YM MAES GWASANAETHAU POBL HŶN

Cyflwynwyd yr adroddiadau gan y Cyng. Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau a'r Cyng, R H Wyn Williams, Aelod Cabinet Gofal.

**PENDERFYNIAD**

6.1

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2014) o'r Gyllideb Refeniw.

- Nodi sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, a chymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu harweiniad/rheolaeth.

- Cymeradwyo cyllideb ychwanegol o £44k i'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, i ddod o gyllidebau Corfforaethol y Cyngor.

6.2 Derbyn yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) ynglŷn â'r sefyllfa gorwariant yn y maes Pobl Hŷn (Oedolion, Iechyd a Llesiant).

- Derbyn yr esboniad o ran tuedd dwyster.

- Gofyn am adroddiad diwedd Chwarter 3 yn amlygu'r camau sydd ar y gweill yn y Gwasaneth i newid diwylliant I gyfundrefn trawsnewid a galluogi.

- Derbyn cadarnhâd ar ddiwedd Chwarter 3 bod yr egwyddor o newid diwylliant wedi cael ei fabwysiadu gan reolwyr a swyddogion yr Adran Gofal.

**7. RHAGLEN GYFALAF 2014/15 – 2016/17 ADOLYGIAD 2IL CHWARTER**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2014) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig, sef:

- addasiad £2,699,000 gwir lithriadau o 2013/14
- lleihad £3,111,000 mewn benthyca heb gefnogaeth
- cynnydd £2,134,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- cynnydd £425,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- cynnydd £176,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- lleihad £351,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
- cynnydd £417,000 mewn defnydd o gronfeydd eraill

**8. MESURYDDION CENEDLAETHOL 2013/14: TROSOLWG PERFFORMIAD GWYNEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Dirprwy Arweinydd.

**PENDERFYNIAD**

- Dylid dod i gasgliad ar sut i drin y mesuryddion cenedlaethol yn y dyfodol fel rhan o'r broses creu Cynllun Strategol
- Aelodau Cabinet i weithredu ar yr argymhellion sy'n berthnasol i fesuryddion unigol.
- Aelodau Cabinet i gyfeirio unrhyw rwystrau rhag cyflawni i sylw'r Cabinet yn unol â'r trefniadau arferol i adrodd ar berfformiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 1 o'r gloch a daeth i ben am 2.20 pm.

____________________________

**CADEIRYDD**

# CABINET Y CYNGOR 16/12/14

**Yn bresennol** – Y Cynghorwyr : Dyfed Edwards (Arweinydd), Peredur Jenkins, John Wynn Jones, W Gareth Roberts, Mair Rowlands, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, R H Wyn Williams, John Wyn Williams.

**Hefyd yn bresennol** – Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan G D Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd), Nia Haf Davies (Rheolwr Cynllunio), Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Meinir Owen (Rheolwr Prosiectau Corfforaethol)
Bethan Richardson (Arweinydd Tîm Cefnogi'r Cabinet).

**1. CROESAWU/YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd aelodau Cabinet, y Cyng. Dafydd Meurig a Mandy Williams-Davies, a'r swyddogion i'r cyfarfod.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o Bwyllgorau Craffu.

**5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar Dachwedd 25ain 2014.

**6. BLAENRAGLEN CABINET CYNGOR GWYNEDD**

Cyflwynwyd y Flaenraglen gan yr Arweinydd, gydag esboniad bod rhai diweddariadau ers cyhoeddi'r fersiwn hon.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo'r Blaenraglen.

**7. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD – Y CYNLLUN ADNAU DRAFFT**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. John Wyn Williams, Aelod Cabinet Cynllunio.

**PENDERFYNIAD**

Mae'r Cabinet yn gytûn fod y drafft o'r Cynllun Adnau a gyflwynwyd yn symud i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd i'w ystyried cyn ei ryddhau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus heb iddynt gynnig sylwadau penodol ar y cynnwys.

## 8. TREFNIADAU DIOGELU PLANT CYNGOR GWYNEDD – CANLYNIADAU ARCHWILIADAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. R H Wyn Williams, Aelod Cabinet Gofal.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo y rhaglen waith i gyfarch yr argymhellion yn adroddiadau Estyn, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

## 9. Arbedion Effeithlonrwydd 2015/16 – 2017/18

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau.

**Penderfyniad**

(a) Bod y cynigion canlynol ar gyfer arbedion effeithlonrwydd yn cael eu cyfeirio i'r Pwyllgor Craffu perthnasol am waith pellach cyn cyfeirio cynllun yn ôl i'r Cabinet am benderfyniad terfynol –

| Cyf | Teitl y cynnig | Penderfyniad |
|---|---|---|
| DaCh4 | Cwtogi cyllideb cyhoeddusrwydd Cofrestru Etholwyr | Pwyllgor Craffu Corfforaethol i graffu beth fyddai effaith y cynllun ar ein gallu i sicrhau dyletswydd statudol i gofrestru etholwyr. |
| SaG6 | Ymchwil a Dadansoddeg | Dal y cynnig yn ôl am y tro hyd nes bydd sefyllfa toriadau yn glir. |
| C25 | Rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth cefnogi systemau tu allan i oriau | Pwyllgor Craffu Corfforaethol ym mis Ionawr i graffu beth fyddai effaith y cynllun ar allu'r gwasanaethau perthnasol i gynnal gwasanaeth tu allan i oriau pe bai'r systemau yn methu. |
| Rh9 | Rhoi'r gorau i swyddogaethau anstatudol – Gwasanaethau Rheoli Pla | Pwyllgor Craffu Cymunedau i gael eglurder ar wir effaith y prif opsiynau gan gyfarch y cwestiynau isod:<br>- Petasai'r ffi yn codi er mwyn adfer y gost o ddarparu'r gwasanaeth, a fyddai dal yn gystadleuol gyda'r sector breifat?<br>- Beth fyddai'r effaith o godi'r ffi ar adrannau eraill Cyngor Gwynedd? |
| Rh11, Rh12 a Rh27 | Lleihad o 10% yng nghyllidebau Gwarchod y Cyhoedd (3 cam) | Pwyllgor Craffu Cymunedau i gael eglurder ar wir effaith cynnig Rh12 a Rh27 ar ôl dechrau gwireddu Rh11. |
| Rh16 | Hysbysebu ceisiadau cynllunio yn y wasg | Pwyllgor Craffu Cymunedau i gael gwell eglurder am yr effaith potensial y gallai'r cynnig ei gael ar y broses ddemocrataidd. |
| PB1 | Caffael | Pwyllgor Craffu Cymunedau i sicrhau bod cydbwysedd cywir rhwng arbed arian a |

| Cyf | Teitl y cynnig | Penderfyniad |
|---|---|---|
| | | chadw’r budd yn lleol. |
| PB24 | Trefn Gwahanol o Newid Lampau | Pwyllgor Craffu Cymunedau i edrych a chymharu’r cynnig gyda’r drefn bresennol (“bulk change”) er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y dewis cywir. Cyflwynwyd y drefn “bulk change” fel ffordd o arbed arian yn y lle cyntaf. |
| A5 | Addysg Feithrin | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau i graffu effaith posib y cynnig |
| P6 | Dadgomisiynu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Cymorth i Ferched De Gwynedd | Cyflwyno gwybodaeth ariannol am effaith ehangach y cynllun hwn ar gyllidebau’r cyrff dan sylw, yn cynnwys eu gallu i ddenu grantiau pellach i’r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau |
| P7 | Dadgomisiynu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Cymorth i Ferched Bangor | |

OED13 – penderfynwyd cymeradwyo’r cynnig.

(b) Cymeradwyo’r holl gynigion arbedion effeithlonrwydd eraill a nodwyd yn Atodiad 2 yr adroddiad ond gan ofyn i’r achos busnes manwl ar gyfer y cynlluniau canlynol gael eu cyflwyno i’r Cabinet cyn eu gweithredu –

EaCH10 Cyfeiriad Strategol a Model darparu Newydd i’r Gwasanaeth Llyfrgelloedd
EaCH11c Dull darparu newydd i’r Gwasanaeth Ieuenctid
OED 8 Ail fodelu Gwasanaethau Cefnogol Anableddau Dysgu
OED 9 Ail fodelu Gwasanaethau Gofal Ysbaid Anableddau Dysgu
OED 10 Ail fodelu Gwasanaethau Llety Cefnogol Anableddau Dysgu

Dechreuodd y cyfarfod am 1 o’r gloch a daeth i ben am 2.50 pm.

____________________________

**CADEIRYDD**

# CABINET Y CYNGOR 13/1/15

**Yn bresennol** – Y Cynghorwyr : Dyfed Edwards (Arweinydd), Peredur Jenkins, John Wynn Jones, W Gareth Roberts, Mair Rowlands, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Dafydd Meurig, Mandy Williams-Davies.

**Hefyd yn bresennol** – Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan G D Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Cyllid), Guto Rhys Huws (Rheolwr Arweiniol Ad-drefnu Ysgolion Cynradd), Gwenan Jones-Parry (Cydlynydd Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion), Gareth Richard Jones (Rheolwr Prosiect), Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), David Wood (Uwch Ymgynghorwr Technegol), Bethan Richardson (Arweinydd Tîm Cefnogi'r Cabinet).

Aelodau Lleol yn bresennol –
Ar gyfer Eitem 6 – Y Cynghorydd Louise Hughes

## 1. CROESAWU/YMDDIHEURIADAU

Croesawyd aelodau Cabinet, aelodau lleol, aelodau'r Wasg a'r cyhoedd a'r swyddogion i'r cyfarfod.

Ymddiheuriadau - Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Arwyn Thomas (Pennaeth Addysg).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Peredur Jenkins fuddiant personol yn eitem 6 ar y rhaglen (Dyfodol Darpariaeth Addysg yn Nalgylch y Gader), oherwydd ei fod yn aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol y Gader Dolgellau a bod ei Ferch yn Bennaeth Ysgol Gynradd Rhydymain/Brithdir.

Datganodd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn fuddiant personol yn eitem 6 ar y rhaglen (Dyfodol Darpariaeth Addysg yn Nalgylch y Gader), oherwydd bod ei Fab yn ddisgybl yn Ysgol y Gader Dolgellau, ei fod yn Gadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol y Gader Dolgellau ac yn aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Dolgellau.

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu a gadawsant y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o Bwyllgorau Craffu.

**5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar Ragfyr 16eg 2014.

**6. DYFODOL DARPARIAETH ADDYSG YN NALGYLCH YSGOL Y GADER – PENDERFYNIAD AR GYHOEDDI RHYBUDD STATUDOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg.

**PENDERFYNIAD**

i. Cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Brithdir, Ysgol Machreth (Llanfachreth), Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd, Ysgol Friog, Ysgol Clogau (Bontddu) ac Ysgol Ganllwyd ar 31 Awst 2017 a sefydlu Ysgol Dalgylch Dilynol 3-16 cymunedol cyfrwng Cymraeg ar safleoedd ysgolion presennol Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd ac Ysgol Friog, ar 1 Medi 2017.

ii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig yn (i) uchod yn unol a gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

iii. Yn dilyn ystyried sylwadau'r ymgynghoriad yn gysylltiedig a phwysigrwydd penodi pennaeth a'r angen iddynt gael eu penodi o flaen amser, cymeradwyo cyllido pennaeth yr ysgol ddilynol dalgylchol o arbedion y cynllun am o leiaf blwyddyn cyn agor yr ysgol ym Medi 2017.

**7. DYFODOL DARPARIAETH ADDYSG ANGHENION ARBENNIG YM MEIRIONNYDD A DWYFOR**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg.

**PENDERFYNIAD**

A. Ail-leoli Ysgol Hafod Lon ac Uned Tŷ Aran i'r safle newydd ym Mhenrhyndeudraeth ar 1 Medi 2016, gan gynyddu capasiti yr ysgol ac ychwanegu elfen breswyl i'r ddarpariaeth.

B. Dyrannu cyllid cyfalaf ychwanegol o rhwng £0.275m a £0.550m i ymdopi ag effaith chwyddiant ac felly osgoi gorfod torri ar rai o allbynnau creiddiol y cynllun.

**8. CYNLLUN STRATEGOL Y CYNGOR**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo rhyddhau £152,000 o adnoddau o gronfeydd y Cynllun Strategol i drawsnewid y ffordd mae defnyddwyr canolfannau hamdden yn cael mynediad i logi cyfleusterau hamdden a sicrhau'r arbedion o £60,000 y flwyddyn fydd yn deillio o'r herwydd.

## 9. CYLLIDEB 2015/16: DYGYMOD GYDA'R BWLCH ARIANNOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd mewn egwyddor ar y camau canlynol fel sail i drafodaethau pellach gydag Aelodau'r Cyngor ar gyfer cau'r bwlch ariannol o £5.6m fydd ar ôl i'w ddarganfod ar ôl gweithredu ar yr arbedion effeithlonrwydd sydd wedi eu hadnabod hyd yma a chynyddu'r Dreth Gyngor 3.5%.

1. Ystyried cynyddu'r Dreth Cyngor yn uwch na 3.5% hyd at 5% gan amlygu beth fyddai'r gost o ran toriadau gwasanaethau o beidio a gwneud hynny.
2. Rhagdybio y byddwn yn gweithredu'r Adolygiad Strategol Priffyrdd pan ddaw'r adroddiad ger bron y Cabinet.
3. Sicrhau Arbedion o gyllidebau datganoledig Ysgolion
4. Gofyn i'r Adrannau brysuro cynlluniau arbedion effeithiolrwydd
5. Pontio o'r Balansau am 2015/16, er mwyn ymgynghori'n gynhwysol ynglyn â thoriadau,
6. Gweithredu'r Strategaeth Toriadau yn amserol ar gyfer 2016/17.

Dechreuodd y cyfarfod am 1 o'r gloch a daeth i ben am 2.40 pm.

__________________________

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL 13/11/14

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Dyfrig Jones (Cadeirydd).

**Y Cynghorwyr:-** Trevor Edwards, Aled Evans, Siân Gwenllian, Annwen Hughes, June Marshall, Dafydd Meurig, Michael Sol Owen, W.Roy Owen, Eirwyn Williams a Gethin Glyn Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Debbie Anne Williams Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democrataidd) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 3 isod:-**
Y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor

**Yn bresennol ar gyfer eitem 4 isod:-**
Y Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Economi

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5 isod:-**
Y Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau
Y Cynghorydd Peter Read, Cadeirydd y Gweithgor Craffu Arbedion
Dilwyn Williams, Prif Weithredwr

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Lesley Day, Elwyn Edwards a Jason Humphreys.

Croesawyd y Cynghorwyr Annwen Hughes a W.Roy Owen i'w cyfarfod cyntaf o'r pwyllgor hwn.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Prif Weithredwr fuddiant personol yng Nghynnig Arbed Effeithlonrwydd A5 – Addysg Feithrin (dan eitem 7 ar y rhaglen), oherwydd bod ei wraig yn gweithio i'r Mudiad Ysgolion Meithrin, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y cynnig hwn.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Medi, 2014 fel rhai cywir.

Gan gyfeirio at eitemau 3 a 4, nododd y Cadeirydd y byddai'r Cyfarfod Paratoi nesaf yn ystyried sut i dderbyn gwybodaeth o hyn allan ar Gwynedd Amdani a Meddylfryd Systemau.

## 3. YMCHWILIAD CRAFFU AGENDA WLEDIG
**Aelod Cabinet: y Cynghorydd Dyfed Edwards**

(A) Cyflwynwyd – adroddiad yr Arweinydd yn amlygu'r camau a gymerwyd ganddo hyd yma i ymateb i argymhellion yr Ymchwiliad Craffu.

(B) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, ymatebodd yr Arweinydd i gwestiynau / sylwadau ynglŷn â:-

- Yr hyn sy'n bosib' ei wneud o fewn y cyfundrefnau presennol a beth sydd angen ei ddiwygio yn y Cynllun Strategol.
- Y gwaith lobïo er ceisio dylanwadu ar bolisïau cenedlaethol.
- Tlodi cudd a'r ffaith bod y mesurau cenedlaethol yn cydnabod dwysedd tlodi'n unig.

**PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd hyd yma a derbyn adroddiad pellach gan yr Arweinydd ym mis Ionawr 2015 ar yr argymhellion sydd yn berthnasol i waith y Cyngor.**

**4. YMCHWILIAD CRAFFU CAFFAEL CYNALIADWY**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd John Wynn Jones**

(A) Cyflwynwyd - adroddiad yr Aelod Cabinet Economi yn ymateb i gwestiynau penodol yn gysylltiedig â'r argymhellion.

(B) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau pellach a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, ymatebodd yr Aelod Cabinet Economi a'r Pennaeth Strategol a Gwella i gwestiynau / sylwadau ynglŷn â:-

- Biwrocratiaeth a'r risg o gynyddu llwyth gwaith y staff.
- Mesur llwyddiant ar y lefel uchaf.
- Yr her o sefydlu canlyniadau allweddol ar gyfer y cyfnod 2014-17.
- Pa mor heriol yw'r amcanion?
- Bod yn fwy uchelgeisiol a chaffael o siroedd cyfagos.
- Y nod o greu un drefn ac un tîm i gyflawni'r gwaith ar draws y Cyngor.
- Y gadwyn fwyd o ran cyflenwi cig i ysgolion.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac ystyried y mater eto ymhellach ymlaen.**

**5. CYNIGION ARBED EFFEITHLONRWYDD**

(A) Cyflwynwyd – adroddiad Cadeirydd y Gweithgor Craffu Arbedion yn cyflwyno argymhellion y gweithgor i'r pwyllgor craffu hwn, ynghyd â chopi o becyn y Gweithdai Aelodau, er gwybodaeth. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a chytuno unrhyw argymhellion i'w cyflwyno i'r Cabinet wneud ei benderfyniad ar 16 Rhagfyr.

(B) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau ar gynnwys pecyn y Gweithdai Aelodau. Ymatebodd y Prif Weithredwr i gwestiynau ynglŷn â balansau ysgolion ynghyd â'r cynigion arbed a ganlyn:-

- HAM4 (Rhedeg cyfleusterau hamdden yn fwy effeithiol). Eglurodd y Prif Weithredwr mai rhan gyntaf y cynllun yn unig oedd gerbron ar hyn o bryd a chytunodd i anfon yr wybodaeth fanwl at yr aelod.
- C23 (Ailstrwythuro Archwilio Mewnol).
- RH2 (Cyfrif Llif / Cyflymdra (Uned Traffig))
- C1 (Ail-strwythuro refeniw)

Mewn ymateb i ymholiad pellach, eglurodd y Prif Weithredwr y byddai'r 197 o gynigion arbed yn arwain at golli 166 o swyddi, a bod yna 34 o gynlluniau eraill i'w hychwanegu, nad oedd eu goblygiadau o safbwynt colli swyddi yn amlwg eto. Galwodd aelodau am ddadansoddiad manwl ar ddiwedd y broses o'r holl swyddi a gollir ynghyd â natur y diswyddiadau.

(C) Ystyriwyd argymhellion y gweithgor, gan roi sylw yn gyntaf i'r cynigion sydd i'w gwireddu yn 2015/16 (a amlygwyd mewn llwyd yn yr adroddiad). Yn ystod y drafodaeth:-

- Mynegodd Cadeirydd y Gweithgor ei ddymuniad i ychwanegu y cynigion P6 (Dadgomisiynu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Chymorth i Ferched De Gwynedd) a P7 (Dadgomisiynu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Chymorth i

Ferched Bangor) i'r rhestr o gynigion lle mae angen craffu pellach i ddeall yr effaith ar bobl Gwynedd. Nododd y Pennaeth Strategol a Gwella bod y Pennaeth Plant wedi adrodd bod yna risg ond bod y risg yn un cymharol isel. Nodwyd mai un elfen o waith y llochesi oedd dan sylw a byddai cyfrifoldebau statudol y Cyngor yn dal i gael eu cyflawni. Mynegwyd pryder y gallai gweithredu'r cynigion hyn arwain at fwy o gost oherwydd y byddai'n cynyddu atebolrwydd y Cyngor.

- A5 (Addysg Feithrin). Nodwyd na chytunid â'r geiriad "*Opsiynau a gwasanaeth ehangach i rieni gan roi dewis iddynt o roi eu plant mewn ysgol neu mewn cylch meithrin*" yn y tabl "Effaith ar Bobl Gwynedd" oherwydd, o bosib', na fyddai yna gylchoedd meithrin mewn rhai ardaloedd gwledig o'r sir. Nododd y Cadeirydd mai pwrpas yr argymhelliad oedd ceisio mwy o eglurder ar hyn.

**PENDERFYNWYD cyflwyno'r argymhellion a ganlyn i'r Cabinet wneud ei benderfyniad ar 16 Rhagfyr, ynghyd â'r ddau fater ychwanegol a godwyd gan Gadeirydd y Gweithgor Craffu Arbedion:-**

| **Cyf** | **Teitl y cynnig** | **Argymhelliad** |
|---|---|---|
| **DaCh4** | **Cwtogi cyllideb cyhoeddusrwydd Cofrestru Etholwyr** | **Argymell i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol graffu beth fyddai effaith y cynllun ar ein gallu i sicrhau dyletswydd statudol i gofrestru etholwyr.** |
| **SaG6** | **Ymchwil a Dadansoddeg** | **Gweithgor yn nodi y dylid dal y cynnig yn ôl am y tro hyd nes bydd sefyllfa toriadau yn glir ac ystyried llunio achos busnes i gadw'r uned fel y mae hi.** |
| **C25** | **Rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth cefnogi systemau tu allan i oriau** | **Argymell i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol graffu beth fyddai effaith y cynllun ar allu'r gwasanaethau perthnasol i gynnal gwasanaeth tu allan i oriau pe bai'r systemau yn methu.** |
| **OED** | **Cynigion ym maes Oedolion** | **Angen sicrhau amserlen ar gyfer y cynigion a'r angen i gael cynlluniau prosiect cadarn er mwyn sicrhau y byddwn yn gwireddu'r cynigion, ac y dylid tynnu sylw'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol at yr angen hwnnw.** |
| **OED13** | **Addasu cytundebau darparwyr** | **Argymhellir cyflwyno gwybodaeth bellach ynglŷn ag effaith posib y cynnig i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol.** |
| **Rh9** | **Rhoi'r gorau i swyddogaethau anstatudol – Gwasanaethau Rheoli Pla** | **Argymhellir i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol gael eglurder ar wir effaith y prif opsiynau gan gyfarch y cwestiynau isod:** |

| Cyf | Teitl y cynnig | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | - **Petasai'r ffi yn codi er mwyn adfer y gost o ddarparu'r gwasanaeth, a fyddai dal yn gystadleuol gyda'r sector breifat?**<br><br>- **Beth fyddai'r effaith o godi'r ffi ar adrannau eraill Cyngor Gwynedd?** |
| **Rh11, Rh12 a Rh27** | **Lleihad o 10% yng nghyllidebau Gwarchod y Cyhoedd (3 cam)** | **Argymhellir i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol gael eglurder ar wir effaith y cynigion ar ôl dechrau gwireddu.** |
| **Rh16** | **Hysbysebu ceisiadau cynllunio yn y wasg** | **Argymhellir i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol gael gwell eglurder am yr effaith potensial y gallai'r cynnig ei gael ar y broses ddemocrataidd.** |
| **PB1** | **Caffael** | **Argymhellir i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol sicrhau bod cydbwysedd cywir rhwng arbed arian a chadw'r budd yn lleol.** |
| **PB24** | **Trefn Wahanol o Newid Lampau** | **Argymhellir i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol edrych a chymharu'r cynnig gyda'r drefn bresennol ("bulk change") er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y dewis cywir. Cyflwynwyd y drefn "bulk change" fel ffordd o arbed arian yn y lle cyntaf.** |
| **A5** | **Addysg Feithrin** | **Argymhellir cyflwyno gwybodaeth bellach ynglŷn ag effaith posib y cynnig i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol.** |

**Materion ychwanegol**

| | | |
|---|---|---|
| **P6** | **Dadgomisiynu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Chymorth i Ferched De Gwynedd** | **Gofyn i'r Cabinet beidio gweithredu'n syth a chyfeirio'r cynnig i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau er mwyn iddynt graffu'r effaith ymhellach, ond ar y ddealltwriaeth y bydd angen penderfyniad cyn 1 Ebrill, 2015.** |
| **P7** | **Dadgomisiynu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Cymorth i Ferched Bangor** | **Gofyn i'r Cabinet beidio gweithredu'n syth a chyfeirio'r cynnig i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau er mwyn iddynt graffu'r effaith ymhellach, ond ar y ddealltwriaeth y bydd angen penderfyniad cyn 1 Ebrill, 2015.** |

**Cynigion i'w gwireddu yn 2015/16**

**6. YMCHWILIAD CRAFFU CYNLLUN DATBLYGU LLEOL - CYDWEITHIO**

Gofynnwyd i'r pwyllgor gadarnhau aelodaeth y Grŵp Ymchwiliad Craffu.

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r aelodaeth a ganlyn ar gyfer y Grŵp Ymchwiliad Craffu:-**

**Cadeirydd y pwyllgor hwn, y Cynghorydd Dyfrig Jones, ynghyd â'r Cynghorwyr Trevor Edwards ac Eirwyn Williams.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.20pm.

____________________________

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL 15/1/15

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Jason Humphreys (Is-gadeirydd yn cadeirio).

**Y Cynghorwyr:-** Gwynfor Edwards, Elwyn Edwards, Aled Evans, Siân Gwenllian, Michael Sol Owen, W.Roy Owen, Eirwyn Williams, John Wyn Williams ac R.H.Wyn Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Debbie Anne Williams Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democrataidd) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 3 isod:-**
Y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Gofal Cwsmer

**Yn bresennol ar gyfer eitem 4 isod:-**
Y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Gofal Cwsmer
Huw Ynyr (Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5 isod:-**
Alwyn Evans Jones (Pennaeth Adnoddau Dynol)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6 isod:-**
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Dirprwy Arweinydd (yn dirprwyo ar ran yr Arweinydd)
Vera Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democrataidd)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Lesley Day, Dyfed Edwards, Gweno Glyn, Simon Glyn, Annwen Hughes, Peredur Jenkins, Dyfrig Jones, June Marshall a Gethin Glyn Williams.

Hefyd, Andy Bruce, Swyddfa Archwilio Cymru.

Croesawyd y Cynghorwyr John Wyn Williams ac R.H.Wyn Williams i'w cyfarfod cyntaf o'r pwyllgor hwn.

Nododd y Cadeirydd fod angen trafodaeth ar ddiwedd y cyfarfod ynglŷn ag aelodaeth yr Ymchwiliad Craffu Cynllun Datblygu Lleol – Cydweithio.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd, 2014 fel rhai cywir.

**3. STRATEGAETH YMGYSYLLTU**
**Aelod Cabinet: y Cynghorydd Ioan Thomas**

(a) Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer yn ymateb i gwestiynau penodol a godwyd yn y Cyfarfod Paratoi diwethaf ar 27 Tachwedd, 2014.

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad, eglurodd yr Aelod Cabinet nad ef oedd yn gyfrifol am y maes ymgysylltu bellach yn sgil newidiadau diweddar yng nghyfrifoldebau'r

Aelodau Cabinet, ond gan fod yr adroddiad yn adrodd ar yr hyn oedd wedi digwydd eisoes ac wedi'i baratoi cyn gweithredu'r newidiadau i'r Cabinet, mai ef oedd yn y sefyllfa orau i ateb cwestiynau'r aelodau.

(b) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau / sylwadau ynglŷn â'r:-

- Uchelgais ar gyfer gwella ymgysylltu a'r angen i fod yn realistig yn wyneb yr her ariannol newydd y mae'r Cyngor yn ei wynebu.
- Yr angen am fwy o ymgysylltu'n lleol a gwell ymgysylltu yn wyneb y toriadau sydd ar y gorwel.
- Y pwyslais a roddir gan wahanol adrannau ar ymgysylltu.

(c) Casglwyd o'r drafodaeth fod ymgysylltu'n hollbwysig, ond hefyd yn her sylweddol sy'n amhosib' ei chyfarch yn llwyr, ond bod y Cyngor am wneud popeth o fewn ei allu i wireddu gofynion y Strategaeth.

## 4. CYNNIG ARBEDION C25 – DIDDYMU DARPARIAETH CEFNOGAETH TG Y TU ALLAN I ORIAU CRAIDD Y CYNGOR

**Aelod Cabinet: y Cynghorydd Ioan Thomas**

(a) Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer mewn ymateb i gais y Cabinet ar 16 Rhagfyr, 2014 i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol graffu beth fyddai effaith cynnig arbed effeithlonrwydd C25 ar allu'r gwasanaethau perthnasol i gynnal gwasanaeth tu allan i oriau pe bai'r systemau yn methu.

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad, eglurodd yr Aelod Cabinet nad ef oedd yn gyfrifol am y maes technoleg gwybodaeth bellach yn sgil newidiadau diweddar yng nghyfrifoldebau'r Aelodau Cabinet, ond gan fod yr adroddiad wedi'i baratoi cyn gweithredu'r newidiadau, mai ef oedd yn y sefyllfa orau i ateb cwestiynau'r aelodau.

(b) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau / sylwadau ynglŷn ag:-

- Effaith y cynllun arbed ar garfannau mwyaf bregus cymdeithas o ystyried bod mwyafrif y problemau yn y maes gofal yn codi ar benwythnosau, ac yn enwedig ar gyfnodau gwyliau megis y Pasg a'r Nadolig.
- Pwysigrwydd gallu rhannu data gydag asiantaethau eraill 24/7.
- Pryder ynglŷn â diddymu'r gefnogaeth i weithwyr gofal oni bai bod yna drefniant amgen yn ei le.
- Dibynadwyedd y systemau technoleg gwybodaeth.
- Yr angen i werthuso'r holl systemau technoleg gwybodaeth.
- Y senario gwaethaf pe na bai'r gefnogaeth TG ar gael.
- Dichonolrwydd treialu'r cynnig am flwyddyn yn unig yn y lle cyntaf.

(c) Cytunwyd i gyfleu'r neges i'r Cabinet bod y pwyllgor hwn wedi rhoi ystyriaeth fanwl i effaith bosib' y cynnig a bod yr aelodau'n pryderu'n gyffredinol na chyflawnwyd digon o werthuso o ran y risg ac na ystyriwyd yr agweddau ymarferol yn ddigon manwl, ac yn hytrach nag adweithio ar ôl i bethau fynd o'u lle, gwell fyddai ceisio osgoi sefyllfa o'r fath yn y lle cyntaf.

**5. CAFFAEL YNNI YN RHATACH**
**Aelod Cabinet: y Cynghorydd Peredur Jenkins**

(a) Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn ymateb i gwestiynau penodol a godwyd yn y Cyfarfod Paratoi diwethaf ar 27 Tachwedd, 2014.

(b) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, ymatebodd y Pennaeth Adnoddau Dynol i gwestiynau / sylwadau ynglŷn â:-

- Sut orau i hysbysebu'r cynllun ac i gyrraedd y cymunedau sydd fwyaf ei angen drwy'r cymdeithasau tai?
- Sicrhau safon y gwasanaeth a gynigir gan y cyflenwyr ynni newydd.

(c) Diolchwyd i'r Cynghorydd Eirwyn Williams am ddod â'r mater hwn i sylw yn y lle cyntaf a gofynnwyd i'r cynghorwyr ledaenu'r neges am y cynllun o fewn eu wardiau.

**6. TREFNIADAU CRAFFU ARFAETHEDIG Y BWRDD GWASANAETHAU LLEOL AR Y CYD**
**Aelod Cabinet: y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (ar ran y Cynghorydd Dyfed Edwards)**

(a) Cyflwynwyd – adroddiad ar y cyd gan Uwch Reolwr Partneriaethau Gwynedd a Môn, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Gwynedd a Swyddog Craffu Cyngor Sir Ynys Môn yn amlinellu 3 opsiwn gwahanol ar gyfer sefydlu trefniadau craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, gan argymell symud ymlaen gydag Opsiwn B (h.y. sefydlu Panel Craffu Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn ar y Cyd) gan ofyn i'r swyddogion symud ymlaen i gwblhau'r trefniadau ymarferol, i gynnwys materion fel trefniadau aelodaeth, trefniadau gweithredu a hyfforddi, rhestr o gyfarfodydd a lleoliad.

(b) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, ymatebodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion i gwestiynau / sylwadau ynglŷn ag:-

- Ymdeimlad nad yw'r Cyngor a'r BGLl yn rhannu'r un blaenoriaethau a'r angen i ddeall beth yw rôl a dylanwad y panel ac i bwy mae'n adrodd.
- Pryder y byddai panel yn symud i ffwrdd oddi wrth atebolrwydd lleol ac y byddai yna fwy o rym a statws yn perthyn i bwyllgor craffu ar y cyd rhwng Gwynedd a Môn gydag aelodau etholedig yn gwasanaethu arno, ond gyda hawl i gyfethol eraill yn ôl yr angen. Byddai hyn hefyd yn cryfhau'r atebolrwydd gwleidyddol yn y trefniadau arfaethedig.
- Awgrym y byddai 1 cynrychiolydd o'r sector wirfoddol yn ddigonol fel bod 4 aelod etholedig o'r ddau gyngor arno er mwyn sicrhau'r atebolrwydd gwleidyddol clir.
- Y ffaith mai'r 2 Gyngor Sir yw'r unig gyrff democrataidd ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ac a ddylai hynny gael ei adlewyrchu yn aelodaeth y panel / pwyllgor?
- Sut y bydd y gwaith yn cael ei ariannu?
- Yr angen i fod yn wyliadwrus nad yw'r pwyllgor yn gwneud penderfyniadau na ellir eu cyfiawnhau, eu hariannu na'u cefnogi.
- Yr angen i'r bartneriaeth gymryd hyn o ddifri' a phryder na fydd mudiadau heb hawliau pleidleisio yn anfon cynrychiolwyr i'r cyfarfodydd.

(c) Cytunwyd i symud ymlaen gydag ail-ystyried Opsiwn B yn dilyn i'r swyddogion lunio'r trefniadau ymarferol a nodwyd, ond bod y trefniadau hynny, ynghyd â'r trefniadau

adrodd yn ôl a'r sefyllfa o safbwynt atebolrwydd gwleidyddol y panel yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgor hwn cyn i'r aelodau ddod i gasgliad terfynol ar y mater.

**7. YMCHWILIAD CRAFFU CYNLLUN DATBLYGU LLEOL – CYDWEITHIO**

(a) Nodwyd mai tri aelod yn unig oedd wedi rhoi eu henwau ymlaen ar gyfer yr ymchwiliad hyd yma a gofynnwyd i'r pwyllgor naill ai enwebu dau aelod arall neu ystyried a ddylid symud ymlaen â'r ymchwiliad o gwbl.

(b) Cytunwyd i gylchredeg y briff unwaith yn rhagor a thrafod y maes hwn ac unrhyw feysydd ymchwil eraill posib' yn y Cyfarfod Paratoi nesaf ar 12 Chwefror.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.05pm.

____________________________

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2/12/14

**1. YN BRESENNOL** - Y Cynghorydd Angela Russell (Cadeirydd)
- Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies, (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Stephen Churchman, Louise Hughes, Llywarch Bowen Jones, Dilwyn Morgan, W Tudor Owen, Caerwyn Roberts, Mike Stevens, Gruffydd Williams,

**SWYDDOGION:** Arwel Ellis Jones (Uwch Rheolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

i) Mewn perthynas ag eitem 5 ar y rhaglen – Mr Greg Guthrie (Cwmni Royal Haskoning) a Mr Cefin Edwards (Prif Beiriannydd Ymgynghoriaeth Gwynedd)

ii) Mewn perthynas ag eitem 6 ar y rhaglen - Y Cynghorydd John Wyn Williams – Aelod Cabinet Cynllunio, Mr Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio) a Mr Gareth Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd)

iii) Mewn perthynas ag eitem 7 ar y rhaglen - Cynghorydd Gareth Roberts – Aelod Cabinet Amgylchedd, Mr Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio), Mr Dafydd Wyn Williams (Uwch Reolwr Trafnidiaeth)

iv) Mewn perthynas ag eitem 8 ar y rhaglen – Cynghorydd Gareth Roberts – Aelod Cabinet Amgylchedd, Mr Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio), Mr Dafydd Wyn Williams (Uwch Reolwr Trafnidiaeth), Cynghorydd Selwyn Griffiths (Cadeirydd Cynhadledd y Cambrian), Cynghorydd Eryl Jones Williams (Aelod Lleol), Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Lleol)

v) Mewn perthynas ag eitem 9 ar y rhaglen – Cynghorydd Gareth Thomas – Aelod Cabinet Addysg, Debbie Ann Williams Jones (Rheolwr Aelodau - Gwasanaeth Democrataidd)

**YMDDIHEURIADAU:**
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Craig ab Iago, Annwen Hughes, Eric M. Jones, Linda Morgan a Bob Wright

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir:

- Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies yn eitem 5 ar y rhaglen oherwydd bod ei gwr yn gyfrifol am Gynllunio, Tirwedd, Ynni i Cyfoeth Naturiol Cymru – gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth.
- Y Cynghorwyr Caerwyn Roberts a Gruffydd Williams yn eitem 9 ar y rhaglen oherwydd eu bod wedi gorfod tynnu yn ôl o waith yr Ymchwiliad Craffu Cludiant Addysg ôl-16 oherwydd bod aelodau o'u teulu yn derbyn gwasanaeth. O ganlyniad, ni fu iddynt gymryd rhan yn y drafodaeth.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2014 yn ddarostyngedig i:

(i) Dileu enw’r Cynghorydd Gruffydd Williams o dan ‘yn bresennol’ ar dudalen 1
(ii) Ychwanegu at baragraff 5(b) Protocol Aelodau Etholedig

*Mewn ymateb i bryder nad oes cyswllt digonol gydag Aelodau - y drefn fel y mae yn un systematig fel na ellir cael sgwrs / trafodaeth, dilyniant na chasgliadau pendant ynglŷn â’r materion sydd yn cael eu codi,* nodwyd bod y Protocol Aelodau Etholedig yn ceisio sicrhau llif gwybodaeth i un cyfeiriad gyda phob ymholiad ac ymateb yn cael ei gofnodi yn briodol. Dywedwyd bod sefydlu un pwynt cyswllt yn rhoi agwedd broffesiynol i’r drefn ac nad oedd unrhyw fwriad i newid y drefn. Adroddwyd bod dros 300 o gwynion wedi eu derbyn gan Gynghorwyr yn y flwyddyn ddiwethaf ond fel mae’r gwaith gwella yn dirwyn i ben ymddengys bod nifer y cwynion yn lleihau. O ran rhannu gwybodaeth ynglŷn â gwaith wedi ei gwblhau, cytunwyd bod modd gwella a chau’r cylch ymholiad yn llawn.

**5. CYNLLUN GWARCHOD YR ARFORDIR (Gorllewin Cymru)**

a) Cafwyd cyflwyniad byr gan Mr Greg Guthrie (Cwmni Royal Haskoning), awdur Cynllun Traethlin Gorllewin Cymru ar gefndir y cynllun sydd yn asesu effaith petai lefel y môr yn debygol o godi 50 - 150m yn y dyfodol oherwydd newidiadau i’r hinsawdd gydag amrediad o effeithiau a thrawiadau y bydd angen i rai ardaloedd eu mabwysiadu, ac mewn ardaloedd sydd yn debygol o gael eu heffeithio yn y tymor byr, bydd rhaid adnabod y pethau pwysig hynny fydd rhaid eu newid.

b) Nodwyd bod cynllun gweithredu'r Cyngor yn un eithriadol. Cyngor Gwynedd yw’r Cyngor cyntaf i wynebu'r her a derbyn y materion. Maent wedi ymateb drwy siarad gyda chymunedau, egluro’r deilliant i’r bobl leol, sicrhau bod pentrefi / trefi yn ymwybodol o’r effeithiau a chynnwys cymunedau yn y trafodaethau. Eglurwyd bod taflenni gwybodaeth wedi eu paratoi fesul cymuned a’r goblygiadau wedi eu trafod gyda’r pentrefi. Cwblhawyd rhannu gwybodaeth yn 2013 gydag ail gylch o ymweliadau i’w trefnu ar gyfer 2015.

c) Mynegwyd pryder gan un aelod ynglŷn â sut gall y Cynulliad gyfiawnhau na fyddant yn gwarchod ardaloedd y cynllun ar ôl 15 mlynedd. Gwnaed cais am eglurder a diffiniad clir o’r gair ‘amddiffyn’. Ychwanegwyd, fel esiampl bod 400 o anheddau yn Y Friog a sut felly bydd adleoli'r rhain? A yw ‘rolling back’ yn golygu adeiladu tai o’r newydd? Os bydd tai yn cael eu gadael, pwy fydd yn talu'r gost? Os na fydd arian yn cael ei wario ar amddiffynfeydd, pam na ellir defnyddio’r arian i ail-leoli ac ail ddatblygu pentrefi. Os bydd rhaid adlinio’r arfordir, onid gwell fuasai cynllunio yn hytrach na’i adael. Yng nghyd-destun adlinio wedi ei reoli, a yw’r wybodaeth wedi ei rannu gyda’r cyhoedd? Bydd rhaid sicrhau bod pobl Y Friog yn saff.

ch) Mewn ymateb i’r pryderon, eglurwyd mai dogfen lefel uchel yw’r Cynllun Traethlin sydd yn tynnu sylw at ardaloedd na ellir eu hamddiffyn. Lle nodi’r ‘rheoli amddiffynfeydd’ rhaid adnabod yr angen i newid. Polisi ydyw ac nid manylion, yn amlygu cyfleoedd ac opsiynau posib gan agor trafodaethau gyda chymunedau i drafod yr angen i newid.

d) Tynnwyd sylw gan Aelod bod ardal y Borth yng Ngheredigion wedi derbyn miliynau i amddiffyn cymunedau ac felly pam na ellir amddiffyn Y Friog. Eglurwyd bod 6 miliwn wedi ei wario ar amddiffynfeydd i gefn y Friog a bod sefyllfa ddaearyddol y Borth yn wahanol hefyd..

dd) Gan herio'r adroddiad, nododd un Aelod mai damcaniaethau yn unig sydd ynddo. Ymddengys bod y dull yn ymarferol, ond ymateb a barn un arbenigwr ydyw. Rhaid cael

ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd i amddiffyn cymunedau arfordir Cymru a gwneud penderfyniadau cadarnhaol i amddiffyn Y Friog. Penderfyniad yr Awdurdod Lleol fydd amddiffyn neu ddigolledu cymunedau'r arfordir. Mae Y Friog bellach yn rhan o sgwrs genedlaethol a bydd rhaid sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn rhan o'r trafodaethau hyn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ond nodir y pwyntiau a ganlyn:**

i. **bod angen cynllun yn ei le a bod ymateb Cyngor Gwynedd i'r cynllun wedi bod yn llwyddiannus a bod cynnwys y cymunedau mewn unrhyw drafodaethau yn allweddol.**
ii. **Dylid canmol bod trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal, ond mae angen sicrhau bod hyn yn parhau.**
iii. **Bod y sgwrs genedlaethol yn araf ac yn creu anawsterau i'r gymuned. O ganlyniad, dylid anfon neges at y Gweinidog yn amlygu'r pryderon gan bwyso ymateb ac eglurder buan.**

## 6. MONITRO GORFODAETH MEYSYDD CARAFANAU

a) Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Adran Rheoleiddio yn darparu cyd-destun ar gyfer y gwaith o fonitro a gorfodaeth ar safleoedd carafanau.

b) Amlygodd yr Aelod Cabinet bod monitro gorfodaeth carafanau wedi cael cryn sylw yn ddiweddar o ganlyniad i geisiadau cynllunio yn cael eu caniatáu i feysydd carafanau barhau yn agored o 10 mis a hanner i 12 mis. Mynegwyd bod angen datblygu dull o fonitro safleoedd carafanau'n rhagweithiol i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r caniatâd cynllunio a'r amodau perthnasol, ond bod hyn yn ddibynnol ar adnoddau staff ac nad oedd yn ymarferol bosib i fonitro pob un safle. Hefyd, mynegwyd bwriad i gasglu gwybodaeth gyfredol am safleoedd carafanau i sefydlu gwaelodlin fyddai yn y pendraw yn hwyluso trefniadau gwaith o safbwynt gwaith monitro ac ymateb i gwynion ynglŷn â safleoedd carafanau.

c) Ymhelaethwyd bod yr Uned Gorfodaeth Cynllunio wedi gwneud gwaith ymchwil gydag Uned Gwarchod y Cyhoedd a bod trafodaethau wedi bod gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i geisio ymateb i'r dasg enfawr o fonitro pob safle yng Ngwynedd. Ers dechrau'r flwyddyn mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Strategaeth Gorfodaeth sydd yn sefydlu fframwaith ar gyfer gwaith rhagweithiol ac adweithiol yr Uned Gorfodaeth am mae'r Strategaeth yn nodi'r bwriad i fonitro 20 safle'r flwyddyn.

ch) Atgoffwyd yr aelodau nad oedd gofyn statudol i wneud y gwaith rhagweithiol, ei fod yn cael ei ystyried fel ymarfer da ar lefel cenedlaethol gan fod y gwaith yn dod a gwerth ychwanegol ac yn cyfrannu tuag at gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Oherwydd y pryder ynglŷn â rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer tymor gwyliau 12 mis, eglurwyd fod y gwaith monitro rhagweithiol wedi cynnwys blaenoriaethu'r safleoedd hynny oedd wedi derbyn caniatâd am dymor gwyliau 12 mis.
Adroddwyd mai pedwar safle yn unig allan o 13 sydd gyda chaniatâd sydd wedi gweithredu ar y caniatâd 12 mis a gafwyd er y tybir y bydd hyn yn cynyddu wrth i geisiadau pellach gael eu cyflwyno. Nodwyd, gan mai gwasanaeth dewisol ydyw, mae yn hollol ddibynnol ar adnoddau, y bydd yn rhaid ystyried os yw'r gwasanaeth yn flaenoriaeth o fewn ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Adroddwyd bod y gwasanaeth wedi ei glustnodi fel un y gellid ei leihau neu ei ddileu gan nad ydyw yn wasanaeth statudol.

d) Un o bryderon yr Aelodau oedd bod caniatáu'r ceisiadau 12 mis yn mynd i arwain at bobl yn byw yn barhaol mewn carafanau a fydd o ganlyniad yn creu cymunedau newydd / chwalu cymunedau Cymraeg. Eisoes ceir enghreifftiau, fel ym Morfa Bychan, lle mae'r nifer o garafanau sydd ar y safle yn uwch na'r nifer o dai yn y pentref.

Atgoffwyd yr aelodau mai gwrthod y cais cynllunio cyntaf a wnaeth y Pwyllgor Cynllunio, yn groes i'r argymhelliad, ac o ganlyniad aeth yr ymgeisydd a'r cais i apêl a llwyddo gyda chostau o £15,000 yn erbyn y Cyngor. Gwnaed cais hefyd i gynghorwyr ddarparu gwybodaeth i'r Gwasanaeth Cynllunio os oedd ganddynt dystiolaeth / bryderon fod rheolau cynllunio'n cael eu torri er mwyn cynorthwyo gan sicrhau cydymffurfiaeth.

dd) Mewn ymateb i gwestiwn o godi treth ar garafanau 12 mis er mwyn ariannu a chreu incwm i dalu am adnoddau gorfodaeth, nodwyd bod cyfle o godi ffi drwy'r uned drwyddedu ond bod angen i ddeddfwriaeth newydd i ganiatáu hynny. Mynegodd y Pennaeth Rheoleiddio bod hyn yn annhebygol yn enwedig yn y tymor byr. O ran trafodaethau traws adrannol a chynnal sgwrs ehangach ynglŷn â phreswylwyr y carafanau, nodwyd nad oedd mecanwaith ffurfiol yn ei le i gasglu gwybodaeth. Eglurwyd bod y wybodaeth orau fel arfer yn dod gan y cymunedau neu'r aelodau etholedig lleol. Er nad oes trefn ffurfiol yn ei le i geisio sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei gasglu ar draws adrannau, cytunwyd y byddai modd edrych ymhellach i hyn. Mynegodd yr aelodau eu hawydd i weld hynny yn digwydd.

e) Gwnaed cais pellach am wybodaeth am niferoedd a lleoliad meysydd carafanau fesul ward ynghyd a natur y caniatâd, hynny wy, sefydlog /teithiol ac yn y blaen er mwyn caniatáu i'r aelod lleol i fonitro'r sefyllfa. Cytunwyd y byddai modd ystyried hyn a rhannu gwybodaeth berthnasol o ran hanes cynllunio gyda'r aelodau mewn achosion perthnasol. Amlinellwyd, unwaith bydd y gwaelodlin yn ei le bydd y gwaith yn dod yn haws (nodwyd hefyd bod y Parc Cenedlaethol yn cynnal gwaith tebyg o sefydlu gwaelodlin).

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad sydd yn rhoi darlun gonest o'r sefyllfa a derbyn y gwaith ar y gwaelodlin gan bwysleisio'r materion a ganlyn;**

**i) Dylid annog aelodau i ddod a gwybodaeth allweddol i sylw'r adran**
**ii) Cydweithio gydag adrannau eraill i wella lefel gwybodaeth**
**iii) Cadw llygad ar y posibilrwydd o godi incwm i ariannu'r gwasanaeth i'r dyfodol ow yw deddfwriaeth yn caniatáu**
**iv) Er pwysigrwydd y gwaith, derbyn bod elfennau rhagweithiol yn ddewisol ac felly yn opsiwn fydd yn gorfod cael ei ystyried ar gyfer cyflawni arbedion**

## 7. BLAENORIAETHU DARPARIAETH CLUDIANT CYHOEDDUS

a) Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth Adran Rheoleiddio yn cyflwyno'r effaith posib ar drigolion Gwynedd o weithredu newidiadau i'r drefn cludiant cyhoeddus ar sail canlyniadau'r matrics. Ategodd yr Aelod Cabinet bod cyllid ar gyfer cludiant yn lleihau, ond y galw a'r gost yn cynyddu ac felly amhosib fuasai parhau gyda'r sefyllfa bresennol. Cyflwynwyd y matrics i geisio sicrhau tegwch. Pwysleisiwyd fod y matrics wedi ei ddatblygu gyda phwyslais ar y ffactorau pwysicaf ac fod y pwyllgor wedi bod yn rhan greiddiol o'i ddatblygu.

b) Eglurwyd bod pum pennawd wedi cael ei fesur; ardal, cyfaint, dewis arall, math o wasanaeth a chyfleusterau gyda phwyslais bod angen gwaith pellach i ddadansoddi 'dewis arall'. Cynigwyd hefyd yr angen am ddiffiniad gwell i'r 'ardal'.

c) Amlygwyd mai gwasanaethau dewisol yw rhai o'r teithiau a bod dewisiadau anodd ei gwneud i gyfarch yr arbedion. Pwysleisiwyd mai Cludiant cyhoeddus yw'r gwasanaeth a bod rhai yn ei ystyried fel cludiant personol. Cydnabuwyd na ellir cyfarch anghenion

pawb. Y bwriad o gyflwyno'r adroddiad hwn yw rhannu'r wybodaeth orau sydd ar gael er mwyn cefnogi a chynorthwyo aelodau gyda phenderfyniadau anodd. Atgoffwyd yr aelodau nad ymateb i doriadau oedd y newidiadau, ond ymateb i golled mewn grant a bwlch yn y gyllideb bresennol.

ch) Byddai rhaid i rai teithwyr addasu patrwm eu bywydau i gyd fynd ac amserlenni cludiant yn y dyfodol ac na ddylen ddisgwyl i gludiant gael ei siapio ar sail eu gofynion personol.

d) Awgrymwyd gan aelod bod angen ail adolygu'r matrics er mwyn gwella'r deilliant ac ail ymweld ar tabl pwysau i sicrhau bod y wybodaeth yn gywir. Annheg fuasai torri gwasanaethau hwyrnos gan fod y rhain yn cludo pobl i'w gwaith (ac nid ar gyfer hamdden a phleser yn unig). Cynigiwyd, yn hytrach na gostwng gwasanaeth nos y dylid ei wneud ac ymestyn gwasanaethau aml yn ystod y dydd. Y cais yw adolygu'r matrics a phenderfynu os oes opsiynau gwell neu ddewis arall. Derbyniwyd bod rhaid gweithredu newidiadau, ond hefyd rhaid deall beth sydd yn dderbyniol.

e) Eglurwyd bod gwaith pellach i'w gwblhau a fydd yn cynnwys mapio fesul cymuned ac adeiladu ar y wybodaeth bresennol mewn manylder. Bydd y wybodaeth ychwanegol yn cael ei ystyried gan yr Aelod Cabinet cyn cyflwyno adroddiad terfynol i'r Cabinet am benderfyniad. Rhagwelir y bydd asesiad effaith cydraddoldeb ar y teithiau dan sylw yn rhan o'r broses cyn gwneud penderfyniad terfynol.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad gan bwysleisio'r materion a ganlyn;**

i. **Derbyn y broses gan ystyried y darlun, y pwrpas a'r rhesymeg wrth ddatblygu a gweithredu'r matrics**
ii. **Y dylai Cynghorwyr lleol gynnal grwpiau trafod lleol gyda chymunedau i'w hysbysebu o'r newidiadau ac i flaenoriaethu anghenion cludiant y gymuned honno.**

## 8. DIWEDDARIAD AR GYNLLUN PONT BRIWET

a) Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Adran Rheoleiddio yn darparu gwybodaeth a chyd-destun ar gynnydd prosiect Pont Briwet. Roedd yr adroddiad yn ymateb i bryder aelodau'r Pwyllgor o amserlen y gwaith a phwy fydd yn gyfrifol am unrhyw golledion ariannol neu ychwanegol fydd angen eu cyfarch os bydd y gwaith yn llithro ymhellach na'r dyddiad cwblhau.

b) Adroddwyd bod bar gyfreithiwr wedi rhoi barn annibynnol am yr hawliau am daliadau ychwanegol. Mynegwyd bod y bar gyfreithiwr o'r farn nad oedd sail i'r honiadau hyn.

c) Adroddwyd bod cyfathrebu da yn parhau gyda chwmni Hochtief, contractwyr adeiladu'r bont, y disgwylir iddi gael ei chwblhau erbyn Mehefin 2015. Amlinellwyd bod y llithriad yn sgil problemau gyda Dwr Cymru, Cwmni BT, National Grid a Llanw Uchel. Nodwyd bod pryder ynglŷn â risg i arian Ewropeaidd gael ei dynnu yn ôl os na fyddai'r bont wedi ei chwblhau ar amser. Mewn ymateb i'r pryder, nodwyd bod 23 diwrnod o risg ychwanegol wedi ei gytuno ac mai'r setliad y cyfrifiad terfynol fydd y risg fwyaf o ran trefniadaeth ariannol.

ch) Cydnabuwyd y byddai'r bont o fudd sylweddol i'r gymuned wedi ei chwblhau, ond 'heddiw' mae'r problemau i'w gweld ac yn brathu. Y teimlad cyffredinol yw bod pobl yn teimlo eu bod wedi eu gadael i lawr gyda negeseuon cymysg ac anghyson yn cael eu rhannu. Nodwyd bod Cwmni Hochtief wedi penodi Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus

ond bod y swyddog hwnnw wedi gadael. Hysbysebwyd yn lleol am swyddog wedi hynny ond heb lwyddiant. O ganlyniad, penodwyd dwy swyddog o'r Cyngor i ymgymryd â'r gwaith, a oedd yn ychwanegol i'w cyfrifoldebau ac o dan amgylchiadau anodd iawn. Diolchodd yr aelodau i Patricia Jones (Cydlynydd Prosiect Pont Briwet) a Cheryl Ann Morgan (Swyddog Gwarchod y Cyhoedd – Pont Briwet) am eu gwaith da. Credir mai un o'r gwersi i'w dysgu buasai sicrhau swyddog perthnasol ar ddechrau'r prosiect i feithrin perthynas gyda'r gymuned leol.

d) Derbyniwyd bod nifer o ffactorau wedi cynddeiriogi pobl leol ac yn amlwg mai diffyg cyfathrebu clir a chyson yw'r prif ffactor. Rhaid sicrhau bod neges onest a thryloyw yn cael ei rhannu i'r gymuned leol yn datgan y sefyllfa bresennol. Yn sicr, mae busnesau cylch Harlech, Talysarn, Penrhyndeudraeth a Phorthmadog wedi eu heffeithio yn sgil yr oediad ac felly rhaid sicrhau nad oes oediad pellach.

dd) Rhaid sicrhau bod Cwmni Hochtief yn cwrdd â'r dyddiad cwblhau arfaethedig. Addewid wedi ei wneud ac felly pwysig peidio colli ymddiriedaeth. Amlygwyd bod Rheolwr Prosiect newydd wedi ei benodi a bod y rhaglen bellach yn dderbyniol a chyraeddadwy .

e) Ynglŷn â difrod diweddar i'r system confoi, nodwyd bod hyn yn hollol annerbyniol a bod hyn yn codi risgiau iechyd a diogelwch.

f) O ran llwyddiannau o fewn y cynllun, nodwyd bod gwaith da wedi ei wneud i sicrhau pecyn ariannol ar gyfer y cynllun, bod cydweithio da rhwng y cyrff allweddol, bod y cynllun wedi dod a gwaith i bobl leol a hyd yma nad oes cofnod o unrhyw ddamwain. O ran pwyslais ar y rhaniad ansawdd (40%) v masnachol (60%), derbyniwyd bod haid rhoi ystyriaeth i'r balans yma wrth dendro prosiectau isadeiledd mawr yn y dyfodol a mesur pob sefyllfa yn unigol.

Diolchwyd i'r swyddogion am y diweddariad a'r wybodaeth agored.

**PENDERFYNWYD rhannu pryderon y pwyllgor gyda'r Pwyllgor Archwilio gan dynnu sylw penodol at y gwaith i reoli risigiau o fewn y cynllun ac amserlen y cynllun**

Gwnaed sylw ychwanegol gan Aelod Lleol yn mynegi pryder bod nifer o bobl yn cerdded ar draws y bont. Mynegwyd petai damwain yn digwydd, buasai hyn yn creu oediad pellach.

## 9. CYFLWYNO ARGYMHELLION YMCHWILIAD CRAFFU CLUDIANT ADDYSG ÔL-16

a) Rhoddwyd crynodeb o gefndir yr ymchwiliad gan Gadeirydd yr Ymchwiliad, y Cynghorydd Stephen Churchman. Amlinellwyd mai briff yr ymchwiliad oedd ystyried sut roedd polisi'r Cyngor yn cael ei weithredu ar lawr gwlad a beth oedd effaith gweithredu'r polisi hwnnw ar ddarparwyr addysg ôl-16, y dysgwyr a'u teuluoedd.

Ym mis Medi 2014, gwnaed cais gan yr Aelod Cabinet dros Addysg i ymestyn briff yr ymchwiliad i ystyried opsiynau pellach i ddarganfod arbedion posib o fewn y gwasanaeth cludiant addysg ôl-16. Golyga hyn yr angen i ystyried opsiynau ac argymhellion mwy creadigol er darparu'r gwasanaeth i'r dyfodol. Croesawyd y cais fel cyfle i ychwanegu gwerth i'r ymchwiliad gyda phwyslais ar roi'r cwsmer yn ganolog i'r gwasanaeth.

Wrth ystyried yr opsiynau creadigol cytunodd aelodau'r ymchwiliad ar yr egwyddorion canlynol;

- Tegwch i bawb
- Agored i bawb

- Hyblygrwydd
- Cost resymol
- Amser teithio hyblyg.

Nodwyd bod yr ymchwiliad wedi bod yn un manwl a bod amryw o unigolion a sefydliadau wedi cael eu holi ac wedi rhoi mewnbwn i'r ymchwiliad. Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad.

b) Cyflwynwyd yr argymhellion i'r Aelod Cabinet. Cydnabuwyd mai mater i'r Aelod Cabinet fydd gweithredu arnynt, ond gwnaed cais am adroddiad ar ei ymateb i'r argymhellion yn y cyfarfod nesaf gydag adroddiad cynnydd ymhen chwe mis.

c) Mewn ymateb i'r ymchwiliad, nodwyd bod yr ymchwiliad yn fanwl a hawdd ei ddarllen.

ch) O ran pwynt gweithredu, nodwyd mai pwynt gwleidyddol oedd *13. Materion Eraill er Ystyriaeth yr Aelod Cabinet (tudalen 8)* a derbyniwyd y sylw bod angen ei addasu.

d) Gwnaed cynnig ychwanegol i'r Aelod Cabinet drafod gydag Edwina Hart y gwahaniaethau amlwg sydd yn bodoli rhwng trefniadau Lloegr a Chymru. Rhaid ceisio sicrhau tegwch i bawb

**PENDERFYNWYD mabwysiadu adroddiad yr Ymchwiliad a chroesawyr ffaith bod yr Aelod Cabinet yn derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad, a disgwyl am adroddiad yn ôl ymhen 6 mis.**

**10. BLAEN RAGLEN WAITH DRAFFT CRAFFU 2014 - 2015**

a) Cyflwynwyd blaen raglen waith diwygiedig er gwybodaeth i'r aelodau.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad. Diolchwyd i Mandy Williams Davies am ei chyfraniad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau dros y blynyddoedd a dymunwyd pob llwyddiant iddi yn ei swydd newydd fel Aelod Cabinet. Diolchwyd hefyd i Debbie Anne Williams Jones am ei chyfraniad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau - bydd Debbie yn cefnogi'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol o hyn ymlaen.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 1:40pm

______________________________

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU 11/12/14

**Yn bresennol**: **Y Cyng. Peter Read (Cadeirydd)**
**Y Cyng. Beth Lawton (Is-gadeirydd)**

Y Cynghorwyr: Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Elin Walker Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Ann Williams, Eirwyn Williams a Hefin Williams.

**Aelodau Cyfetholedig gyda phleidlais ar faterion addysg yn unig:**
Parchedig Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru)

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cyng. Gareth Thomas (Aelod Cabinet Addysg)
Y Cyng. R H Wyn Williams (Aelod Cabinet Gofal)
Y Cyng. Mair Rowlands (Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc a Hamdden).

**Hefyd yn Bresennol:** Morwenna Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd), Glenda Lloyd Evans (Rheolwr Gwasanaeth Pobl Hŷn), Nicola Hughes (Swyddog Prosiect Hyrwyddo Ansawdd Ysgolion Uwchradd), Elfyn Vaughan Jones (Uwch Ymgynghorydd Her GwE), Alwyn Jones (Uwch Ymgynghorydd Her GwE), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Gareth James (Rheolwr Aelodau Cefnogi a Chraffu) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Huw Edwards, Dewi Owen, Liz Saville Roberts, Mrs Rita Price (Yr Eglwys Gatholig), Mr Neil Foden (Undeb Athrawon).

## 1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

**(a)** Anfonwyd cofion y Pwyllgor at y Cynghorydd Huw Edwards a oedd yn absennol oherwydd gwaeledd.
**(b)** Llongyfarchwyd staff a disgyblion Ysgol Hafod Lon am Gyngerdd Nadolig ardderchog a gynhaliwyd yn ddiweddar.
**(c)** Croesawyd y canlynol i'r cyfarfod:

- Y Cyng. Mair Rowlands yn ei rôl newydd fel Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc a Hamdden
- Y Cyng. Gweno Glyn fel aelod newydd o'r Pwyllgor
- Mr Marc Roberts a Ms Vicky Poole, Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (ar gyfer Eitem 5 – Adroddiad Blynyddol AGGCC)

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Linda Ann Wyn Jones fuddiant personol yn Eitem 6 (a) – Arbedion Addasu Cytundebau Darparwyr oherwydd ei bod yn Brif Weithredwr Cwmni Seren. Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem dan sylw.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2014.

## 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL (AGGCC)

Cyflwynwyd adolygiad a gwerthusiad o berfformiad blynyddol Cyngor Gwynedd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

(a) Noda'r adroddiad lle bu cynnydd a'r meysydd lle mae angen gwella ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol. Adroddodd Mr Marc Roberts (AGGCC) bod ôl gwaith caled gan reolwyr a staff y Gwasanaethau Cymdeithasol a bod elfennau o'r cynlluniau yn heriol iawn gyda rhaglen waith enfawr i'w gwireddu yn unol â'r gyllideb ariannol. Gwelwyd gwelliant yn nhrefniadaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ogystal â'r weledigaeth sydd gan y Cyngor.

(b) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(i) Yn wyneb yr holl newidiadau mewn deddfwriaeth a'r gofynion ohonynt, sut y gellir sicrhau bod gwelliannau yn cael eu gweithredu yn unol ag anghenion a gofynion y defnyddwyr. Mewn ymateb, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddir yn rhoi trigolion Gwynedd yn flaenllaw i'r hyn a weithredir ond ei fod yn golygu newid i'r defnyddwyr ond drwy gyd-weithio byddir yn sicrhau'r gwasanaeth gorau i unigolion.
(ii) Mynegwyd pryder na ellir gwireddu arbedion heb effeithio ar wasanaeth i unigolion a'i fod yn anodd gwneud toriadau.
(iii) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn ag arweiniad a chyfrifoldeb i wireddu dyhead AGGCC, nodwyd ei fod yn allweddol i Aelodau gefnogi moderneiddio'r Gwasanaeth, dylanwadu ar y Bwrdd Iechyd, a monitro sut mae'r Gwasanaeth yn ymdrin â'r defnyddwyr.
(iv) O safbwynt dylanwadu ar y Bwrdd Iechyd, nodwyd bod hyn wedi bod yn anodd i'r Cyngor yn y gorffennol a hyderir y bydd cyd-weithio cadarn i'r dyfodol o ran tegwch i'r defnyddwyr.
(v) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn ag effaith y newidiadau ar y fframwaith gofal cartref cymunedol, esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai newid mewn patrwm o anghenion y defnyddwyr oherwydd bod cost y pen i unigolyn ag anghenion dwys i aros gartref yn uchel. Rhaid sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cyfrannu at y pecynnau cymhleth sydd yn bodoli bellach. Byddai'n ofynnol ystyried rhagamcanion a thargedu fwy i'r dyfodol er sicrhau'r budd gorau o'r arian i'r defnyddwyr.
(vi) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â rôl y Cyfarwyddwr Corfforaethol, nododd cynrychiolydd AGGCC ei fod yn ymwybodol bod cynnydd wedi ei wneud ac y byddir yn trafod ymhellach yn ystod y flwyddyn gyda'r Cyfarwyddwr a'r Prif Weithredwr yn unol â chanllawiau o safbwynt cyfrifoldebau a chytuno ar brosesau a phrotocol o gofio hefyd y bydd oblygiadau yn deillio o newidiadau yn dilyn cyhoeddiad o'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol.
(vii) Esboniwyd yng nghyd-destun Cynllun Strategol gyda'r Bwrdd Iechyd o safbwynt meddwl plant, bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal ar lefel rheolaethol ac yn edrych ar faterion mynediad i blant a phobl ifanc ac argaeledd y gwasanaethau sydd ar gael iddynt yn lleol a thu allan i'r Sir.
(viii) Pryder ynglŷn â phwysau gwaith ychwanegol oherwydd absenoldeb staff. Mewn ymateb, nodwyd bod trefniadau mewn lle i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Rheolwyr Gwasanaethau Oedolion bontio'r bwlch gydag arbenigwr allanol yn arwain ar brosiectau penodol.
(ix) Gofynnwyd am sicrwydd bod Aelodau etholedig yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â chwynion ac awgrymwyd y byddai'n fuddiol cyflwyno papur cychwynnol i gyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu hwn ar brosesau'r drefn gwynion i gynnwys categorïau o'r cwynion, amserlen a sut y byddir yn rhaeadru gwybodaeth gydag Aelodau.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad a gofyn i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol:**

**(i) Gyflwyno papur cychwynnol byr i gyfarfod paratoi y Pwyllgor Craffu hwn ar 13 Ionawr 2015 ynglyn â phrosesau'r drefn gwynion i gynnwys categorïau ac amserlen y cwynion.**

**(ii) Cyflwyno diweddariad ar y rhaglen waith o'r meysydd gwella a adnabuwyd gan AGGCC erbyn mis Mawrth 2015.**

## 5. ARBEDION

(a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Cynghorydd Peter Read, Cadeirydd y Gweithgor Craffu Arbedion Craffu a fu'n ystyried cynigion effeithlonrwydd gan yr holl adrannau a oes yn ceisio cyfrannu at y bwlch ariannol o £50m yng nghyllideb refeniw parhaol y Cyngor hyd at 2017/18. Nodwyd bod rhai cynigion arbedion effeithlonrwydd y bwriedir eu gweithredu o 1 Ebrill 2015 a fedrai gael effaith uniongyrchol ar bobl fregus.

(b) Atgoffodd yr Aelod Cabinet Gofal o'r hinsawdd ariannol sydd ohoni a bod yn rhaid sylweddoli'r angen i ystyried gwneud arbedion sylweddol ar draws wasanaethau'r Cyngor ac nad oedd dewis gan y Gwasanaeth ond i gynnig arbedion i'r darpariaethau isod.

### (i) Arbediad Addasu Cytundebau Darparwyr

Esboniodd yr Uwch Reolwr Busnes bod cynnig wedi ei gyflwyno i beidio â chodi ffioedd yn y maes gofal cartref, llety a chefnogaeth am y tair blynedd nesaf a olygai arbediad effeithlonrwydd o £942k.

Yn dilyn gwaith pellach ar y ffigurau, y ddeddfwriaeth berthnasol ac ystyriaeth o gategorïau o wasanaeth gofal a brynir gan ddarparwyr allanol gan gymharu'r ffioedd gydag awdurdodau cyfagos, cynigir arbedion o £308k ar gyfer 2015/16 a olygai peidio rhoi cynnydd ar ffioedd yn y flwyddyn ariannol nesaf gan ddisgwyl i'r darparwyr allanol fod yn gwneud arbedion effeithlonrwydd o fewn eu trefniadau eu hunain. Wrth gyrraedd y ffigwr uchod, nodwyd bod tystiolaeth ar gael ar gyfer pob un o'r categorïau bod y ffioedd yn hael a theimlwyd y gellir cynnal y gwasanaeth yn gynaliadwy heb gynyddu'r ffioedd. Fodd bynnag, byddai'n rhaid edrych ar y mater ymhellach y tu hwnt i 2015/16 ac y byddai'n ofynnol cydweithio gyda'r farchnad allanol yn ehangach cyn cynnig argymhellion ac eithrio dau faes sef Taliadau Uniongyrchol (lle mae taliad fesul awr yn sylweddol uwch nag awdurdodau eraill), a Gofal Ysbaid.

Yn ystod y drafodaeth, ystyriwyd y materion canlynol:

(a) Sicrhawyd bod trafodaethau wedi digwydd gyda'r trydydd sector drwy'r Fforwm Darparwyr a Chonsortiwm Anableddau Dysgu
(b) Pryder y byddai gormod o bwysau ar y farchnad allanol a'u bod yn mynd allan o fusnes a olygai neb wedyn i ddarparu'r gwasanaeth.
(c) Mewn ymateb i bryder ynglŷn ag ymrwymiad y darparwyr bod y gwasanaeth yn parhau'n gyson i'r cleiant oherwydd nad oedd cynnydd yn y ffioedd, nododd yr Uwch Reolwr Busnes y disgwylir i'r gwasanaeth fod o'r un safon ond bod teimlad cyffredinol wedi ei nodi gan y darparwyr y byddai'n rhaid ymgymryd â mwy o waith a thrafodaethau ar gyfer unrhyw arbedion tu hwnt i 2015/16.
(d) Pryder y gall gwmnïau preifat wrthod darparu pecynnau ar gyfer unigolion oherwydd y byddai'n rhy ddrud iddynt eu darparu ac o ganlyniad y byddai'r Cyngor yn gorfod eu darparu.
(e) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â mesurau monitro, sicrhawyd y byddir yn gwneud hyn drwy fonitro contractau, trefn cwynion, cyfweliadau gyda'r darparwyr ynghyd â fforymau, a'r AGGCC er sicrhau diogelwch y defnyddwyr.
(f) Bod trafferthion i ddarparu gwasanaeth yn y rhannau mwyaf gwledig o'r Sir ac oni ddylid ystyried cadw'r gwasanaeth o fewn y Cyngor fel bo modd monitro'n fewnol yn

hytrach nag allanoli'r gwasanaeth a'r peryg i gwmnïau chwalu pe byddir yn rhewi'r ffioedd.

**Penderfynwyd: Cymeradwyo:**

**(i)** **adolygiad o'r ffigwr gwreiddiol o £942K fel arbediad effeithlonrwydd a'i ail-osod ar £373k i'w weithredu dros y tair blynedd nesaf fel a ganlyn: :**

| **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** |
|---|---|---|
| **£308k** | **£37k** | **£28k** |

**(ii)** **i ail-ystyried yr holl ffioedd yn flynyddol, gan ystyried y cyd-destun perthnasol a statws y farchnad ar y pryd.**

**(iii)** **Bod yr arbedion effeithlonrwydd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion cyfreithiol angenrheidiol.**

**(ii)** **Arbedion Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd a Chymorth i Ferched Bangor**

Cywirwyd mai Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd yn cynnwys gwasanaeth i ddynion hefyd oedd dan sylw ac nid Cymorth i Ferched De Gwynedd fel y nodwyd yn yr adroddiad.

(a) Adroddodd y Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd bod y gwasanaeth wedi bod yn rhoi cyfraniad drwy gytundeb i Wasanaethau Trais yn y cartref De Gwynedd a Chymorth i Ferched Bangor i ariannu swyddi gweithwyr plant yn rhan amser. Esboniwyd bod gofyn i'r Gwasanaeth gyflawni targed arbedion effeithlonrwydd o £2.4m erbyn 2017 o gyllideb o £14m cyn cyrraedd y drafodaeth toriadau. O'r nifer o gytundebau sydd gan y Gwasanaeth hwn yw'r unig gytundeb sydd ddim yn diwallu gofynion statudol. Ystyriwyd effaith torri'r gwasanaeth ar blant a phobl ifanc a dod i benderfyniad bod yr effaith risg yn is na gorfod diddymu swydd a hanner o weithwyr cymdeithasol o'r Adran.

(b) Ategodd yr Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc a Hamdden yr uchod gan bwysleisio bod Gwynedd yn un o'r ychydig awdurdodau lleol sydd yn rhoi arian craidd i fudiadau.

(c) Rhoddwyd cyfle i Reolydd Gorwel, Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd, ymateb drwy nodi pryder bod y gwasanaeth yn derbyn toriadau o ffynonellau eraill sy'n cyfateb i £82k, bron i chwarter y gyllideb. Hefyd rhaid ystyried bod y gwasanaeth yn ymdrin â phobl fwyaf bregus yn y cymunedau gyda nifer y bobl sy'n datgelu bod trais yn digwydd yn cynyddu. Mynegwyd pryder pellach o bwy fyddai'n ymdrin â'r nifer o blant sydd ar y gofrestr sy'n derbyn gwasanaeth un i un.

(d) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, ymatebwyd i'r ymholiadau gan aelodau unigol fel a ganlyn:

- Pe cyfyd achos o drais yn y cartref tu allan i oriau swyddfa / penwythnosau, byddai'r Heddlu yn cysylltu â Thîm Nos y Gwasanaethau Cymdeithasol yn unol â'r gofynion statudol fel y gwneir yn ystod oriau gwaith arferol. Cyfrifoldeb y Cyngor fel awdurdod arweiniol ar y cyd gyda'r Heddlu fyddai ymchwilio i achosion amddiffyn plant.
- Pe byddai teulu angen lloches byddai Gwasanaeth Trais yn y Cartref ar gael pedair awr ar hugain fel mynediad uniongyrchol i deuluoedd
- Pe byddir yn penderfynu cytuno i'r toriad ni ellir parhau gyda swydd Swyddog Plant ychwanegol yn Nolgellau
- Er nad yw gwaith y Gwasanaeth Trais yn y Cartref yn statudol ymhelaethwyd bod y gwasanaeth yn darparu cefnogaeth i blant a theuluoedd cyn iddynt gael eu

cyfeirio yn achosion statudol. Ymdrinnir â gwaith i arbed tynnu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i mewn ac yn arbed rhoi plant mewn gofal.

- Os yw yn ddiogel i deulu aros o fewn eu cynefin fe wneir hynny ond bod rhai teuluoedd yn cael eu lleoli tu allan i Wynedd hefyd. Lleol yw'r mwyafrif sydd yn cael eu cartrefu.
- Golygai effaith y toriad i'r Gwasanaeth Trais yn y Cartref orfod gwaredu mwy nag un swydd i weithio gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned ar draws Wynedd.

(dd) Mynegwyd pryderon gan aelodau'r pwyllgor am y nifer o ymosodiadau ac achosion y mae'r gwasanaethau yn delio â hwynt a'r perygl o golli buddsoddiad i iechyd a dyfodol plant a phobl ifainc

- Bod ffigwr anferthol o ymosodiadau yn y cartref a bod y gofal a geir gan Wasanaeth Trais yn y Cartref yn amhrisiadwy a bod ystyried diddymu'r swm iddynt yn anfoddhaol o ystyried yr effaith a wneir y Gwasanaeth hwn ar fywydau plant a phobl ifanc
- Bod y buddsoddiad ar gyfer iechyd a dyfodol plant a phobl ifanc
- Bod angen mwy o wybodaeth ynglyn â manylion ariannol Gwasanaeth Trais yn y Cartref gan gynnwys faint o bobl sydd wedi derbyn gwasanaeth ganddynt ynghyd â'r lleoliadau.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc a Hamdden gyflwyno sylwadau isod y pwyllgor i'r Cabinet er sicrhau bod y Cabinet yn gwbl eglur am effaith unrhyw benderfyniad a wneir ganddo:**

**i) Mae'r Gwasanaeth yn rhan bwysig o wead gwasanaethau i nifer sylweddol o blant bregus yn y sir ac y dylai'r niferoedd hynny fod yn hysbys cyn i'r Cabinet wneud ei benderfyniad**

**ii) Mae elfen arbedol gref i'r gwaith sydd yn arbed gwaith a chostau uwch i'r gwasanaethau statudol y mae'n rhaid i'r Cyngor ei ddarparu**

**iii) Dylid cael gwybodaeth ariannol am effaith ehangach yr arbediad hwn ar gyllidebau'r cyrff dan sylw, yn cynnwys eu gallu i ddenu grantiau pellach cyn gwneud unrhyw benderfyniad**

## 6. ADRODDIAD AR GYNNYDD Y PROSIECT HYRWYDDO ANSAWDD ADDYSG YN YR YSGOLION UWCHRADD ERS MEHEFIN 2014

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Addysg ar gynnydd y prosiect hyrwyddo ansawdd addysg yn yr ysgolion uwchradd ers Mehefin 2014 yn deillio o argymhellion yr Ymchwiliad Craffu Ansawdd Addysg yn dilyn proses o ymgynghori gyda rhanddeiliad perthnasol.

(b) Yn y drafodaeth, ystyriwyd y materion a ganlyn:

(i) Yr awgrym fod prinder athrawon Mathemateg yn ogystal â rhai llanw a bod rhai arbenigwyr yn y maes yn cynnig gwersi preifat yn lle mynd i ddiysgu. Cadarnhawyd bod problem mewn denu arbenigwyr Mathemateg i swyddi dysgu a bod hyn yn wir drwy Gymru gyfan a'i fod yn fater fydd yn cael ei godi gyda Llywodraeth Cymru. Sicrhawyd bod y Gwasanaeth Addysg yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem drwy gydweithio gyda Phrifysgol Bangor i ganfod a oes posib ail-hyfforddi athrawon mewn pynciau eraill i ddysgu Mathemateg. Mae angen darbwyllo myfyrwyr mathemateg nad ydynt yn hyderus yn y Gymraeg bod cefnogaeth ar gael iddynt i ddatblygu'r iaith.

(ii) Rhaid sylweddoli bod prinder athrawon yn gyffredinol mewn pynciau eraill hefyd, e.e. cerdd. Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet Addysg bod arferion da yn Ysgolion

Gwynedd a cheisir pwysleisio bod arbenigwyr pwnc yn rhannu eu harbenigedd ymysg ei gilydd.

(iii) Nodwyd bod angen mwy o sylw i bontio rhwng cynradd ac uwchradd er mwyn codi safonau addysg ond sicrhawyd bod nifer o brosiectau pontio llwyddiannus ar waith. Cyfeiriwyd at arfer mewn un dalgylch, lle adnabuwyd meysydd gwan ym mherfformiad y cynradd mewn rhifedd ac o ganlyniad bu cydweithio â'r sector gynradd ar feysydd penodol.

(iv) Mewn ymateb i bryder am ddirywiad ymddangosiadol mewn canlyniadau TGAU, nododd Uwch Ymgynghorydd Her GwE bod perfformiad hanesyddol Gwynedd fel sir wedi bod yn gadarn ond bod pegynnu yn digwydd ym mherfforiad ysgolion unigol. Cyfeiriwyd hefyd at y pendilio sydd yn digwydd gydag ysgolion ble mae'r cohort yn fychan. Mae'r maes wedi cael sylw eleni a gwelliannau amlwg mewn nifer o'r ysgolion dargedwyd ar gyfer cynhaliaeth. Nodwyd hefyd bod dangosyddion performmiad a meicnodau diwygiedig wedi'u cyflwyno dros y blynyddoedd diwethaf gyda ffocws penodol ar y prif ddangosydd (TL2+) ynghyd â disgwyliadau uwch gan y corff rheoleiddio, ESTYN.

(v) O ran arweinyddiaeth, nodwyd bod angen rhoi sylw i'r nifer swyddi penaethiaid gwag a datblygu modelau gwahanol mewn sefyllfaoedd lle methir penodi Penaethiaid megis penodi Arweinydd Strategol dros Ddalgylch i gefnogi'r sector cynradd hefyd.

(vi) O ran agweddau s'n cyfrannu at arweinyddiaeth dda esboniodd y Rheolwr Prosiect ei bod wedi cyflwyno adroddiad i Benaethiaid ac yn cyflwyno dogfen gynhwysfawr yn manylu ar yr agweddau o arferion da sydd yn bosibl i'w rhoi ar waith mewn ysgolion gyda rhestr gyffelyb ar gyfer llywodraethwyr a fyddai o fudd ar gyfer bod yn gyfaill beirniadol i'w hysgolion.

(vii) Cymhwyster CPCP – nodwyd bod 2 uwch reolwyr o'r sector uwchradd a 7 / 8 o'r sector cynradd wedi eu derbyn i ddilyn y cymhwyster CPCP eleni. Nodwyd bod cynllun gan y Cyngor i ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel a bod yn rhaid adnabod potensial unigolion yn fuan

(viii) Mynegwyd peth bryder am yr holl ofynion sydd ar benaethiaid sy'n golygu eu bod yn gweithio oriau sylweddol tu hwnt i'r oriau dysgu. Teimlwyd nad oedd yn gymhelliant i athrawon ymgeisio am swyddi Penaethiaid / Dirprwyon oherwydd y pwysau gwaith anferthol sydd ar Benaethiaid.

(ix) O safbwynt perfformiad TL2+ bod safle Gwynedd yn 5ed uchaf yn genedlaethol a bod y Sgôr Bwyntiau Wedi'i Gapio yr uchaf un

(x) Yng nghyd-destun yr elfennau o'r prosiect sydd wedi eu lliwio'n felyn a choch, hyderir y bydd nifer ohonynt yn datblygu i'r lliw gwyrdd ond rhaid cofio bod y cynllun gwreiddiol wedi'i ddiwygio ac na fydd rhai elfennau yn cael eu gweithredu yn yr un modd.

(xi) Nodwyd bod ESTYN fel rhan o arolygiad yr Awdurdod wedi gwneud cais i gyflwyno adroddiad ar ôl eu hymweliad ôl-arolwg diweddar.

**Penderfynwyd: (a) Cymeradwyo'r cynnydd a wneir hyd yma ond bod angen parhau i fonitro i'r dyfodol.**

**(b) Derbyn a chroesawu cais penodol ESTYN i gyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.**

## 7. ADRODDIAD AR WEITHREDU Y GWASANAETH EFFEITHIOLRWYDD A GWELLA YSGOLION (GwE) GYDAG YSGOLION GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad gan Uwch Ymgynghorydd Her Hwb Gwynedd/Môn o Wasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion (GwE) ar waith GwE gydag ysgolion Gwynedd.

(a) Tywyswyd yr Aelodau drwy gynnwys yr adroddiad gan nodi gwybodaeth gefndirol ar sefydliad GwE, ymrwymiad Gwynedd i'r gwasanaeth, cyllideb gomisiynu a dargedir ar gyfer ysgolion penodol, strwythur y Tîm, data perfformiad ar draws y Cyfnodau Allweddol, crynodeb o ganfyddiadau ESTYN o arolygiadau yn ystod cyfnod gweithrediad GwE, gwybodaeth data o safbwynt categoreiddio ysgolion yn y sector cynradd a'r uwchradd, ymateb gan rhanddeiliad ynglyn ag ansawdd gwaith GwE.

(b) Yn ystod y drafodaeth, ystyriwyd y materion canlynol:

(i) Mewn ymateb i ymholiad, esboniwyd bod y meini prawf ar gyfer categoreiddio gwyrdd wedi ei dynhau sy'n ei wneud yn anoddach i osod ysgolion yn y categori hwn ac yn ymwneud yn benodol â pherfformiad grwpiau o ddysgwyr megis dysgwyr cinio am ddim, bwlch rhwng bechgyn a merched, plant gydag anghenion dysgu ychwanegol. Eglurwyd bod cham i'r broses o bennu categori ysgol, sef:

- Llywodraeth Cymru yn gosod pob ysgol mewn Categori data (1-4)
- Canfyddiadau GwE yn lleol drwy graffu ac arsylwi gwersi, trafodaeth gydag arweinwyr sy'n arwain at farn ar ansawdd arweinyddiaeth (A-D)
- Pennu categori lliw i ysgolion o ran cynnig cefnogaeth a chynhaliaeth

Canlyniad Cam 1 o'r broses oedd wedi gosod nifer fwy o ysgolion Gwynedd yn Chwartel 4 ac and oedd casgliad cytbwys am y safonau nes cwblhau'r holl gamau'r broses

(ii) Cytunwyd bod dangosydd cinio am ddim yn un amrwd iawn o berfformiad ysgolion ond yn un sydd yn gyrru holl drafodaethau gyda nifer o randdeiliad.

(ii) Ychwanegodd yr Aelod Cabinet Addysg bod trefn wedi ei sefydlu yn ddiweddar o gynnal trafodaethau o fewn y Grŵp Ansawdd lle y byddir yn canolbwyntio ar ysgolion penodol a thrafod unrhyw gamau all yr awdurdod gynnig o ran cefnogaeth ac i herio'r ysgolion.

(iv) Ymfalchïwyd ym mhenodiad arbenigwyr sy'n cydweithio hefo clwstwr o ysgolion a bod hyn i'w longyfarch a bod gan rhanddeiliad agwedd lawer iawn mwy positif tuag at weithrediad GwE ac yn ei weld fel adnodd i gynorthwyo ysgolion.

(v) Gwerthfawrogwyd gweld yr enghraifft o beth yw natur y gynhaliaeth ac effaith y gefnogaeth gydag ysgolion categori coch ac y byddai hyn yn ddefnyddiol i rannu hefo llywodraethwyr

(vi) Cydnabuwyd bod tryloywder yn y berthynas rhwng GwE, ysgolion a llywodraethwyr yn gwbl hanfodol ac fe ddylai llywodraethwyr gael mynediad i adroddiadau monitro. Gwelir yn yr arferion gorau bod cynrychiolaeth o'r llywodraethwyr yn ymuno ac yn rhan greiddiol o'r broses monitro a thrwy hyn yn meddu dealltwriaeth well o'r broses craffu. Teimlwyd hefyd bod gan Aelodau etholedig rôl gwbl greiddiol i newid meddylfryd o fewn rhai cyrff llywodraethol ac yn enwedig mewn ambell i ysgol sydd wedi ei dynodi yn y categori coch.

(vii) Mewn ymateb i bryder bod rhai cysylltiadau mentora'n golygu gormod o deithio, eglurwyd bod cydweithio yn bwysig a bod disgwyliad drwy'r gyfundrefn bresennol i bob Pennaeth gymryd mwy o gyfrifoldeb lletach am addysg plant. Gwelir y gyfundrefn yn effeithiol mewn niferoedd o ardaloedd lle mae ysgolion yn helpu ei gilydd.

(viii) Mewn ymateb i ymholiad ynglyn â llwyddiant / aflwyddiant ysgolion i gyrraedd targedau, eglurwyd bod nifer o ysgolion gyda cohort bychan iawn yn gosod targed dyheadol (aspirational) yn hytrach na thargedau realistig a chyraeddadwy. Nodwyd ymhellach bod bwriad i gyflwyno rhaglen waith er mwyn rhoi sylw pellach i asesu, gosod targedau, tracio ac ymyrraeth. Cydnabuwyd bod rhai ysgolion yn gosod

targedau rhy heriol ac nad ydy hynny yn hwyluso'r gwaith o adnabod a mynd i'r afael â thangyflawni yn effeithiol.

**Penderfynwyd: Derbyn yr adroddiad gan nodi'r pwyslais i gryfhau'r ddealltwriaeth o gydweithio.**

## 8. ADOLYGIAD STRATEGOL ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Nododd yr Aelod Cabinet Addysg bod bwriad i gyflwyno cynigion o adolygiad o'r maes uchod i'r Cabinet ym mis Chwefror / Mawrth 2015. Gofynnwyd i'r Pwyllgor sefydlu Grwp Tasg i graffu ar y Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ystod y cyfnod ymgynghorol yn ystod Ionawr 2015.

**Penderfynwyd: Ethol yr aelodau canlynol i wasanaethu ar y Grwp Tasg:**

**Y Cynghorydd Elin Walker Jones**
**Y Cynghorydd Gweno Glyn**
**Y Cynghorydd Selwyn Griffiths**
**Parchedig Robert Townsend**

____________________________

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR CYNLLUNIO 24/11/14

**Yn bresennol:** **Y Cynghorydd Michael Sol Owen – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones – Is-gadeirydd**

**Y Cynghorwyr:** Elwyn Edwards, Gwen Griffith, Eric M. Jones (Eilydd), Dilwyn Lloyd (Eilydd), June Marshall, W. Tudor Owen, Eirwyn Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams ac Eurig Wyn.

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cynghorwyr John Brynmor Hughes, Aeron M. Jones, Liz Saville Roberts, John Wyn Williams a R. H. Wyn Williams (Aelodau lleol).

**Hefyd yn bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio), Cara Owen (Rheolwr Rheolaeth Datblygu), Keira Ann Sweenie (Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr), Gareth Roberts (Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu Trafnidiaeth) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Endaf Cooke, John Pughe Roberts ac Owain Williams a'r Cynghorwyr Llywarch Bowen Jones, Dafydd Meurig a Mair Rowlands (Aelodau Lleol).

## 1. CROESO

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Atgoffwyd pawb o drefn y cyfarfod.

Nodwyd oherwydd problemau technegol na fyddai'r cyfarfod yn cael ei recordio.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

(a) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir:

- Y Cynghorydd Gruffydd Williams, yn eitem 5 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C14/0653/43/LL) oherwydd mai ei dad oedd yr ymgeisydd.
- Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones a Michael Sol Owen, yn eitem 5 ar y rhaglen, (ceisiadau cynllunio rhifau C14/0849/19/LL a C14/0884/45/LL) oherwydd eu bod yn aelodau o Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

Roedd yr Aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau a oedd yn rhagfarnu a gadawsant y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y ceisiadau a nodir.

(b) Datganodd yr aelodau canlynol eu bod yn aelodau lleol mewn perthynas â'r eitemau a nodir:

- Y Cynghorydd Aeron M. Jones, (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen, (ceisiadau cynllunio rhifau C14/0276/24/LL a C14/0659/24/AM);
- Y Cynghorydd John Brynmor Hughes, (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C14/0357/39/LL);
- Y Cynghorydd Liz Saville Roberts, (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C14/0653/43/LL);
- Y Cynghorydd R. H. Wyn Williams, (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C14/0689/39/LL);
- Y Cynghorydd June Marshall, (oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C14/0697/11/LL);
- Y Cynghorydd John Wyn Williams, (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C14/0825/25/LL);
- Y Cynghorydd Michael Sol Owen, (oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C14/0884/45/LL).

Ymneilltuodd yr Aelodau i ochr arall y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y ceisiadau dan sylw ac ni fu iddynt bleidleisio ar y materion hynny.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd 2014, fel rhai cywir yn ddarostyngedig i:

(i) Ychwanegu enw'r Cynghorydd Peter Read o dan 'Eraill a wahoddwyd' ar dudalen 1.
(ii) Diwygio'r frawddeg yn y fersiwn Gymraeg 'Nododd yr aelod lleol a oedd yn cefnogi'r datblygiad...' o dan gais rhif C14/0793/11/LL ar dudalen 11 i ddarllen 'Nododd yr aelod lleol a oedd yn *gwrthwynebu'r* datblygiad...'
(iii) Diwygio'r frawddeg yn y fersiwn Saesneg 'The local member (a member of this Planning Committtee)...' o dan gais rhif C14/0793/11/LL ar dudalen 12 i ddarllen 'The local member (*not* a member of this Planning Committee)...'

## 4. CEISIADAU CYNLLUNIO

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol i ddatblygu.

Ymhelaethwyd ar fanylion y ceisiadau ac ymatebwyd i gwestiynau mewn perthynas â'r cynlluniau ac agweddau o'r polisïau.

**PENDERFYNWYD**

### 1. Cais rhif C14/0276/24/LL – Ceiriog Belan, Rhos Isaf, Caernarfon

Codi tŷ fforddiadwy, gwelliannau i'r fynedfa bresennol ynghyd a chadw siediau gardd (cais rhannol ôl-weithredol).

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi bod safle'r cais wedi ei leoli ar gyrion gogledd-ddwyreiniol pentref Rhos Isaf a ddynodir fel pentref gwledig yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd (CDUG). Nodwyd bod yr ymgeisydd yn gymwys o dan bolisi CH5 o'r CDUG i gael tŷ fforddiadwy yn yr ardal.

Nodwyd bod yr ymgeisydd wedi lledaenu cyrsiau dŵr ar y safle er mwyn gwella rhediad dŵr wyneb/tir drwy'r safle ac i osgoi unrhyw lifogydd yn y dyfodol. Adroddwyd bod yr Uned Draenio Tir hefo ddim gwrthwynebiad. Credir bod y bwriad yn dderbyniol ar sail gofynion Polisi B32 o CDUG ar holl bolisïau perthnasol eraill.

(b) Gwnaed y prif bwyntiau canlynol gan yr aelod lleol (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn):-

- Bod cymdogion yn gyffredinol ddim yn erbyn y datblygiad;
- Bod pryder o ran diffyg rheolaeth cynllunio yng nghyswllt y newidiadau a oedd eisoes wedi ei wneud i'r safle;
- Awgrymu gosod amod mai cyfrifoldeb yr ymgeisydd oedd y ffosydd;
- Gan fod y ffordd yn eithriadol o gul y dylid gosod amod bod trafnidiaeth adeiladu ddim yn mynd i'r safle cyn 9.30am a dim ar ôl 4.30pm;
- Bod Cyngor Cymuned Llanwnda yn gofyn am gysondeb wrth ddelio â cheisiadau o'r fath a thegwch i bob ymgeisydd.

Mewn ymateb i sylwadau'r aelod lleol, nododd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu y byddai'n bosib gosod amod yng nghyswllt cyfrifoldeb am y ffosydd yn ogystal ag amod oriau derbyn nwyddau i'r safle.

Cynigwyd ac eiliwyd i ganiatáu'r cais efo'r amodau ychwanegol.

(c) Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed darparu palmant i gerddwyr, nododd yr Uwch Reolwr Cynllunio gan fod y safle yn wledig nid oedd yn ofynnol bod palmant ac nid oedd yr Uned Drafnidiaeth yn gwrthwynebu.

Holodd aelod os byddai'n bosib cyfyngu'r amser olaf ceir derbyn nwyddau i'r safle i 3.00pm. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Cynllunio y byddai'r gwasanaeth yn sicrhau bod yr amod amser yn un rhesymol.

**PENDERFYNWYD dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r ymgeisydd arwyddo cytundeb cyfreithiol 106 yn ymwneud â chyfyngu meddiannaeth y tŷ a ddarperir yma yn y lle cyntaf ac am byth i rai sy'n gallu profi angen lleol cymunedol am dŷ fforddiadwy ac i amodau perthnasol yn ymwneud â:-**

1. Dechrau'r gwaith oddi fewn i 2 mlynedd o ddyddiad y caniatâd ei hun.
2. Yn unol â'r cynlluniau.
3. Llechi naturiol.
4. Tynnu hawliau datblygiadau a ganiateir.
5. Amodau Dwr Cymru.
6. Amodau Priffyrdd.
7. Tirlunio.
8. Symud y ddwy garafán o'r safle'n gyfan gwbl pan ddaw'r tŷ yn drigiadwy.
9. diogelu ffosydd
10. oriau derbyn nwyddau i'r safle

**2. Cais rhif C14/0357/39/LL – Tyn Morfa, Llanengan**

Addasiadau ac estyniadau i'r tŷ ac adeiladu adeilad ar wahân i gynnwys modurdy a stiwdio gwaith.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais am ganiatâd, gan nodi y gohiriwyd penderfyniad ar y cais yng nghyfarfod 22 Medi 2014 er mwyn i Swyddogion gynnal trafodaethau efo'r ymgeisydd i geisio dod i gytundeb ar leihau graddfa'r estyniad a'r adeilad modurdy/stiwdio. Eglurwyd y cynhaliwyd ymweliad safle ar 22 Medi 2014 yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 1 Medi 2014.

Adroddwyd yn dilyn trafodaethau efo'r ymgeisydd bod yr elfen modurdy wedi ei ddileu o'r bwriad felly stiwdio gwaith ar gyfer ffotograffydd yn unig fyddai yn yr adeilad ar wahân. Derbyniwyd cadarnhad gan yr ymgeisydd nad oedd yn dymuno newid yr estyniadau i'r tŷ gan mai fel y cyflwynwyd yr atebir eu gofynion.

Nodwyd bod yr adeilad ar wahân bellach yn dderbyniol gan ei fod yn gweddu i'r eiddo presennol a'r amgylchedd oddi amgylch o ran ei raddfa, maint a ffurf. Er hyn, ystyrir bod yr estyniad cefn deulawr yn ddominyddol ac yn anghydnaws gyda'r eiddo presennol.

Nodwyd lleolir yr eiddo yng nghefn gwlad agored ac o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) gyda'r safle yn agored heb fawr ddim tyfiant o'i amgylch. Tynnwyd sylw at bryderon Swyddogion yr AHNE o ran maint y datblygiad.

(b) Cefnogwyd y cais gan yr aelod lleol, (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), a gwnaed y prif bwyntiau canlynol ganddo:-

- Ei fod wedi bod yn rhan o'r trafodaethau rhwng yr ymgeisydd a swyddogion a bod newidiadau i'r adeilad ar wahân yn dderbyniol;
- Bod y gymuned leol yn gefnogol i'r cais;
- Bod y tŷ yn y teulu ers 5 cenhedlaeth;

- Bod Pensaer yr ymgeisydd o'r farn mai yn y lleoliad fel y nodir yn y cynlluniau fyddai'r lle gorau i'r estyniad er mwyn cryfhau waliau'r hen dŷ;
- Y dylid caniatáu'r cais.

Cynigwyd ac eiliwyd i ganiatáu'r cais yn groes i argymhelliad y swyddogion.

(c) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:

- Bod dyluniad a maint yr adeilad stiwdio gwaith wedi ei ddiwygio yn dilyn trafodaethau;
- Bod yr elfen modurdy wedi ei dynnu o'r bwriad;
- Bod ymestyniad y cwrtil wedi ei leihau;
- Mai datgan pryder yn unig oedd yr Uned AHNE;
- Bod y dyluniad yn gweddu i'r ardal ac na fyddai'n amharu ar yr AHNE;
- Bod gan yr ymgeisydd hawl i wella golwg y tŷ;
- Bod rhaid penderfynu ar y cais yn unol â'r polisïau cynllunio;
- Bod y safle yn yr AHNE;
- Y byddai caniatáu'r cais yn gosod cynsail peryglus.

(ch) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio:-

- Bod trafodaethau wedi eu cynnal efo'r ymgeisydd a daethpwyd i gyfaddawd ar raddfa'r adeilad ar wahân;
- Yn ystod y trafodaethau bod sawl opsiwn wedi ei gyflwyno i'r ymgeisydd o ran dyluniad yr estyniad a fyddai'n parchu lleoliad y cais;
- Gan fod y safle wedi ei leoli yn yr AHNE bod gofyn statudol i warchod amcanion y dynodiad;
- Mai mater i'r Pwyllgor oedd penderfynu ar y cais.

(d) Yn unol â rheol gweithdrefn 22(6) cofnodwyd y bleidlais ganlynol i **ganiatáu'r cais**:

**O blaid y cynnig i ganiatáu'r cais, (8)** Y Cynghorwyr: Elwyn Edwards, Eric M. Jones, Dilwyn Lloyd, W. Tudor Owen, Eirwyn Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams ac Eurig Wyn.

**Yn erbyn y cynnig i ganiatáu, (3)** Y Cynghorwyr: Gwen Griffith, Anne T. Lloyd Jones ac June Marshall.

**Atal, (1)** Y Cynghorydd Michael Sol Owen

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Amodau:
1. Amser
2. Cynlluniau
3. Llechi
4. Deunyddiau
5. Defnydd is-wasanaethol i'r stiwidio
6. Tynnu hawliau datblygu cyffredinol a ganiateir

**3. Cais rhif C14/0558/41/LL – Lleifior, Llangybi**

Newid defnydd tir o dir amaethyddol i gwrtil domestig a chodi garej/gweithdy.

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi bod maint yr estyniad cwrtil yn cael ei ystyried yn rhesymol ac fod graddfa a gorffeniad y garej/gweithdy yn gweddu gyda'r tŷ o safbwynt lliwiau a deunyddiau'r waliau ac yn addas o

safbwynt adeilad at ddibenion domestig ac felly yn cwrdd gyda gofynion polisïau B22 a B25 o'r CDUG.

Nodwyd yr ystyrir bod gosod amod yn cyfyngu'r defnydd i ddefnydd domestig yn unig, yn golygu bod y datblygiad yn dderbyniol o dan bolisi B23 o'r CDUG.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd gwrthwynebydd y prif bwyntiau canlynol:-

- Pryderon gan gymdogion bod y cynlluniau yn gamarweiniol;
- Gan fod y tir yn uwch yng nghefn y tai byddai'r garej/gweithdy yn fwgwd;
- Bod plot gwag wrth ymyl a byddai'r datblygiad yn effeithio ar werth tŷ ar y safle yn y dyfodol;
- Y dylid ystyried newid lleoliad y garej/gweithdy;
- Bod y datblygiad yn groes i bolisïau B22, B23, C1, C7 a C28 o'r CDUG;
- Bod maint y garej/gweithdy yn annerbyniol ac felly ei fod yn or-ddatblygiad mewn cefn gwlad.

(c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol:-

- Mai at ddefnydd domestig yn unig oedd y garej/gweithdy;
- Bod maint y garej/gweithdy wedi ei leihau ar ôl derbyn pryderon gan bobl gyfagos;
- Bod y lleoliad a'r defnydd arfaethedig yn dderbyniol o dan y polisïau;
- Bod cwrtil y tŷ wedi ei ymestyn er mwyn gwneud yr ardd yn fwy;
- Nad oedd rheswm cynllunio, amgylcheddol neu gyfreithiol i wrthod y cais.

Cynigwyd a eiliwyd i ganiatáu'r cais.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Amodau:

1. 5 mlynedd
2. deunyddiau i gydweddu a'r adeilad preswyl presennol
3. to lliw llwyd
4. defnydd domestig yn unig/yn atodol i ddefnydd preswyl yr eiddo a adnabyddir fel Lleifior, Llangybi
5. cydymffurfio gyda'r cynlluniau
6. tynnu hawliau datblygiad a ganiateir o'r tir
7. dim gosod carafán ar y tir

## 4. Cais rhif C14/0618/34/LL – Derwin Fawr, Garndolbenmaen

Cais llawn i godi trydydd tyrbin gwynt 50kw ar dwr 24.6m gyda chyfanswm uchder o 34.2m i frig y llafn.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi bod maint y trydydd tyrbin yn golygu y gwelir y tri thyrbin yr un faint o'r rhan fwyaf o welfannau. Ychwanegwyd y byddai'r tyrbin yr un lliw a'r ddau dyrbin arall.

Nodwyd bod ardal y cais yn ardal wledig ac yn amaethyddol gyda pheilonau trydan 50m o uchder oddeutu 120m o'r safle a oedd yn amlwg yn y dirwedd. Parc Cenedlaethol Eryri wedi ei leoli oddeutu 800m i'r dwyrain a'r AHNE dros 3km i ffwrdd o safle'r cais.

Nodwyd yn dilyn ystyried yr holl bolisïau a materion cynllunio perthnasol ni chredir y byddai'r datblygiad yn cael effaith negyddol arwyddocaol ar y tirlun yn gyffredinol, na'r Parc Cenedlaethol cyfagos yn benodol, ac yng nghyd-destun polisïau cenedlaethol yn ymwneud

ag ynni adnewyddol a pholisïau lleol yn ymwneud â'r tirlun, mwynderau ac ynni adnewyddol ni chredir fod y bwriad yn groes i'r polisïau perthnasol hyn.

(b) Tynnwyd sylw at y sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn nodi y byddai'n briodol gosod amod "cwtogiad" ar y caniatâd cynllunio er mwyn amddiffyn Statws Cadwraeth Ffafriol rhywogaethau ystlumod ac ni wrthwynebir y cais petai amod priodol mewn lle.

Nodwyd bod ansicrwydd o ran priodoldeb yr amod a awgrymir gan CNC a y gofynnir am yr hawl i ganiatáu'r cais yn ddibynnol ar dderbyn eglurhad pellach gan CNC ynglyn â phriodoldeb yr amod cwtogiad ac yn ddarostyngedig i'r amodauperthnasol.

(c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol:-

- Bod y fferm deuluol yn ceisio arallgyfeirio i ddiogelu ei ddyfodol;
- Mai ardal ddiwydiannol gyda busnesau bach oedd ardal safle'r cais;
- Bod 4 peilon trydan ynghyd â gorsaf drydan ar y tir o amgylch y safle;
- Bod sicrhau parhad amaeth yn galluogi'r iaith Gymraeg i barhau;
- Y gobeithir y caniateir y cais yn unol â'r argymhelliad.

Cynigwyd a eiliwyd i ganiatáu'r cais yn ddibynnol ar dderbyn sylwadau ffafriol gan CNC.

(ch) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:

- Y dylid datgan bod CNC yn anghyson efo'u sylwadau ar geisiadau;
- Ei fod yn or-ddatblygiad gan fod 2 dyrbin gwynt yno eisoes;
- Bod effaith gronnus os caniateir y cais;
- Bod y swm o £250 y flwyddyn a gytunwyd gan yr ymgeisydd fel cyfraniad at Ambiwlans Awyr Gogledd Cymru yn isel;
- Y gwrthodwyd y cais am dyrbin yn Llanaelhaearn yn y cyfarfod diwethaf ar sail polisïau B8, B12, B23, B33 a C26 o'r CDUG, pam felly bod y cais yma yn wahanol?

(d) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio:-

- Bod y sylwadau a dderbynnir gan CNC yn gymhleth ac fe gysylltir â CNC i nodi barn y Pwyllgor;
- Ni ystyrir y byddai effaith gronnus o ystyried y tirlun ehangach;
- Y rheolir cyfraniadau ariannol budd cymunedol tu allan i'r drefn gynllunio;
- Y dylid delio gyda bob un cais ar ei haeddiant.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn ddibynnol ar dderbyn sylwadau ffafriol gan Gyfoeth Naturiol Cymru.**

Amodau:
1. dechrau gwaith o fewn 2 flynedd
2. yn unol â'r cynlluniau
3. lliw i weddu gyda'r tyrbeini eraill
4. sŵn
5. llafnau i symud yn yr un cyfeiriad
6. dadgomisiynu
7. cyflwyno cynllun cwtogiad at ddibenion diogelu ystlumod
8. cysylltu gyda'r grid drwy roi gwifrau tan ddaear

**5. Cais rhif C14/0653/43/LL - Parc Carafanau a Chwrs Golff Gwynus, Pistyll**

Uwchraddio safle carafanau sefydlog presennol drwy ail-leoli'r holl garafanau sefydlog o ran o gae 472 i ran o gae 470.

'Roedd aelodau'r Pwyllgor wedi ymweld â'r safle cyn y cyfarfod.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 22 Medi 2014 y penderfynwyd gohirio'r cais er mwyn cynnal ymweliad safle. Nodwyd bod y bwriad yn golygu ail-leoli 10 uned carafán sefydlog o gae 472 i gae 470. Adroddwyd y derbyniwyd gwybodaeth ychwanegol gan asiant yr ymgeisydd yn nodi y bwriedir defnyddio rhan o gae 472 i storio carafanau teithiol yn ystod misoedd y gaeaf.

Tynnwyd sylw bod y bwriad yn golygu adleoli'r carafanau gwyliau sefydlog i safle amlycach yn y dirwedd a thu allan i ffiniau presennol y parc carafanau, felly ni ystyrir bod y bwriad yn cydymffurfio gyda maen prawf 2 o bolisi D17 o'r CDUG.

Eglurwyd bod y cynlluniau a gyflwynwyd efo'r cais yn amlygu y byddai maint y safle maes carafanau yn cynyddu o 1.69ha i 4.96ha felly ni ellir ei ystyried yn estyniad bychan. Ychwanegwyd bod maint a natur yr estyniad arfaethedig yn gyfystyr â chreu safle carafanau sefydlog newydd.

Nodwyd bod safle'r cais wedi ei leoli yng nghefn gwlad ac o fewn yr AHNE a Thirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llŷn ac Ynys Enlli.

Ystyrir fod y lleoliad arfaethedig yn fwy gweladwy o ran lleoliad na'r safle carafanau presennol. Yn sgil hyn ni ystyrir y byddai'r bwriad yn sicrhau fod cymeriad yr AHNE yn cael ei warchod, ei gynnal na'i wella ac y byddai'r bwriad felly yn achosi niwed arwyddocaol i dirwedd wledig yr AHNE yn groes i ofynion Polisi B8 CDUG.

(b) Tynnwyd sylw at y sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd.

(c) Cefnogwyd y cais gan yr aelod lleol (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), a gwnaed y prif bwyntiau canlynol ganddi:-

- Wrth ymweld â'r safle fe ddylid fod wedi edrych ar y safle o bell er mwyn sylwi bod y safle yn ei ddyffryn ei hun ac ni fyddai effaith ar y tirlun;
- Mai mater o farn oedd dehongliad o bolisïau B8, D16 a D17 o'r CDUG;
- Bod yr ymgeisydd yn fodlon derbyn amod tirlunio;
- Bod y busnes yn bodoli ers y 50au a byddai'r newidiadau bwriedig yn gwneud y busnes yn hyfyw;
- Mai'r bwriad oedd gwneud y safle yn fwy deniadol;
- Y byddai'r bwriad yn cyfrannu tuag at gynaliadwyedd busnes cyflenwyr cabanau lleol;
- Bod modd caniatáu ceisiadau o'r fath os byddai effaith economaidd;
- Bod yr ymgeisydd yn ceisio cyd-bwyso hyfywdra'r busnes teuluol yn ogystal â gwarchod yr AHNE;
- Traean o'r cae a ddefnyddir;
- Gofyn i'r aelodau ystyried caniatáu efo amodau.

(ch) Mewn ymateb i sylwadau'r aelod lleol, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio:-

- Bod trafodaethau wedi bod yng nghyswllt opsiynau eraill;
- Yr ystyrir bod uwchraddio gyda chynnydd 3 neu 4 gwaith ym maint arwynebedd y safle, fel y nodir yn y cynlluniau, yn gwbl groes i ofynion Polisi D17 CDUG;

- Y cefnogir ceisiadau lle newidir lleoliad safle o lefydd amlwg i guddiedig er mwyn sicrhau bod cymeriad yr AHNE yn cael ei warchod, ei gynnal a'i wella, ond yn yr achos yma byddai'r safle carafanau yn symud i le mwy amlwg;
- Pe byddai'r Pwyllgor yn penderfynu caniatáu'r cais, y byddai'n rhaid cyfeirio'r mater i gyfnod cnoi cil gan y byddai hyn yn gwbl groes i'r CDUG ac yn tanseilio polisïau cynllunio'r Cyngor.

(d) Cynigwyd ac eiliwyd i ganiatáu'r cais yn groes i argymhelliad y swyddogion.

Nodwyd y sylwadau canlynol o blaid caniatáu'r cais:

- Mai cais am uwchraddio yn unig ydyw;
- Bod angen digon o le rhwng y cabannau er mwyn sicrhau bod y busnes yn hyfyw ac yn cyfarch anghenion twristiaid;
- Bod y safle wedi ei leoli mewn dyffryn felly ni fyddai effaith gweledol;
- Mai cyfnewid 10 carafán am 10 caban yn unig oedd y bwriad;
- Bod y datblygiad yn sicrhau swyddi ac yn hwb i'r economi leol;
- Bod 2,000 o goed wedi eu plannu er cuddio'r safle a byddai gosod amod tirlunio yn ddigonol;
- Mater o farn yng nghyswllt yr effaith ar yr AHNE.

(dd) Nodwyd y sylwadau canlynol yn erbyn caniatáu'r cais:

- Bod y cais yn groes i'r polisiau;
- Y byddai caniatáu'r cais yn gosod cynsail peryglus;
- Bod dyletswydd i warchod yr AHNE;
- Bod twristiaid yn dod i'r ardal yma i fwynhau natur a'r golygfeydd;
- Fod y cais yn golygu estyniad mawr i'r safle a hynny i gefn gwlad agored.

(e) Yn unol â rheol gweithdrefn 22(6) cofnodwyd y bleidlais ganlynol i **ganiatáu'r cais**:

**O blaid y cynnig i ganiatáu'r cais, (6)** Y Cynghorwyr: Elwyn Edwards, Eric M. Jones, Dilwyn Lloyd, W. Tudor Owen, Eirwyn Williams, ac Eurig Wyn.

**Yn erbyn y cynnig i ganiatáu, (5)** Y Cynghorwyr: Gwen Griffith, Anne T. Lloyd Jones, June Marshall, Michael Sol Owen a Hefin Williams.

**Atal, (0)**

**PENDERFYNWYD yn groes i argymhelliad y swyddogion i ganiatáu'r cais.**

Rhesymau:
Dim effaith gweledol.
Nad oedd y bwriad yn golygu creu safle newydd nac yn estyniad annerbyniol i'r safle.

**Nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio ei fwriad, yn unol â Rheolau Gweithdrefn y pwyllgor hwn, i gyfeirio'r cais i gyfnod cnoi cil gan ddod ag adroddiad pellach gerbron y pwyllgor yn amlygu'r risgiau ynghlwm â chaniatáu'r cais.**

**6. Cais rhif C14/0659/24/AM – Tir gyferbyn â Glanrhyd Isaf, Dinas, Llanwnda, Caernarfon**

Codi 6 tŷ fforddiadwy a mynediad newydd.

Adroddwyd bod y cais uchod wedi ei dynnu'n ôl.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r uchod.**

**7. Cais rhif C14/0689/39/LL - Glyndŵr, Abersoch**

Cyfnewid siale bresennol am dŷ annedd.

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi bod y safle o fewn ffin datblygu pentref Abersoch a thu mewn i'r AHNE. Nodwyd o ystyried amrediad dyluniad a maint tai yng nghyffiniau agos y cais, ni ystyrir y byddai dyluniad modern y tŷ yn edrych allan o le.

Cyfeiriwyd at sylw gwrthwynebwr yng nghyswllt gwrthodiad apêl diweddar am dŷ ar lain Anhywel, nodwyd bod yr Arolygydd yn ystyried y byddai'r egwyddor o ddatblygu'r safle at ddiben preswyl yn dderbyniol o ran cymeriad trefol, ond bod maint yr eiddo hwnnw yn or-ddatblygiad o'r safle cyfyng ac felly methu cynnal cymeriad yr AHNE. Pwysleisiwyd bod rhaid ystyried bob cais ar ei haeddiant ac yn yr achos yma credir bod y bwriad yn dderbyniol o ran graddfa i'w leoliad.

Roedd y datblygiad yn cydymffurfio gyda'r CDUG am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad.

(b) Gwrthwynebwyd y cais gan yr aelod lleol (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), a gwnaed y prif bwyntiau canlynol ganddo:-

- Cwestiynu pan fo datblygiadau wedi eu gwrthod yn flaenorol;
- Bod angen cymryd i ystyriaeth gwrthodiad apêl Anhywel;
- Gobeithir y gwrthodir y cais gan ei fod yn or-ddatblygiad ac nad oedd y dyluniad modern yn addas yn yr AHNE;
- Os caniateir y cais byddai'n agor y drws i geisiadau arall.

Cynigwyd ac eiliwyd i wrthod y cais yn groes i argymhelliad y swyddogion.

(c) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:

- Y bwriad yn or-ddatblygiad a fyddai'n effeithio'n andwyol ar yr AHNE;
- Y gosodir cynsail os caniateir y cais;
- Bod y bwriad yn groes i bolisi B8 o'r CDUG.

(ch) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed gwrthodiad ceisiadau ar y safle yn y gorffennol, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio bod cyd-destun polisi wedi newid ac y dylid delio efo bob cais yn unigol. Nodwyd bod egwyddor y datblygiad yn dderbyniol ond nodir pryderon yr aelodau o ran yr effaith ar yr AHNE.

**PENDERFYNWYD yn groes i argymhelliad y swyddogion i wrthod y cais.**

Rheswm:
Y bwriad yn groes i bolisi B8 o'r CDUG gan ei fod yn or-ddatblygiad a fyddai'n effeithio'n andwyol ar yr AHNE.

**8. Cais rhif C14/0697/11/LL – 88 Farrar Road, Bangor**

Codi tŷ deulawr yn dilyn gwrthodiad o dan gyfeirnod C14/0060/11/LL.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi y lleolir y safle oddimewn i ffiniau datblygu dinas Bangor ac ystyrir y safle fel tir a ddatblygwyd eisoes. Nodwyd bod ymgais wedi ei wneud i leoli'r adeilad newydd mewn man a fyddai'n fwyaf tebygol o effeithio lleiaf ar 88 Ffordd Farrar tra hefyd yn osgoi cynnwys gormodedd o ffenestri ar gefn yr adeilad fyddai'n creu pryder o ran materion gor-edrych.

Roedd y datblygiad yn cydymffurfio gyda'r CDUG am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad.

(b) Nododd yr aelod lleol (oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn) nad oedd yn gwrthwynebu'r bwriad ond yn gofyn i ystyried newid aliniad y tŷ er mwyn iddo fod yr un fath â'r adeiladau arall.

(c) Mewn ymateb i sylwadau'r aelod lleol, nododd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu y gellir cynnal trafodaethau efo'r ymgeisydd yng nghyswllt ysgafnu edrychiad yr adeilad o ochr Ffordd Farrar.

Cynigwyd a eiliwyd i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i gynnal trafodaethau efo'r ymgeisydd.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r swyddogion gynnal trafodaethau efo'r ymgeisydd yng nghyswllt edrychiad yr adeilad o ochr Ffordd Farrar.**

Amodau:

1. Amser
2. Cydymffurfio gyda chynlluniau
3. Deunyddiau/llechi
4. Tirlunio
5. Cwblhau'r fynedfa a llecynnau parcio
6. Materion draenio
7. Tynnu hawliau datblygu a ganiateir.
8. Nodyn gofynion deddf wal rannol.

**9. Cais rhif C14/0825/25/LL – Tŷ Coch, Glasinfryn, Bangor**

Creu trac mynediad newydd.

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi bod y cais ar gyfer creu trac mynediad newydd i safle a dderbyniwyd caniatâd cynllunio ar gyfer trosi adeiladau allanol gwag i bedwar uned gwyliau o dan gyfeirnod C13/0765/25/LL.

Tynnwyd sylw nad oedd yr Uned Drafnidiaeth yn gwrthwynebu.

Roedd y datblygiad yn cydymffurfio gyda'r CDUG am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd gwrthwynebydd y prif bwyntiau canlynol:-

- Bod yr Arolygydd Cynllunio yn fodlon bod y trac a gwelliannau cysylltiol yn dderbyniol a dylid dilyn ei gyfarwyddyd;
- Nad oedd y bwriad yn cydymffurfio â Pholisi CH25 o'r CDUG nac ychwaith Paragraff 44 o'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA): Trosi Adeiladau yng Nghefn Gwlad Agored ac mewn Pentrefi Gwledig;
- Bod defnyddio'r trac presennol yn hytrach na chreu trac newydd yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd;
- Bod cynyddu'r nifer o fynedfaoedd yn mynd i arwain at fwy o ddamweiniau;
- Anharddu cefn gwlad heb angen.

(c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol:-

- Nad oedd yr Uned Drafnidiaeth, Uned Bioamrywiaeth na Chyfoeth Naturiol Cymru yn gwrthwynebu;
- Y derbyniwyd gwrthwynebiad i'r cais a ganiatawyd yn flaenorol yng nghyswllt defnyddio'r trac mynediad presennol a rŵan efo'r trac newydd;
- Gwaith draenio wedi ei gwblhau a oedd yn atal dŵr rhag mynd i'r briffordd felly bod gwrthwynebu ar y sail yma yn anghywir;
- Byddai'r trac newydd yn golygu na fyddai gymaint o geir yn mynd o flaen tai cyfagos;
- Byddai'r trac yn hwylus i bawb ac nad oedd rheswm i wrthod y cais.

(ch) Gwnaed y prif bwyntiau canlynol gan yr aelod lleol (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn):

- Na fyddai'r trac newydd yn fwy diogel;
- Ni welwyd tystiolaeth bod dŵr wedi stopio llifo i'r briffordd;
- Ei bryder na fyddai ddim byd ar y trac newydd i nadu'r dŵr a byddai'r wast llechi a roddir ar y trac yn mynd i'r briffordd;
- Ei bryder y byddai'r nifer o ddamweiniau yn cynyddu.

(d) Mewn ymateb i sylwadau'r aelod lleol, nododd y swyddogion:-

- Ni dderbyniwyd sylwadau gan yr Uned Draenio Tir ond gellir pe dymunir gosod amod bod cynllun cynhwysfawr dŵr wyneb;
- Bod y fynedfa newydd yn dderbyniol i'r Uned Drafnidiaeth ac y cynhaliwyd trafodaethau efo asiant yr ymgeisydd a bod mesuriadau addas i gyfarch y broblem dŵr wyneb wedi ei gynnwys yn y cynllun. Nodwyd y byddai 5 medr o wyneb tarmac caled i atal y wast llechi ar weddill y trac rhag mynd i'r briffordd.

Cynigwyd a eiliwyd i ganiatáu'r cais gydag amod ychwanegol parthed cynllun cynhwysfawr dŵr wyneb.

Pleidleisiwyd ar y cynnig ac fe ddisgynnodd.

Cynigwyd a eiliwyd i wrthod y cais.

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais.**

Rheswm:
Bwriad yn groes i bolisi CH25 o'r CDUG a Paragraff 44 o'r Canllaw Cynllunio Atodol: Trosi Adeiladau yng Nghefn Gwlad Agored ac mewn Pentrefi Gwledig.

**10. Cais rhif C14/0865/16/LL – Plas y Coed, Bangor**

Ail-gyflwyniad o gais C14/0205/16/LL a wrthodwyd ar gyfer ail-leoli mynediad cerbydol, ynghyd ag ail-gyfeirio tri tŷ a gerddi cysylltiol fel a ganiatawyd o dan gyfeirnod C11/1077/16/LL.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi bod y cais wedi ei ddiwygio o'r hyn a wrthodwyd trwy gynyddu uchder wal ffin bresennol rhwng y fynedfa arfaethedig a'r eiddo a adnabyddir fel Porthdy Plas y Coed i 1.5 medr a chynnwys band o dirlunio dwys ychwanegol. Yn ogystal, cynigir llecyn o dir ar gyfer parcio penodol i'r Porthdy yn ôl y wybodaeth a gyflwynwyd gyda'r cais.

Nodwyd bod yr Uned Bioamrywiaeth yn fodlon derbyn y newid i ail-leoli'r fynedfa cyn belled ag y gellir cynnwys amod i dynnu'r hawl i gynnal datblygiadau a ganiateir o fewn y gerddi yma heb gyflwyno a chymeradwyo cais ffurfiol.

Ni chredir fod y bwriad yma yn annerbyniol o'i gymharu â'r hyn a ganiatawyd yn flaenorol, ac fel a ddangosir yn yr adroddiad, bod angen y newidiadau fel y cyflwynwyd am resymau penodol.

(b) Tynnwyd sylw at y sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd.

(c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol:-

- Bod y safle wedi ei ddynodi fel safle i'w ddatblygu yn y CDU;
- Na lwyddwyd i ddod i ddealltwriaeth efo perchennog y Porthdy ond bod uchder tirlunio dwys ar ffin y safle wedi ei gynyddu er mwyn lleihau'r effaith mwynderol a gwarchod preifatrwydd y Porthdy.

(ch) Darllenodd aelod sylwadau'r aelod lleol a oedd wedi ymddiheuro:

- Gwnaed cyfaddawd pan ganiatawyd y cais gwreiddiol bod mynediad y stad mor bell â phosib o'r tŷ;
- Y byddai addasu'r fynedfa yn effeithio ar fwynderau preswyl trigolion y Porthdy;
- Bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i wrthwynebu'r cais oni bai y cyflwynir gwybodaeth na fyddai effaith ar goed;
- Bod yr ymgeisydd yn nodi bod Stad Penrhyn yn gwrthwynebu lleoliad y fynedfa ond nid oedd gwrthwynebiad ganddynt i'r cais gwreiddiol a ganiatawyd;
- Yr Uned Drafnidiaeth yn fodlon efo'r fynedfa wreiddiol;
- Gobeithir y byddai'r Pwyllgor yn gwrthod y cais gan nad oedd y bwriad yn cydymffurfio â Pholisïau B19, B20 a B23 o'r CDUG.

(d) Mewn ymateb i sylwadau'r aelod lleol, nododd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu fod y swyddog perthnasol yn CNC ar wyliau felly disgwylir am gadarnhad eu bod yn fodlon â'r bwriad os rhoddir amod tynnu hawliau datblygiadau a ganiateir.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Amodau:

1. Amser
2. Cydymffurfio gyda chynlluniau
3. Deunyddiau
4. Tynnu hawliau datblygiadau a ganiateir
5. Manylion tirlunio
6. Nodyn gofynion Deddf Wal Rannol

Nododd y Cynghorydd June Marshall iddi atal ei phleidlais.

**11. Cais rhif C14/0939/13/LL – Yr Hen Fecws, Tyn y Coed, Carneddi, Bethesda**

Estyniad ar ochr yr eiddo.

(a) Tynnwyd sylw bod y cynllun lleoliad o flaen adroddiad y cais yn y rhaglen yn anghywir.

Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi na dderbyniwyd gwrthwynebiad i'r bwriad.

Roedd y datblygiad yn cydymffurfio gyda'r CDUG am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Amodau:

1. amser
2. cynlluniau

3. llechi ar y to

Nodyn Dwr Cymru

Cadeiriwyd y drafodaeth ar weddill y ceisiadau gan y Cynghorydd Gwen Griffith.

**12. Cais rhif C14/0849/19/LL – Tir ger 61-72 Llwyn Beuno, Bontnewydd**

Creu 5 man parcio ceir newydd, llwybrau troed, ffens ynghyd â chodi 4 storfa ar gyfer cadw beics.

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi bod y bwriad yn diwallu'r angen am fannau parcio.

Gan gyfeirio at y gwrthwynebiadau, nodwyd er bod llecynnau/gerddi yn cael eu disodli ar gyfer y ddarpariaeth parcio ychwanegol ynghyd â'r storfa feiciau bydd stribyn oddeutu 3m o lecyn gwyrdd rhwng cefnau'r fflatiau a'r mannau parcio newydd yn aros ar sail diogelu rhywfaint o lecyn mwynderol ar gyfer y tenantiaid.

Roedd y datblygiad yn cydymffurfio gyda'r CDUG am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad.

(b) Tynnwyd sylw at y sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd.

(c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol:-

- Yr ymgynghorwyd efo'r tenantiaid ar y bwriad a bod y rhan fwyaf yn gefnogol;
- Bod angen storfa feics gan fod beics yn bresennol yn cael eu cadw mewn mannau mwynderau mewnol gan achosi risg tân;
- Nad oedd gan denantiaid hawl i gael rhandir yn eu gerddi ond bod Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) yn barod i drafod lleoliad arall ar eu cyfer.

Cynigwyd a eiliwyd i ganiatau'r cais.

(ch) Mewn ymateb i sylw gan aelod, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio mai mater i Gartrefi Cymunedol Gwynedd oedd rheolaeth y mannau parcio.

Nododd aelod ei gefnogaeth i'r cais a chroesawodd y ffaith fod y cwmni yn chwilio am leoliad arall ar gyfer rhandir y tenantiaid.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Amodau:
1. 5 mlynedd.
2. Yn unol â'r cynlluniau.

**13. Cais rhif C14/0884/45/LL – Tir gyferbyn â 82 Lôn Abererch, Pwllheli**

Cais i ddiwygio gosodiad a dyluniad y 6 tŷ a ganiatawyd o dan gais C13/1209/45/LL ynghyd ag adeiladu 1 tŷ unllawr ychwanegol i roi cyfanswm o 7 tŷ ar y safle.

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi bod y safle oddi mewn i ffin datblygu Pwllheli ac na dderbyniwyd gwrthwynebiad i'r bwriad.

Roedd y datblygiad yn cydymffurfio gyda'r CDUG am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol:-

- Bod diffyg eiddo llai gan CCG ac y byddai'r bwriad yn diwallu anghenion tai ac yn gwella edrychiad y safle;
- Y byddai'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion am eiddo pwrpasol ar gyfer pobl hŷn ac anabl ar Lôn Aberech;
- Y cynhaliwyd digwyddiad gwybodaeth yn Medi 2013 lle derbyniwyd cefnogaeth i'r bwriad.

(c) Cynigwyd a eiliwyd i ganiatau'r cais.

Nododd aelodau eu cefnogaeth i'r datblygiad a fyddai'n diwallu anghenion llety'r ardal.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Amodau:

1. Cychwyn o fewn 5 mlynedd.
2. Unol gyda chynlluniau.
3. Llechi ar y to.
4. Cytuno gorffeniad waliau allanol.
5. Tynnu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer estyniadau ac adeiladau cwrtil yn ôl.
6. Amodau Dŵr Cymru fel y cais blaenorol.
7. Amodau priffyrdd fel y cais blaenorol.

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 3.50pm.

______________________________

**CHAIRMAN**

# PWYLLGOR CYNLLUNIO 15/12/14

**Yn bresennol: Y Cynghorydd Michael Sol Owen– Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones – Is-gadeirydd**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorwyr Craig ab Iago (Eilydd), Elwyn Edwards, Gwen Griffith, Dyfrig Wynn Jones, Dilwyn Lloyd (Eilydd), June Marshall, W. Tudor Owen, John Pughe Roberts, Eirwyn Williams, Hefin Williams, Owain Williams ac Eurig Wyn.

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cynghorydd Selwyn Griffiths, Siân Gwenllian, R H Wyn Williams a Chris Hughes. (Aelodau lleol).

**Hefyd yn bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio), Cara Owen (Rheolwr Rheolaeth Datblygu), Idwal Williams (Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu), Dylan Wyn Jones (Rheolwr Tîm Gwelliannau Traffig a Rheolaeth Datblygu), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Endaf Cooke a Chynghorwyr Siôn Wyn Jones, Liz Saville Roberts, John Wyn Williams (Aelodau Lleol)

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

(a) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir:

- Y Cynghorydd Dyfrig Wynn Jones yn Eitem 6 ar y rhaglen (cais rhif C14/0814/39/LL) oherwydd bod yr ymgeisydd yn ffrind agos i'r teulu.
- Y Cynghorydd Craig ab Iago yn Eitem 6 ar y rhaglen (cais rhif C14/0931/44/LL) oherwydd ei fod yn gweithio hefo Grŵp Cynefin.
- Y Cynghorydd Owain Williams yn Eitem 6 ar y rhaglen (cais rhif C14/0995/42/LL) oherwydd ei fod yn berchennog parc carafanau sydd lai na 6 milltir i ffwrdd

Roedd yr Aelodau o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawsant y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y ceisiadau a nodir.

(b) Datganodd yr aelod canlynol eu bod yn aelodau lleol mewn perthynas â'r eitem a nodir:

- Y Cynghorydd Gwen Griffith (a oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 6 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C14/0062/16/LL);
- Y Cynghorydd Eirwyn Williams (a oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 6 ar y rhaglen (cais cynllunio rhif C14/0702/35/LL
- Y Cynghorydd R H Wyn Williams (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 6 ar y rhaglen (cais cynllunio rhif C14/0814/39/LL
- Y Cynghorydd Siân Gwenllian (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 6 ar y rhaglen (cais cynllunio rhif C14/0888/20/LL
- Y Cynghorydd Selwyn Griffiths (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 6 ar y rhaglen (cais cynllunio rhif C14/0931/44/LL
- Y Cynghorydd Christopher Hughes (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 6 ar y rhaglen (cais cynllunio rhif C14/1011/19/LL

Ymneilltuodd yr Aelodau i ochr arall y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y ceisiadau dan sylw ac ni fu iddynt bleidleisio ar y materion hynny.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod diwethaf o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2014, fel rhai cywir.

**3. GORCHYMYN CYNGOR GWYNEDD (GWAHARDDIAD A CHYFYNGIAD AROS A MANNAU PARCIO AR Y STRYD) (ARDAL MEIRIONNYDD) 2014**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio yn deillio o bryderon a fynegwyd gan drigolion lleol ynghylch rhwystr i lif y traffig yn Stryd Minffordd, Corris.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Tîm Gwelliannau Traffig a Rheolaeth Datblygu ar hanes y cefndir gan nodi y derbyniwyd cwynion yn 2012 gan berchennog tŷ yn Stryd Minffordd, Corris, bod cerbydau yn taro’r tŷ. Cytunwyd i ymestyn y llinellau melyn dwbl 5 metr yn ychwanegol y naill ochr i’r ffordd er mwyn gwella llif y traffig. Oherwydd amseriad y cyfnod ymgynghori, nid oedd modd cynnwys yr ymestyniad yn yr ymgynghoriad blaenorol ac felly bod angen ei gynnwys o fewn proses y Gorchymyn Traffig nesaf sydd yn cynnwys Stryd y Bont. Derbyniwyd gwrthwynebiadau gan Gyngor Cymuned Corris i’r estyniad o 5 metr yn Stryd Minffordd ar y sail bod y ffordd ddigon llydan ac y dylid caniatáu parcio ar o leiaf un ochr i’r ffordd.

(b) Nododd yr Aelod Lleol bod ymestyn y llinellau dwbl melyn yn creu fwy o broblem ar gyfer parcio o ystyried y dyddiau hyn bod rhai preswylwyr tai yn berchen ar un neu ddau gerbyd ar gyfer pob tŷ. Ni welir bod angen rhagor o linellau melyn.

(c) Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Tîm Gwelliannau Traffig a Rheolaeth Datblygu bod y llinellau melyn ar Stryd Minffordd eisoes wedi eu cwblhau ac mai cais ôl-weithredol i’w cynnwys yn y Gorchymyn oedd gerbron.

(d) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, mynegwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau unigol:

- Bod gan bob pentref broblemau cyffelyb
- Rhaid ymddiried yn yr Aelod Lleol a’r Cyngor Cymuned gan ei bod yn adnabod y safle ac yn ymwybodol o’r peryglon

(dd) Cynigiwyd ac eiliwyd i beidio cefnogi’r cynnig i’r cyfyngiadau dim aros.

**Penderfynwyd: Gofyn i’r Rheolwr Tîm Gwelliannau Traffig a Rheolaeth Datblygu ddiddymu’r estyniad o 5 metr o gyfyngiadau dim aros, llinellau melyn dwbl, ar ddwy ochr Stryd Minffordd.**

**4. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i’r ceisiadau canlynol i ddatblygu.

Ymhelaethwyd ar fanylion y ceisiadau ac ymatebwyd i gwestiynau mewn perthynas â’r cynlluniau ac agweddau o’r polisïau.

**PENDERFYNWYD**

**1. Cais rhif C14/0062/16/LL– Adeilad Allanol, Bryn Llywelyn, Tregarth, Bangor.**

Cais llawn i dros adeilad segur i dŷ fforddiadwy.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi bod y safle wedi ei leoli mewn cefn gwlad agored rhwng pentrefi Tregarth a Mynydd Llandygai gyda mynedfa bresennol a thrac preifat yn arwain at y safle oddi ar y ffordd gyhoeddus agosaf, gyda thiroedd agored i'r gogledd, de a'r dwyrain. Golygai'r bwriad gyfuno adeiladau amaethyddol presennol ac ail godi'r toeau monopitch presennol i fod yn do crib o lechen naturiol. Cyfeiriwyd at y polisïau perthnasol ynghyd â'r ymgynghoriadau cyhoeddus. Nid yw'r safle o fewn y ffin datblygu a nodwyd nad oedd dau agwedd polisi cwbl hanfodol wedi eu bodloni'n gyfan gwbl sef gofynion polisïau unedau fforddiadwy yng nghefn gwlad a maint a chyflwr yr adeilad i'w drosi. Tra'n derbyn bod yr ymgeisydd wedi cael ei asesu ar gyfer tŷ fforddiadwy ac wedi cyflwyno asesiad gyda'r cais, roedd y Swyddogion Cynllunio o'r farn nad oedd yr adroddiadau yn drylwyr nac yn benodol i'r safle ac nad oedd meini prawf CH12 wedi eu bodloni. Nodwyd bod cyflwr a maint yr adeilad yn allweddol ac yn sgil y ffaith bod angen nifer o addasiadau ac estyniadau i'r adeilad presennol gellir dadlau y byddai'r cais yn gyfystyr gyda adeiladu adeilad o'r newydd ar gyfer defnydd preswyl yng nghefn gwlad agored. Nodwyd bod y cais yn bodloni gofynion polisïau mwynderau gweledol a hefyd mwynderau cyffredinol a phreswyl. Argymhellwyd i wrthod y cais oherwydd nad oedd y bwriad yn cwrdd â'r meini prawf perthnasol a bod cyflwr yr adeilad presennol ynghyd a graddfa'r estyniadau yn gyfystyr ag ail-adeiladu'r adeilad o'r newydd.

(b) Tynnwyd sylw at y sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd.

(c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd yr ymgeisydd y prif bwyntiau isod:

- Bod y Cyngor Cymuned yn gefnogol i'r cais
- Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cais
- Ei fod yn fachgen lleol ac nad oedd yn gofyn am dŷ enfawr ond yn hytrach bwthyn iddo ef a'i deulu ac y byddai ei ferch yn mynychu'r ysgol gynradd leol
- Byddai'n defnyddio adeiladwyr a chrefftwyr lleol i wneud y gwaith a fyddai o fudd i economi'r ardal
- Bod adeilad cyfagos wedi ei drosi oddeutu 3 blynedd yn ôl
- Byddai caniatáu'r cais i addasu adeiladau gwag o fudd i wella'r ffarm

(ch) Cefnogwyd y cais gan yr Aelod Lleol (a oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn) ac fe nododd y prif bwyntiau canlynol:

- Bod yr ymgeiswyr yn deulu lleol o'r gymuned
- Bod cynsail wedi ei fabwysiadu tair blynedd yn ôl ar gais cyffelyb gyda run math o adeiladau ond bod y cais gerbron yn dipyn llai o faint
- Rhoddir estyniad ar yr adeilad presennol oherwydd bod yr adeilad yn gul
- Bod pentrefi Mynydd Llandygai a Thregarth yn cynnwys Dobbs, Sling, a.y.b. sydd gyda phatrwm o fythynnod mewn ardal lechi
- Nad oedd y safle yng nghefn gwlad, ddim ymhell o Penyffriddoedd ac ychydig lathenni o'r ysgol leol sydd wedi bod dan fygythiad yn ddiweddar ac y dylid croesawu teuluoedd ifanc i aros yn yr ardal i gadw'r ysgol yn agored
- Nid oedd hysbysebu'r math yma o adeiladau ar gyfer busnes yn realistig
- Ei bod yn anodd i bobl ifanc brynu tai yn lleol

- O safbwynt polisïau C1, C4 a CH12, dadleuir bod y safle bron tu fewn i'r ffin ac yn rhan o'r pentref gan fod blychau post a theliffon yno
- bod bwriad i gadw ei ddyluniad ac ar hyn o bryd bod yr adeilad yn berygl a'r unig beth sydd angen ydyw to crib a'i fod yn cydymffurfio â chanllawiau tai teg sef tai fforddiadwy

Apeliwyd ar i'r Pwyllgor gefnogi'r cais.

(d) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, esboniodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio bod yn rhaid ystyried pob cais ar ei haeddiant a bod y cais gerbron yn wahanol i'r cais a gefnogwyd tair blynedd yn ddiweddarach. Cadarnhawyd bod y safle mewn cefn gwlad agored ac ar eithriadau yn unig y caniateir ceisiadau cynllunio o'r fath. Rhaid ystyried yr adeiladau sy'n cael eu trosi yng nghyd-destun y cais a bod llawer iawn o waith ail-adeiladu yn ogystal ag estyniad i'r adeilad. Tynnwyd sylw at bolisi C4 sy'n nodi ni ddylid addasu i'r fath raddfa lle ystyrir yr adeiladau yn un newydd. O safbwynt polisïau tai fforddiadwy, nodir bod angen i dai fforddiadwy fod o faint penodol a bod dros 20 medr sgwâr yn fwy na'r angen. Nodwyd bod sicrhau defnydd economaidd yn gyntaf yn rhan greiddiol o'r polisïau ac oherwydd bod elfennau creiddiol ynglŷn â chyflwr yr adeilad a graddfa'r newidiadau awgrymwyd y byddai'n fuddiol i ymweld â'r safle.

(dd) Cynigiwyd ac eilwyd i'r Pwyllgor Cynllunio fynd i ymweld â'r safle.

**Penderfynwyd: Gohirio ystyried y cais a gofyn i'r Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio drefnu i'r Pwyllgor Cynllunio ymwêld â'r safle.**

**2. Cais Rhif C14/0159/25/LL - Glan y Môr Lodge, Ffordd Garnedd, Y Felinheli.**

Cais llawn i godi modurdy newydd.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi mai cais ydoedd i godi garej dwbl newydd oddi ar drac mynediad i'r eiddo ac ar lain o dir gyda choed sefydlog o'i gwmpas. Byddai'r garej newydd yn mesur 5.25m o hyd, 5.25m o led gydag uchder o 4.2m gyda ffrâm dderw gyda dau fae, a'r ochrau wedi cladio. Nodwyd bod y safle wedi ei leoli dros y ffordd i'r tai sy'n ffurfio rhan o'r stad ar Ffordd Heulyn ond ni ystyrir y byddai'n cael unrhyw effaith niweidiol ar fwynderau cyffredinol a phreswyl yr ardal. Tynnwyd sylw bod y Swyddog Cadwraeth, Uned Trafnidiaeth a'r Swyddog Coed yn fodlon gyda'r dyluniad. Derbyniwyd nifer o wrthwynebiadau i'r ymgynghoriad cyhoeddus ond oherwydd natur y bwriad ystyrir ei fod yn cydymffurfio gyda'r polisïau cynllunio perthnasol. Yn sgil yr ystyriaethau perthnasol, argymhellir i ganiatáu'r cais.

(b) Cynigwyd ac eilwyd i ganiatáu'r cais.

**Penderfynwyd: Caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:**

1. **5 mlynedd**
2. **Deunyddiau / gorffeniadau**
3. **Llechi**
4. **Dim defnydd busnes**
5. **Cydymffurfio gyda'r cynlluniau a'r adroddiad coed.**

**3. Cais Rhif C14/0284/00/LL – Victoria Hotel, 11-12 Marine Parade, Abermaw**

Cais llawn i addasu Gwesty yn 8 fflat hunan cynhaliol dwy ystafell wely ac uned 3 ystafell wely ynghyd ag addasiadau a dymchwel estyniad i greu llecynnau parcio i gefn yr eiddo.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi bod yr adeilad wedi ei leoli mewn safle amlwg ar ben rhes drawiadol Marine Parade sydd yn ffurfio rhan o ardal Promenâd Abermaw, ac oddi fewn i'r ffin datblygu. Nodwyd bod yr adeilad wedi bod yn gwbl wag ers 2006 ac yn ymddangos bod defnydd yr adeilad wedi dod i ben cyn y dyddiad yma. Cyfeiriwyd at yr holl bolisïau ac ystyriaethau perthnasol. Ystyrir bod yr adeilad yn addas i'w drosi i'w ddefnydd arfaethedig ac yn cydymffurfio a gofynion polisïau C1 a C4. O safbwynt maen prawf 2 o bolisi CH11 ystyrir bod tystiolaeth gref a digonol wedi ei gyflwyno gyda'r cais i brofi bod yr eiddo wedi ei farchnata am bris rhesymol a theg am gyfnod parhaol o 12 mis heb lwyddiant. Tynnwyd sylw bod yr adeilad mewn man amlwg ger glan y môr Abermaw gyda'i gyflwr presennol yn niweidiol i edrychiadau a mwynderau gweledol yr ardal gyfagos gan fod ffenestri llawr gwaelod yr adeilad wedi eu gorchuddio gyda choed. Golyga'r bwriad y bydd edrychiadau amlycaf yr adeilad yn cael eu cadw a bod gwaith o'i ddychwelyd i ddefnydd yn cadw a gwella'r edrychiadau hyn. Credir ar hyn o bryd bod cyflwr ac edrychiadau presennol yr adeilad yn niweidiol i fwynderau'r ardal leol. O ystyried yr hyn a fwriedir yn nhermau'r gwaith addasu, ystyrir bod y bwriad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio â'r polisïau perthnasol. Tynnwyd sylw bod cyflwr presennol yr adeilad yn amharu ar fwynderau preswylwyr cyfagos ac oherwydd mai defnydd preswyl parhaol fyddai'r bwriad o'i ganiatáu ni ystyrir y byddai'r defnydd arfaethedig yn arwain at newid sylweddol yng nghymeriad defnydd yr adeilad o'r hyn allan fod yn bresennol. Cadarnheir yr Uned Trafnidiaeth bod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt trefniant parcio ac yn bodloni gofynion polisïau CH33 a CH36. Nodwyd bod ystyriaethau perthnasol eraill megis hanes cynllunio, materion llifogydd, a materion ieithyddol yn dderbyniol. O safbwynt maen prawf polisi CH11 darpariaeth uned fforddiadwy ac oherwydd maint a phrisiad rhai o'r unedau arfaethedig, ystyrir bod canran o'r unedau eisoes yn fforddiadwy beth bynnag. Yn sgil yr holl ystyriaeth berthnasol, argymhellir i ganiatau'r cais yn ddarostyngedig i amodau perthnasol.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd asiant yr ymgeisydd y prif bwyntiau isod:

- Adeiladwyd yr eiddo yn y 1800au fel dau breswyl sylweddol gyda chyfamod cyfyngu a osodwyd yn 1906 i beidio ei ddefnyddio fel gwesty, tafarn neu dŷ tafarn ac nid i gael eu defnyddio ar gyfer masnach neu fusnes o gwbl
- Er gwaethaf yr uchod, prynwyd y ddau eiddo yn y 60au a'i defnyddio fel gwesty preifat ar gyfer 14 wythnos uchafswm mewn blwyddyn
- Caewyd y gwesty preifat yn 2006 ac mae wedi aros yn wag ers hynny
- Hysbysebwyd yr eiddo ar werth yn 2008 a gan nad oedd gwerthiant cyflwynwyd cais cynllunio ar gyfer 7 o fflatiau cost isel
- Yn 2011 meddiannwyd yr eiddo gan yr ymgeiswyr cyfredol ac fe'i rhoddwyd ar unwaith ar y farchnad i'w werthu ac yn parhau i fod hyd heddiw
- Bod y perchnogion wedi gwneud eu gorau i werthu'r eiddo, ond o ystyried diffyg diddordeb gwnaed cais i geisio defnydd arall am fflatiau preswyl
- Bod y perchnogion wedi canfod barn y trigolion lleol gan gynnwys busnesau gwely a brecwast yn Marine Parade a phob un ohonynt o blaid y cynnig gerbron

- Nid yw'r eiddo wedi cyfrannu at farchnad dwristiaeth Abermaw
- Bod y cais yn cydymffurfio â pholisïau cynllunio

(c) Cynigiwyd ac eiliwyd i ganiatau'r cais.

(ch) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, gwnaed y sylwadau canlynol gan Aelodau unigol:

- A fyddai newid defnydd yr adeilad i greu fflatiau yn creu fwy o broblemau i'r Cyngor oherwydd y posibilrwydd o ddenu mewnfudwyr i'r ardal ac y byddai hyn yn cael effaith ac yn dinistrio'r iaith Gymraeg
- Ategwyd a rhannwyd y pryderon uchod gan ychwanegu pryder am y llecynnau parcio
- A fyddir yn gallu gosod amod o safbwynt gosod y fflatiau ar rent tymor byr / hir neu wyliau
- A yw'r swyddog cynllunio yn ffyddiog bod angen lleol am y fflatiau

(d) Ymatebwyd i'r uchod fel a ganlyn:

- bod yr Uned Trafnidiaeth yn fodlon gyda'r ddarpariaeth parcio
- y bydd y fflatiau yn cael eu hysbysebu ar y farchnad agored
- dim amheuaeth bod angen amrywiaeth o unedau o'r fath yn Abermaw gyda'r cais yn diwallu'r angen am dai fforddiadwy

**Penderfynwyd: Caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:**

1. **Amser**
2. **Cydymffurfio gyda chynlluniau**
3. **Deunyddiau**
4. **Amodau priffyrdd**
5. **Dŵr Cymru**

**4. Cais rhif C14/0633/00/LL - Post Office Building, King Edward Street, Abermaw**

Cais llawn i newid defnydd rhan o adeilad i greu cyfanswm o 6 uned byw hunan cynhaliol sy'n cynnwys 1 uned 3 ystafell wely, 3 uned ystafell wely, a 2 uned 1 ystafell wely ynghyd ag ardal storio, newidiadau allanol, darparu ardaloedd storio biniau a beics a chreu 6 llecyn parcio wrth ddymchwel y wal ffiniol gyda'r briffordd.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi bod yr adeilad presennol yn eithaf sylweddol ac wedi ei leoli ar hyd prif stryd Abermaw, yn dri-llawr o'r edrychiad blaen gyda llawr ychwanegol islawr o'r edrychiad cefn oherwydd bod lefelau'r tir yn y cefn yn llawer is. Cyfeiriwyd at y polisïau a'r ymgynghoriadau perthnasol. Ystyrir bod y dyluniad y newidiadau allanol yn addas ac yn cydweddu gyda'r adeilad gwreiddiol ac i'w groesawu er mwyn cynnal a chadw'r cymeriad. Nodwyd bod cymysgedd o unedau o ran maint gyda dau ohonynt yn fforddiadwy o safbwynt pris marchand agored a'u maint ac felly nad oedd angen cyfyngu ar y pris ymhellach drwy Gytundeb 106. Ni ystyrir fod y bwriad yn orddatblygiad o'r safle a'I fod yn darparu nifer rhesymol o fath arbennig o lety o fewn adeilad presennol. Sicrhawyd bod y llecynnau parcio yn addas ac ni ystyrir y byddai'r bwriad yn debygol o ychwanegu at draffig na'r sŵn sy'n gysylltiedig â thraffig mewn modd sy'n achosi niwed arwyddocaol i amwynderau lleol. Argymhellir i ganiatau'r cais yn ddarostyngedig i amodau gan fod y bwriad yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol ac yn sicrhau dyfodol i'r adeilad.

(b) Cynigiwyd ac eiliwyd i ganiatau'r cais.

(c) Nododd Aelod y byddai ei ganiatau yn ychwanegu at broblemau cymdeithasol fel y profir yn nhrefi gogledd orllewin Cymru ac o ganlyniad y byddai tref Abermaw yn dirywio.

**Penderfynwyd: Caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i amodau canlynol:**

1. **Amser**
2. **Cynlluniau**
3. **Rhaid cwblhau'r lle parcio ceir yn gwbl unol fel y dangoswyd ar y cynllun a gyflwynwyd**
4. **Amodau Dŵr Cymru**

**Nodyn Dŵr Cymru**
**Nodyn Priffyrdd – cyrbau smwt**
**Nodyn Priffyrdd – gwaith ar y stryd**

**5. Cais Rhif C14/0702/35/LL – Ynys Hir, Upper Morannedd, Criccieth**

Cais llawn i adeiladu annedd deulawr gyda modurdy ynghlwm.

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi'r bwriad i godi tŷ preswyl deulawr ar lain o dir i gefn annedd Ynys Hir sydd wedi ei leoli ar hyd ffordd ddi-ddosbarth Morannedd i ddwyrain pentref arfordirol Cricieth. Nodwyd bod y llain yn anwastad ag yn cynnwys tair step mewn lefel tir, gyda gwahaniaeth o 10 medr rhwng y lefel uchaf a'r lefel isaf. Bydd mynediad i'r safle lawr lon mynediad newydd rhwng Ynys Hir a Wyvren sy'n cael ei wasanaethau gan ffordd ddi-ddosbarth Morannedd sydd hefyd yn cysylltu i'r briffordd A497 bob ochr i'r stad. Cyfeiriwyd at y polisïau perthnasol ac yn deillio o'r ymgynghoriadau cyhoeddus derbyniwyd gwrthwynebiadau. O safbwynt mwynderau cyffredinol a phreswyl ni ystyrir y byddai'r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol o safbwynt colli preifatrwydd, golau na chysgodi. Nodwyd ymhellach bod pryderon y gwrthwynebwyr wedi eu cydnabod ac wedi derbyn ystyriaeth lawn ond ystyrir fod y datblygiad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio â pholisi B23. Yng nghyd-destun mwynderau gweledol ystyrir y byddai'r datblygiad yn dderbyniol o ran graddfa a maint ac yn ogystal bod y dyluniad ac edrychiadau allanol yn cydweddu gyda chymeriadau'r tai presennol o fewn y stad. Yn seiliedig ar asesu'r holl ystyriaethau cynllunio perthnasol gan gynnwys y gwrthwynebiadau, ni ystyrir bod y bwriad yn groes i'r polisïau na'r canllawiau lleol a chenedlaethol ac argymhellir i ganiatau'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau fel amlinellir yn yr adroddiad.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd gwrthwynebydd y prif bwyntiau isod:

- Bod y tir wedi ei ddynodi yn nyluniad gwreiddiol y stad i gael ei gadw'n rhydd o ddatblygiad oherwydd agweddau llifogydd
- Gwrthodwyd caniatâd cynllunio dwywaith ar gyfer tŷ presennol Ynys Hir gan yr awdurdod cynllunio oherwydd anaddasrwydd y tir ond fe gydsyniwyd i'w ganiatau ar apêl
- Bod agweddau llifogydd wedi eu cofnodi gan breswylydd Wyvern ond ni roddwyd ystyriaeth i hyn yn yr adroddiad gerbron
- Byddai ychwanegu tŷ ar y safle hwn yn gwaethygu'r risg draenio a llifogydd ar gyfer cymdogion naill ochr ac islaw'r safle
- Dylid gwrthod y cais oherwydd nad oes manylion draenio wedi eu cyflwyno
- Bod Nodyn Technegol 15 Llywodraeth Cymru yn mynnu bod adroddiad asesu risg o lifogydd i safleoedd sy'n dueddol o lifo yn cael ei gyflwyno ac nid oes asesiad wedi'i gwblhau er gwaethaf gwrthwynebiad lleol yn tynnu sylw at y materion hir sefydlog gyda llifogydd

- Er bod asiant yr ymgeisydd wedi sicrhau'r adran gynllunio bod y materion draenio wedi cael eu datrys drwy ddargyfeirio dŵr ffo o gae'r ffermwr ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth ac felly anogir aelodau i ofyn am y wybodaeth hon er mwyn lliniaru pryder y gwrthwynebwyr cyn dod i benderfyniad
- Bod Polisi CH3 yn ymwneud â thai newydd ar safleoedd a ddyrannwyd ac yn cynghori bod yn rhaid i ddatblygiad newydd sicrhau nad ydynt yn arwain at orddatblygu'r safle nac yn arwain at golli man agored
- Bod Polisi B23 yn nodi os yw cynigion sy'n achosi niwed sylweddol i amwynderau trigolion lleol eu bod yn cael eu gwrthod
- Bod yr eiddo wedi ei osod ar ongl sy'n anghyson gyda chyfeiriadedd yr eiddo preswyl cyfagos a'r unig ddatblygiad tir cefn ar y stad
- Bod yr eiddo oddeutu 6.5 m oddi wrth Ynys Hir ac 14.5m o Benygraig ac mai 22m yw'r mesuriadau arferol rhwng eiddo
- Bydd yr eiddo yn goredrych i ardd yr eiddo islaw

(c) Cefnogwyd y cais gan yr Aelod Lleol (a oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn) gan nodi bod y safle yn ddarn o dir sydd ynghanol stad o dai ac na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn amharu ar fwynderau gweledol. Roedd yn ymwybodol o'r pryderon dwr yn llifo yn y gorffennol a bod hynny'n tarddu o fferm gyfagos ond bellach bod y broblem wedi ei ddatrys ers oddeutu 18 mis.

(ch) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu:

- Bod ystyriaeth lawn wedi ei roi i fwynderau gweledol trigolion cyfagos ac oherwydd y lefelau tir a gosodiad y tŷ arfaethedig, ni ystyrir y byddai effaith gor-edrych i'r tŷ cyfagos nac ychwaith i'r ardd
- Cadarnhawyd bod y broblem gyda dŵr yn llifo wedi ei ddatrys erbyn hyn
- Cyfeiriwyd at sylw Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n datgan risg isel o lifogydd ar y safle dan sylw

**Penderfynwyd: Caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:**

1. **5 mlynedd**
2. **Cyflwyno materion a gadwyd yn ôl o fewn tair blynedd**
3. **Deunyddiau a gorffeniadau**
4. **Mynediad a pharcio**
5. **Tirweddu**
6. **Tynnu hawliau datblygu a ganiateir**
7. **Dwr Cymru**
8. **Datblygiad yn cydymffurfio gyda chynlluniau a gymeradwywyd.**

**6. Cais Rhif C14/0814/39/LL – Bryn Onnen, Lôn Engan, Abersoch, Pwllheli.**

Cais llawn i ddymchwel modurdy a lolfa haul presennol gan addasu ac ymestyn y tŷ presennol i ffurfio tri thŷ deulawr ynghyd a chodi dau fflat hunan cynhaliol cysylltiol

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais a thynnu sylw ers cyflwyno'r cais bod yr ymgeisydd wedi cytuno i arwyddo cytundeb 106 yn clymu un uned sef y fflat llawr daear ar gyfer angen fforddiadwy. Nodwyd bod y safle wedi ei leoli oddi fewn i ffin ddatblygu Abersoch ac oddi fewn i'r AHNE. Cyfeiriwyd at y polisiau cynllunio perthnasol ynghyd â'r ymgynghoriadau cyhoeddus. O safbwynt dyluniad a mwynderau gweledol golygir addasu'r eiddo presennol drwy ychwanegu estyniadau deulawr i'r cefn a'r ochr ddwyreiniol. Ystyrir y byddai'r bwriad yn cadw at y llinell adeiladu bresennol ac yn creu datblygiad o dai sydd yn cyd-fynd gyda'r tai oddi amgylch gyda'i mynediad ar ochr ogleddol Lon Engan. Bwriedir cael mynediad i'r

datblygiad arfaethedig drwy'r fynedfa bresennol sy'n gwasanaethu Bryn Onnen a gyda llefydd parcio ar y cyd yn cael ei baratoi. Byddai'r estyniad cefn wedi ei dorri fyny gan roi edrychiad o dri estyniad ar wahân a fyddai'n ddisgwyliedig i'w weld mewn rhesdai gyda tho brig llechi i bob elfen. Ystyrir bod dyluniad y bwriad yn dderbyniol o ran y safle a'i gyffiniau ac o ran ei raddfa, maint, ffurf, dwysedd, lleoliad a gosodiad ac felly'n cydymffurfio â pholisïau cynllunio perthnasol. Argymhellir i ganiatau'r cais gan fod y datblygiad yn dderbyniol a'r ymgeisydd wedi cadarnhau i un uned fforddiadwy sydd gyfystyr â 25% o'r cynnydd mewn unedau preswyl ar y safle.

(b) Cefnogwyd y cais gan yr Aelod Lleol (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn) gan fod digon o dir ar gyfer y datblygiad arfaethedig ac yn gyfle i gael uned fforddiadwy. Er bo'r Cyngor Cymuned yn anhapus gyda'r datblygiad oherwydd gorddatblygiad ar safle cyfyng, teimlai'r Aelod y byddai o fudd i bobl leol ac apeliwyd ar i'r Pwyllgor gefnogi'r cais.

(c) Cynigwyd ac eiliwyd i ganiatau'r cais.

(ch) Nododd Aelod tra nad oedd yn gwrthwynebu cwestiynwyd pam nad oedd modd gofyn am 5% ychwanegol o unedau fforddiadwy yn unol â'r polisi.

(d) Mewn ymateb i'r sylw uchod, esboniodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu bod un eiddo yn dderbyniol ar gyfer tai fforddiadwy.

**Penderfynwyd: Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio ganiatau'r cais yn ddarostyngedig i'r ymgeisydd gwblhau Cytundeb 106 i sicrhau bod 1 o'r 5 uned yn dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol cyffredinol ac i amodau perthnasol yn ymwneud â:**

1. **Cychwyn o fewn 5 mlynedd**
2. **Unol â chynlluniau**
3. **Llechi ar y to**
4. **Cytuno manylion waliau allanol**
5. **Gwydr afloyw yn ffenestri llawr cyntaf yr edrychiadau gorllewinol a dwyreiniol**
6. **Tynnu hawliau datblygu a ganiateir am estyniadau ac adeiladau cwrtil**
7. **Amodau priffyrdd**
8. **Amodau Dwr Cymru**

**7. Cais Rhif C14/0888/20/LL – Halfway House, Y Felinheli**

Cais llawn i ddymchwel rhan o a throsi tŷ tafarn i greu 4 uned byw ynghyd a chodi 8 tŷ newydd i greu cyfanswm o 12 uned byw ar y safle (4 i fod yn fforddiadwy), creu llecynnau parcio a mynedfa gerbydol ac i gerddwyr.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Datblygu Rheolaeth ar gefndir y cais, gan nodi bod y safle wedi ei leoli ar gyrion pentref Felinheli, gyda'r prif adeilad wedi ei leoli tu fewn i ffin datblygu Felinheli, a'r ardd gwrw wedi ei leoli tu allan. Nodwyd bod maes parcio

sylweddol gyfochrog i'r tŷ tafarn a thu fewn i'r ffin datblygu. Roedd yr adeilad presennol yn darparu cyfleuster tŷ tafarn ar y llawr gwaelod gydag uned byw 8 ystafell wely ar y llawr cyntaf. Golyga'r bwriad ddymchwel estyniadau to fflat presennol ar yr adeilad ynghyd â chodi estyniad deulawr ar ei ochr, a throsi'r adeilad i 4 uned byw. Golyga'r bwriad wneud newidiadau i agoriadau ar gefn yr adeilad ond bod yr edrychiad blaen yn aros fel y mae. Golyga'r bwriad hefyd godi 7 tŷ teras ac 1 tŷ unigol ar safle'r maes parcio presennol gan gadw'r fynedfa bresennol i'r safle, a darparu 16 llecyn parcio ar gyfer y tai teras rhwng y datblygiad tai a'r tŷ tafarn sydd i'w drosi. Nodwyd y byddai 4 o'r unedau yn dai fforddiadwy ac yn cwrdd â'r gofynion perthnasol. Cyflwynwyd asesiad hyfywdra a hygyrchedd o'r tŷ tafarn sy'n datgan bod dewis o 3 tŷ tafarn a bariau o fewn y pentref ynghyd a nifer o lefydd bwyta. Cyfeiriwyd at y polisiau perthnasol ynghyd â'r ymgynghoriadau cyhoeddus. Cadarnhawyd bod yr Uned Trafnidiaeth yn fodlon gyda'r trefniant llecynnau parcio a'r mynedfeydd i'r safle. Yn seiliedig ar wybodaeth a gyflwynwyd mewn datganiad ieithyddol a chymdeithasol ni ystyrir y byddai'r bwriad yn debygol o gael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg. Derbyniwyd cadarnhad bod digon o gapasiti yn yr ysgol leol ar gyfer cynnydd posibl yn nifer o ddisgyblion o ganlyniad i'r unedau preswyl. Yn dilyn asesu'r ystyriaethau perthnasol, ystyrir bod y bwriad yn cydymffurfio â'r polisiau cynllunio perthnasol ac argymhellir caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r ymgeisydd gwblhau cytundeb 106 ac amodau cynllunio priodol.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd asiant yr ymgeisydd y prif bwyntiau isod:

- Datblygiad o safle segur ar gyfer tai ar safle masnachol sydd eisoes wedi ei ddatblygu gyda bron i gyfan o'r tir o fewn ffin datblygu Felinheli
- Llywodraeth a'r cynllun datblygu yn rhoi blaenoriaeth i'r math hwn o dir sydd eisoes wedi ei ddatblygu
- Gwrthodwyd cais blaenorol am nifer o resymau megis dim tystiolaeth ar gyfer profi bod yr uned wedi bod yn wag neu wedi bod ar y farchnad am 12 mis
- Bod datganiad o asesiad ynghlwm i'r cais yn erbyn D28 sy'n dangos bod cyfleon eraill llawn mor hygyrch ar gael yn Felinheli ac o'r herwydd nid oes angen i'r eiddo fod yn wag neu ar y farchnad fel uned fasnachol am gyfnod di-dor o 12 mis
- Bod diffygion yn y cais blaenorol bellach wedi eu cyfarch yn dilyn trafodaeth gyda swyddogion yr Adran Gynllunio
- Datganiad cymunedol ac ieithyddol wedi ei gyflwyno sy'n rhoi tystiolaeth gadarn na fyddai ardrawiad sylweddol ar wead cymunedol, ieithyddol a diwylliannol Felinheli
- Na fyddai effaith gronnus tebygol annerbyniol ar raddfa datblygiad y pentref ac ar gapasiti'r ysgol leol
- Cais yn cyfarch yr angen am dai fforddiadwy a adnabuwyd drwy gynnig pedair uned fforddiadwy
- Materion parcio a'r mynedfeydd yn bodloni gofynion perthnasol yr Uned Trafnidiaeth
- Arolwg wedi ei gynnal ac yn cadarnhau na fu'n gartref i ystlumod
- Cynllun yn cyfarch anghenion dylunio'r safle yn ei gyfanrwydd ac yn cynnig cynllun o safon uchel sy'n gweddu i gymeriad y rhan yma o Felinheli gan gynnwys diogelu cymeriad y dafarn ac felly'n bodloni meini prawf Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd

(c) Nododd yr Aelod Lleol (nad oedd yn aelod o'r pwyllgor cynllunio hwn) bod y cais gerbron yn welliant o ran dyluniad i'r cais blaenorol a diolchwyd i'r swyddogion cynllunio am gyd-weithio gydag asiant yr ymgeisydd. Er nad oedd yn gwrthwynebu, bod ganddi bryderon ar ran drigolion y pentref sef:

- Colli busnes lleol arall i'w ddatblygu ar gyfer tai lle nad oes prawf pendant o'r angen. Credir y byddai gwesty bychan yn gallu bod yn llewyrchus a phetai'r 12 mis i farchnata wedi cael ei ddefnyddio'n briodol efallai y byddai diddordeb masnachol neu ddiddordeb cymunedol i greu menter gymdeithasol wedi datblygu
- Effaith ar yr Iaith Gymraeg – bod y Gymraeg dan fygythiad a bod dwy ran pendant i bentref Felinheli gydag un ochr yn llawer mwy Cymreigaidd na'r ochr lle lleolir y bwriad arfaethedig. Nodwyd bryder gwirioneddol am effaith gronnus ar yr iaith Gymraeg yn deillio o stad o dai gyda phoblogaeth gwyliau ynghyd â datblygiadau sydd ar y gweill gyferbyn â'r safle lle mae'r iaith dan fygythiad
- Pwysigrwydd i'r iaith Gymraeg fod yn ganolog yn y Bil Cynllunio newydd er mwyn gwarchod cymunedau mewn math yma o geisiadau cynllunio
- Y byddai'n cydweithio gyda'r datblygwr i sicrhau bod y datblygiad arfaethedig yn cael ei farchnata'n lleol

(ch) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio fel a ganlyn:

- O ran defnydd cymunedol, bod y datblygiad yn cwrdd â'r maen prawf ym mholisi D28
- O safbwynt effaith ieithyddol, bod yr asesiad yn nodi'n glir na fyddai'r datblygiad yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg nac ychwaith effaith gronnus gan gynnwys y safleoedd eraill a grybwyllwyd
- Bod lleoliad y safle ger y prif stryd yn cynnig 4 tŷ fforddiadwy a'r gweddill yn ddeniadol i bobl leol

(d) Cynigiwyd ac eiliwyd i ganiatau'r cais.

(dd) Ategodd sawl Aelod eu pryder ynglyn â pholisi'r Iaith Gymraeg a'r ffaith ei fod yn griteria pwysig iawn o safbwynt datblygiadau newydd

**Penderfynwyd: Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio ganiatau'r cais yn ddarostyngedig i dderbyn sylwadau ffafriol gan Dwr Cymru ac i'r ymgeisydd gwblhau Cytundeb 106 i sicrhau fod 4 o'r 12 uned yn dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol cyffredinol ac i amodau perthnasol yn ymwneud â:**

1. **5 mlynedd**
2. **Unol â'r cynlluniau a'r adroddiad ecolegol**
3. **To llechi**
4. **Cytuno lliw rendr a charreg leol**
5. **Cytuno manylion mannau caled**
6. **Cytuno manylion ffiniau**
7. **Amod dŵr wyneb ffo**
8. **Tynnu hawliau datblygu a ganiateir**
9. **Amser gweithio**

**Nodiadau:** **Nodyn Dŵr Cymru**
**Nodiadau priffyrdd**

**8. Cais Rhif C14/0931/44/LL – Hafod y Gest, Stryd Fawr, Porthmadog**

Cais llawn i ddymchwel cartref gofal presennol a chodi 40 uned breswyl gofal ychwanegol yn ei le ynghyd a chynnig cyfleusterau cefnogol a chymunedol cysylltiedig.

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar genfdir y cais, gan nodi brif elfennau o'r bwriad yn ymwneud â dymchwel yr adeilad presennol, adeilad newydd a'i ddefnydd. O safbwynt mynedfa a pharcio, tynnwyd sylw y bwriedir lledu'r rhodfa bresennol o'r Stryd Fawr fel ei bod yn rhodfa ddeu-ffordd gyda'r cyhoedd yn defnyddio'r llwybr troed presennol sy'n rhedeg ar hyd ffin ddeheuol archfarchnad Tesco. Cyfeiriwyd at y nifer o asesiadau i gefnogi'r datblygiad ynghyd â'r polisiau cynllunio perthnasol a'r ymgynghoriadau cyhoeddus. O safbwynt mwynderau gweledol, nodwyd bod y safle wedi ei leoli mewn ardal adeiledig sy'n frith o adeiladwaith amrywiol eu maint, dyluniad, ffurf a deunyddiau. Yng nghyd-destun mwynderau cyffredinol a phreswyl, nodwyd y lleolir anheddau preswyl nepell i'r de o safle'r cais ynghyd â meddygfa leol i'r de-ddwyrain. Nodwyd bod rhan ddeheuol o'r adeilad wedi cael ei osod a'i ddylunio er mwyn lleihau y potensial o unrhyw or-edrych i fewn i eiddo cyfagos ynghyd a osgoi strwythur fyddai'n cael effaith ormesol ar eiddo presennol cyfagos. Cyflwynwyd pryder ynglyn â potensial effaith swn ar ddarpar deiliaid yr unedau preswyl a all ddeillio o weithgareddau trosglwyddo nwyddau i archfarchnad Aldi sydd wedi ei leoli ar derfyn gorllewinol safle'r cais. O ystyried y pryderon hyn cysylltwyd â'r ymgeisydd oedd eisoes yn ymwybodol o'r pryder ac wedi cyfeirio at ddyluniad a deunyddiau bwriedig sy'n cynnwys ffenestri dwbl a waliau wedi eu hinsiwleiddio. Yn seiliedig ar yr asesiadau a'r ystyriaethau cynllunio perthnasol, ystyrir bod y bwriad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio â pholisiau perthnasol ac argymhellir ei ganiatau yn ddarostyngedig i'r amodau amlinellir yn yr adroddiad ynghyd ag amod ychwanegol yn ymwneud ag oedran deiliad y cartref.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd gwrthwynebydd y prif bwyntiau canlynol:

- Croesawir, mewn egwyddor, y datblygiad tai ar gyfer 40 o breswylwyr, fodd bynnag nid oedd y cynlluniau yn cynnwys lledu'r ffordd fynediad sy'n arwain i'r feddygfa brysur sy'n gwasanaethu rhwng 3-4,000 o gleifion
- Gwrthwynebir y cais oherwydd diogelwch i gerddwyr a mynediad diogel i'r feddygfa
- Byddai ymestyn y mynediad arfaethedig yn golygu colli llwybr cyflawn o Stryd Fawr i'r Feddygfa a Hafod y Gest ac y byddai'n beryglus i gleifion bregus, yr henoed neu bobl anabl i fod yn cerdded ar hyd ffordd brysur heb balmant parhaus a bod hyn yn destun pryder i'r Feddygfa
- Bod asiantau wedi cymryd yn ganiataol i hawl mynediad ar hyd ffin Tesco i'r ysgol boed hyn i'r datblygiad newydd ond nid oes unrhyw hawddfraint i'r Feddygfa

(c) Nododd yr Aelod Lleol (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn) ar y prif bwyntiau canlynol:

- Tra'n gefnogol i'r cais, ei fod yn gwrthwynebu'r newidiadau arfaethedig i'r ffordd ac yn methu deall pam nad oedd y Cyngor wedi mabwysiadu'r ffordd
- Pryder o dynnu'r palmant oddi yno o safbwynt diogelwch y cyhoedd
- Bod adeiladau'r Heddlu a'r Feddygfa yno ers blynyddoedd
- Ni ragwelai y byddai effaith swn yn amharu ar y datblygiad arfaethedig

(ch) Nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio'r pryderon ac o ganlyniad felly bod angen ail-ystyried y fynedfa neu addasu'r cais i gynnwys cadw'r palmant presennol.

(d) Derbynioddd y Rheolwr Tîm Gwelliannau Traffig a Rheolaeth Datblygu y pryder ynglyn â'r llwybr troed ac o ran mabwysiadu'r ffordd derbynnir ceisiadau gan ddatblygwyr drwy Adran 38 o Ddeddf Priffyrdd ac oherwydd maint y datblygiad ni ragwelir rheswm i wrthwynebu.

**Penderfynwyd: Dirprywo'r hawl i'r Rheolwr Gwasanaeth Cynllunio ganiatau'r cais yn amodol i drafodaethau derbyniol gyda'r datblygwr a'r Aelod Lleol ynglŷn â chadw'r palmant presennol ynghyd a'r amodau canlynol:**

1. **5 mlynedd**
2. **2. Yn unol a'r cynlluniau**
3. **Deunyddiau allanol gan gynnwys llechi naturiol**
4. **Amodau priffyrdd**
5. **Amodau lliniaru Bioamrywiaeth**
6. **Amodau Cyfoeth Naturiol Cymru**
7. **Amodau tirweddu/tirlunio**
8. **Amser gweithio ar y datblygiad**
9. **Amod dros 55 oed yn unig i ddeiliad y cartref**

**9. Cais Rhif C14/0956/18/LL – Gwynllys a Bodwyn, Saron, Bethel, Caernarfon**

Cais llawn i ddymchwel 2 dy teras ynghyd a chodi 2 dy newydd yn eu lle.

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi bod y safle wedi ei leoli o fewn ffin datblygu pentref Bethel a bod 3 tŷ teras deulawr presennol ar y safle, gyda 2 ohonynt yn destun y cais. Cyfeiriwyd at y polisiau cynllunio perthnasol ynghyd a'r ymgynghoriadau cyhoeddus. O ran egwyddor y datblygiad ni ystyrir ei fod yn briodol gofyn i 50% o'r datblygiad fod yn fforddiadwy. Yn seiliedig ar yr holl ystyriaethau perthnasol, ystyrir bod y bwriad yn cydymffurfio gyda holl ofynion y polisiau sy'n ymwneud gyda dyluniad y bwriad, mwynderau a deunyddiau allanol. Argymhellir caniatáu'r cais yn unol â'r amodau amlinellir yn yr adroddiad gydag un amod ychwanegol yn ymwneud â chais i'r ymgeisydd gyflwyno datganiad cynllun gweithredu i sicrhau nad oes rhwystr ar y ffordd.

(b) Cynigiwyd ac eilwyd i ganiatau'r cais.

(c) Nododd Aelod werthfawrogiad yn yr amod ychwanegol gan bod y lôn yn gul a rhagwelir y byddai loriau yn cael trafferthion.

**Penderfynwyd: Caniatau yn ddarostyngedig i amodau:**

1. **5 mlynedd**
2. **Unol gyda'r cynlluniau**
3. **To llechi**
4. **Deunyddiau**
5. **Amodau Dwr**
6. **Datganiad cynllun gweithredu gan yr ymgeisydd i sicrhau nad oes rhwystr ar y ffordd**

**Nodiadau:**

1. **Nodyn Dwr Cymru**
2. **Nodyn Wal gydrannol**

**10. Cais Rhif C14/0995/42/LL – Tyn Lon, Edern, Pwllheli**

Cais llawn i newid defnydd cae i ffurfio safle carafanau teithiol ar gyfer 15 carafan ynghyd ag adeiladu bloc toiledau a gosod tanc trin carthion.

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi bod y safle wedi ei leoli yng nghefn gwlad ac o fewn Ardal Gwarchod y Dirwedd. Nodwyd ymhellach bod y safle yn wastad a lleolir modurdy yng nghornel gogledd gorllewinol y safle a cheir rhai tai annedd yng nghyffiniau safle. Cyfeiriwyd at y polisiau perthnasol ynghyd â'r ymgynghoriadau cyhoeddus yn ogystal â'r sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd. O safbwynt egwyddor y datblygiad, nodwyd bod gosodiad a gwedd y datblygiad o safon uchel a'i fod yn cydymffurfio â'r meini prawf. Yng nghyd-destun mwynderau gweledol yr ardal, ni ystyrir y byddai'r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol i ansawdd gweledol y dirwedd ac ni ystyrir y byddai'r safle carafannau teithiol yn sefyll allan yn amlwg yn y dirwedd. Derbyniwyd sylwadau'r Uned Drafnidiaeth a oedd yn datgan na fyddai'r bwriad yn debygol o fod yn niweidiol i ddiogelwch ffyrdd ac yn dderbyniol o agwedd y polisi perthnasol. Argymhellir caniateir cais yn ddarostyngedig i dderbyn sylwadau ffafriol yr Uned Polisi ar y Cyd i'r datganiad Ieithyddol a Chymunedol.

(b) Cynigiwyd ac eilwyd i ganiatau'r cais.

**Penderfynwyd: Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio i ganiatau'r cais yn ddarostyngedig i dderbyn sylwadau ffafriol yr Uned Polisi ar y Cyd i'r datganiad ieithyddol a chymunedol ac i amodau:**

1. **Cychwyn o fewn 5 mlynedd**
2. **Unol á chynlluniau a gyflwynwyd**
3. **Nifer o unedau ar y safle ar unrhyw un adeg i'w cyfyngu i 15**
4. **Amodau cyfnod gosod carafanau cyfnod gwyliau /symud y carafanau pan ddim mewn defnydd**
5. **Dim storio ar y tir**
6. **Rhestr cofnodi**
7. **Tirlunio – yn benodol plannu ychwanegol ar ochr fewnol y lleiniau gweledol ble mae gwrychoedd presennol angen eu lleihau**
8. **Amodau priffyrdd**

**11. Cais Rhif C14/1011/19/LL – Tir ger Ysgubor Fawr, Llanfaglan, Caernarfon.**

Cais llawn i adeiladu tŷ ar gyfer gweithiwr amaethyddol allweddol ynghyd a chodi modurdy a thanc carthion cysylltiedig.

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi'r bwriad i leoli tŷ oddeutu 500m i'r de-orllewin o ganolfan y daliad sy'n cynnwys ffermdy presennol ynghyd â nifer o adeiladau amaethyddol traddodiadol a newydd. Bwriedir lleoli'r tŷ 32m i'r gorllewin o adeilad amaethyddol presennol ar ffurf ysgubor a enwir yn Ysgubor Fawr gyda'r rhodfa a'r mannau parcio arfaethedig wedi'u lleoli rhwng y ddau adeilad. Gosodir y tŷ oddeutu 1m i mewn i gesail boncen yng nghornel de dwyreiniol y cae er mwyn lleihau ei effaith ar fwynderau gweledol y tirlun. Cyfeiriwyd at y polisiau perthnasol ynghyd â'r ymgynghoriadau cyhoeddus. Nodwyd bod egwyddor o godi tŷ ar gyfer gweithiwr amaethyddol allweddol/llawn amser wedi ei selio ym Mholisi CH9 o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd sy'n datgan bydd rhaid cydymffurfio â nifer o feini prawf er mwyn caniatáu'r fath fwriad yng nghefn gwlad. O safbwynt mwynderau gweledol, cyffredinol a phreswyl, nodwyd bod y safle'n rhannol guddiedig o ystyried

bod tair poncen wedi eu lleoli i'r gogledd, gorllewin ac i'r de o safle'r cais a chredir na fydd effaith presenoldeb tŷ un-llawr yma yn amharu'n ormodol nac yn sylweddol ar gymeriad y tirlun nac ychwaith ar osodiad yr heneb a' adeilad rhestredig gradd i Eglwys St Baglan sydd wedi ei leoli oddeutu 282m i'r de a'r tu cefn i boncen. Ni fyddai effaith ar fwynderau na phreifatrwydd trigolion cyfagos gan y byddai cryn bellter o'r annedd agosaf. Yn seiliedig ar yr ystyriaethau perthnasol, argymhellir gwrthod y cais oherwydd ni ystyrir bod y bwriad yn cwrdd â maen prawf 5 o bolisi CH9 o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd nac ychwaith maen prawf Nodyn Cyngor Technegol 6 sy'n ymwneud â lleoliad addas ar gyfer yr annedd newydd er mwyn diwallu'r angen gweithredol.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol:

- Cefndir amaethyddol y teulu gan nodi eu bod yn y broses o sefydlu buches fagu lloeau yn ogystal â thyfu grawn
- Bod y busnes yn gwerthu cynnyrch o safon da – cig eidion, haidd, gwenith,
- Manteision lleoliad yr annedd yn Ysgubor Fawr – union canolbwynt y fferm, mewn 32 medr i adeilad presennol ac uned mamolaeth pwrpasol i'r gwartheg sydd yn y broses o'i adeiladu
- Lleoliad pella' ar dir y fferm oddi wrth y llwybrau cyhoeddus sydd yn croesi'r tir a gan fod gwartheg sydd newydd roi genedigaeth yn beryg
- Lleoliad i warchod mynedfa newydd y fferm ac yn rhoi golygfa dros rhan helaeth o'r tir i warchod anifeiliad, cnydau a'r llwybrau cyhoeddus
- Lleoliad sydd yn cydymffurfio a pholisiau cynllunio
- Mantais ar gyfer teithio gwyrdd i waith

(c) Cefnogodd yr Aelod Lleol (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn) y cais, gan nodi'r prif bwyntiau isod:

- Bod angen cefnogi pobl leol i ehangu busnesau
- Bod y lleoliad yn addas ar gyfer gwarchod y fferm
- Hanfodol i fod yn agos i'r uned mamolaeth sydd yn cael ei adeiladu
- Amlwg bod y fferm o faint sylweddol a wir angen presenoldeb teulu i fyw yno
- Bod teithio o Borthaethwy bob dydd i weithredu'r fferm yn faen tramgwy i'r ymgeiswyr ac y byddai ei ganiatau o fudd yn hyn o beth
- Cyfeiriwyd at asesiad a dadl ADAS Cymru a oedd yn gefnogol i'r cais yn ogystal â lleoliad y tŷ o ran gweithredu'r fferm
- Mai mater o ddehongliad ydoedd polisi CH9 ynglyn â lleoliad y tŷ ac y dylid cymryd sylw o'r arbenigwyr sy'n gweithredu'r fferm yn ddyddiol

(ch) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio bod y cais yn cydymffurfio â'r mwyafrif o'r meini prawf heblaw lleoliad y tŷ arfaethedig. Mater i'r Pwyllgor fyddai'r penderfyniad a phwysleiswyd bod rhaid ystyried cyfiawnhad ac addasrwydd y lleoliad dros ganiatau'r cais ar gyfer adeilad newydd.

(d) Cynigiwyd ac eilwyd i ganiatau'r cais yn groes i argymhelliad y swyddogion cynllunio, gan nodi'r pwyntiau canlynol:

- Bod wirioneddol angen y tŷ oherwydd yr uned mamolaeth i'r gwartheg
- Bod amaethyddiaeth yn newid ac er mwyn cadw costau i lawr nid oedd dewis ond i gefnogi'r lleoliad
- Y byddai'n lleihau ôl-troed carbon o deithio o Ynys Môn yn ddyddiol i weithredu'r fferm
- Bod rhaid cefnogi busnesau a theuluoedd lleol

**Penderfynwyd: Yn groes i argymhelliad y swyddogion i ganiatau'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:**

1. **Amser**
2. **Cynlluniau**
3. **Deunyddiau**
4. **Llechi**
5. **Tynnu PD**
6. **Amod meddiannaeth**
7. **Trac sydd wedi derbyn caniatad i fod yn ei le yn gyntaf cyn dechrau ar y datblygiad yma**
8. **Septig tanc**
9. **Dwr Cymru**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 4.15 pm

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR CYNLLUNIO 12/1/15

**Yn bresennol: Y Cynghorydd Michael Sol Owen– Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones – Is-gadeirydd**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Elwyn Edwards, Gwen Griffith, Dyfrig Wynn Jones, Dilwyn Lloyd (Eilydd), June Marshall, W. Tudor Owen, John Pughe Roberts, Eirwyn Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams ac Eurig Wyn.

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cynghorydd R H Wyn Williams, Llywarch Bowen Jones, John Wyn Williams, Anwen Davies a Seimon Glyn (Aelodau lleol).

**Hefyd yn bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio), Keira Sweenie (Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu), Idwal Williams (Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu), Dafydd Gareth Jones (Uwch Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff), Dylan Wyn Jones (Rheolwr Tîm Gwelliannau Traffig a Rheolaeth Datblygu), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Owain Williams a Liz Saville Roberts.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

(a) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir:

- Y Cynghorydd Gruffydd Williams yn Eitem 5 ar y rhaglen (cais rhif C14/0653/43/LL) gan ei fod yn fab i'r ymgeisydd; (cais rhif C14/1065/42/LL a C14/1083/42/LL) oherwydd bod ei dad yn berchen parc carafanau wedi ei leoli llai na chwe milltir o'r safle.
- Y Cynghorydd Michael Sol Owen yn Eitem 5 ar y rhaglen (cais rhif C14/1042/11/LL a C14/1043/11/LL) oherwydd ei fod yn aelod o Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd (datblygwyr y cais)
- Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones yn Eitem 5 ar y rhaglen (cais rhif C14/1042/11/LL a C14/1043/11/LL) oherwydd ei bod yn aelod o Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd (datblygwyr y cais)

Roedd yr Aelodau o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawsant y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y ceisiadau a nodir.

(b) Roedd yr aelodau canlynol yn aelodau lleol mewn perthynas â'r eitem a nodir:

- Y Cynghorydd R H Wyn Williams (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C14/0638/39/LL a C14/0902/39/LL);
- Y Cynghorydd Llywarch Bowen Jones (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen (cais cynllunio rhif C14/0653/43/LL)
- Y Cynghorydd John Wyn Williams (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen (cais cynllunio rhif C14/0745/25/HY)
- Y Cynghorydd Anwen Davies (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen (cais cynllunio rhif C14/0885/33/LL)
- Y Cynghorydd Nigel Pickavance (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen (cais cynllunio rhif C14/1042/11/LL a C14/1043/11/LL)
- Y Cynghorydd Seimon Glyn (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen (cais cynllunio rhif C14/1083/42/LL)

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2014, fel rhai cywir yn ddarostyngedig i:

i. Ddiwygio'r frawddeg yn y cofnod Saesneg eitem 1.6 – *Councillor Trefor Edwards (who was not a member of this Planning Committee) in relation to item 6 on the agenda (planning application number C14/1011/19/LL)* - a nodi *Councillor Christopher Hughes (who was not a member of this Planning Committee) in relation to item 6 on the agenda (planning application number C14/1011/19/LL)*

**3. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol i ddatblygu.

Ymhelaethwyd ar fanylion y ceisiadau ac ymatebwyd i gwestiynau mewn perthynas â'r cynlluniau ac agweddau o'r polisïau.

**PENDERFYNWYD**

**1. Cais rhif C14/0638/39/LL –132, Cae Du, Abersoch.**

Ymestyn cwrtil yr eiddo gan adeiladu estyniad deulawr ochr ac ymestyn ardal patio

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan egluro bod y cynllun wedi ei ddiwygio ers iddo gael ei gyflwyno gyntaf. Adroddwyd bod y cynllun gwreiddiol yn dangos balconi ar lefel llawr cyntaf yr estyniad, ond mae hwn bellach wedi cael ei hepgor o'r bwriad. O ran egwyddor y datblygiad, nodwyd yn gyffredinol bod polisïau B22 a B24 o'r Cynllun Datblygu Unedol, yn caniatáu cynigion ar gyfer ymestyn tai presennol, cyn belled eu bod yn cydymffurfio â meini prawf cysylltiol sydd yn anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y tirwedd a'r amgylchedd ynghyd a chymeriad a gwerth mwynderol yr ardal leol.

Eglurwyd bod yr eiddo wedi ei leoli o fewn ardal breswyl o ddwysedd uchel ac y buasai rhywfaint o goredrych yn debygol o fodoli beth bynnag. Addaswyd y cynllun gwreiddiol mewn ymateb i sylwadau'r Uned Drafnidiaeth gan fod pryder ganddynt y buasai'r balconi yn tynnu sylw gyrwyr mewn lleoliad agos i droad. O ganlyniad, ystyriwyd bod y bwriad yn dderbyniol o ran polisi CH33 a CH36 ac na fyddai yn effeithio ar ddiogelwch ffyrdd a pharcio. Ni ystyriwyd y byddai'r bwriad yn effeithio ar fwynderau gweledol yr ardal nag ar gymeriad yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llyn (AHNE) a bod dyluniad yr estyniad yn dderbyniol.

(b) Gwrthwynebwyd y cais gan yr aelod lleol (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), a gwnaed y prif bwyntiau canlynol ganddo:-

- Bod tai ar ystâd Cae Du eisoes yn agos at ei gilydd
- Cais i'r Pwyllgor Cynllunio fod yn fwy effro i geisiadau am estyniadau yn yr ystâd yma - nodwyd bod 85% o'r tai yn dai haf a buasai caniatáu yn gosod cynsail
- Ei fod yn derbyn bod newid i'r cynllun, ond yr estyniad yn parhau i gael effaith ar breifatrwydd trigolion cyfagos

(c) Cynigiwyd ac eiliwyd i drefnu ymweliad safle. Disgynnodd y cynnig. Derbyniwyd bod gwybodaeth ddigonol yn yr adroddiad

(ch) Cynigwyd a eiliwyd i ganiatáu'r cais

(d) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:

- Potensial yma i or-ddatblygu

- Rhaid ystyried barn y Cyngor Cymuned a dechrau dweud digon yw digon

(dd) Nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio fod angen delio gyda phob cais yn unigol ac ar ei haeddiant ac yr ystyriwyd fod y cais oedd o flaen y Pwyllgor yn cydymffurfio gyda'r polisïau cynllunio perthnasol.

**Penderfynwyd: Caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:**

1. **Cychwyn o fewn 5 mlynedd.**
2. **Unol gyda chynllun diwygiedig.**
3. **Llechi i gydweddu gyda'r rhai ar yr eiddo presennol.**
4. **Waliau allanol yr estyniad a'r wal o amgylch y patio i gydweddu gyda'r eiddo presennol o ran lliw a gwead.**

**2. Cais Rhif C14/0645/22/MW – Tomen Llechi Dolbebin, Talysarn**

Ail gyflwyniad o gais blaenorol a wrthodwyd i symud deunydd o ddyddodion gweithio mwynau ynghyd a gwaith prosesu cysylltiol

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff ar gefndir y cais, gan nodi mai ail gyflwyniad ydoedd ar gyfer symud rhan o domen llechi a wrthodwyd caniatâd cynllunio ym mis Ionawr 2014. Y bwriad yw cloddio 7,500m2 mewn rhan o'r domen gweithio mwynau yn mesur 3.16ha ynghyd â gwaith prosesu cysylltiol. Mae cynlluniau'r cais yn dangos ôl troed llai ar gyfer yr ardal brosesu ategol a chompownd y safle a gyflwynwyd gyda'r cais blaenorol (C13/1052/22/MW) - tynnwyd sylw bod y cais wedi ei addasu fel bod compownd y safle yn cael ei greu o fewn godre'r domen. Bwriedir defnyddio'r gwastraff llechi sydd yn deillio o waith adeiladau'r compownd ar gyfer creu ffordd fynediad fydd yn gwasanaethu'r datblygiad yn uniongyrchol oddi ar y B4418 fel y caniateir dan ganiatâd cynllunio C11/1140/22/LL.

Ategwyd hefyd bod manylion diwygiedig i'r cais presennol yn cynnwys, cael gwared ar holl weithgaredd malu llechi, cyflwynwyd asesiad sŵn diwygiedig a gynhaliwyd Awst 2014, cynnwys methodoleg ar gyfer lliniaru ecolegol a strategaeth adfer a gosod compownd y safle o fewn ôl troed y domen.

Nodwyd nad oedd tystiolaeth ddigonol wedi ei gyflwyno parthed sŵn ac effaith ar drigolion cyfagos. Credir bod yr ymgeisydd wedi methu a dangos fod datblygiad, o ran effaith ar sŵn, yn gallu cydymffurfio â'r canllawiau perthnasol. Atgoffwyd hefyd bod Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor yn gwrthwynebu'r cais gan y gall ei ganiatáu achosi niwsans statudol oherwydd sŵn yn sgil y datblygiad.

O ran yr angen am y datblygiad, cyfeiriwyd at bolisi C15 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd, bod yn rhaid i fwriadau i symud deunydd o domen gweithio mwynau gydymffurfio â chyfres o feini prawf. Eisoes fe wasanaethir y farchnad leol gan safleoedd gweithiol gerllaw ac nid oes dadl ddigonol fod gan Domen Dolbebin y gallu i gyflenwi llechi o nodwedd lliw a gwedd sydd yn wahanol i gyflenwad llechi o safleoedd gweithredol ac o ran angen leol neu ranbarthol. Nid oes cyfiawnhad felly dros ganiatáu safle cloddio llechi newydd yn Nyffryn Nantlle.

Tynnwyd sylw at y sylwadau ychwanegol

(b) Yn manteisio ar ei hawl i siarad nododd gwrthwynebydd i'r cais y sylwadau canlynol:

- Y datblygiad yn achosi pryder a phoen i drigolion Dyffryn Nantlle
- Rhaid i'r pwyllgor ystyried gwrthwynebiad clir trigolion lleol
- Y datblygiad yn sicr o greu effaith andwyol ar yr ardal

- Effaith sŵn symud mwynau yn niweidiol i ardal wledig, ddistaw
- Nid yw'r datblygiad yn cydymffurfio gyda pholisïau cenedlaethol a lleol
- Rhaid gwarchod ansawdd bywyd bobl leol
- Cannoedd o drigolion lleol yn erfyn ar y pwyllgor i gadw a chynnal y polisïau
- Nid oes datganiad pendant at gyflogaeth yn y cais
- Rhaid ystyried gallu a pharchu'r gwasanaeth cynllunio i graffu'r sefyllfa yn glir

(c) Yn manteisio ar ei hawl i siarad nododd asiant ar ran yr ymgeisydd y sylwadau canlynol:

- Asesiad sŵn ychwanegol wedi ei weithredu ynghyd â dau arolwg i fonitro'r sefyllfa
- Cloddiad bach ydyw. 4 - 6 llwyth y dydd fydd yn gadael y safle. Hyn yn annhebygol o greu effaith niweidiol. Ni fydd loriau trymion yn teithio i ben draw'r trac
- Ni fydd y bwriad bellach yn 'malu llechi'
- Bydd y mwynau bellach yn cael eu symud o waelod y domen ac nid o'r copa
- Dylid derbyn yr asesiad lefelau sŵn MT
- O ran ymarfer cyffredinol – mae amryw o fesuriadau lliniaru wedi eu cyflwyno

(ch) Yn manteisio ar ei hawl i siarad nododd yr aelod lleol, (oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), y prif bwyntiau canlynol;

- Cais anodd - yn cefnogi'r ddwy ochr
- Teulu lleol eisiau atgyfeirio eu busnes gydag adnodd ar eu tir – anodd peidio cydymdeimlo
- Cymuned, yn enwedig y trigolion hynny sydd yn byw o amgylch y chwarel yn pryderu am y sŵn a'r llwch cynyddol fydd yn codi o'r bwriad
- Polisïau cynllunio ar gael i ddygymod a'r sefyllfa ac felly argymell y dylai'r penderfyniad gael ei wneud ar sail y polisïau hynny
- Cynnig yr angen i gynnal trafodaethau adeiladol wrth ystyried ceisiadau tebyg i'r dyfodol - dysgu gwersi er mwyn atal hollt mewn cymdeithas

Ategodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio bod rhaid ystyried y polisïau perthnasol gan dynnu sylw at gysoni penderfyniadau a rhoi ystyriaeth i sylwadau Gwarchod y Cyhoedd, oedd yn parhau i wrthod y bwriad oherwydd yr effaith andwyol y buasai yn cael ar fwynderau preswyl trigolion cyfagos. Pwysleisiodd hefyd fod y Pwyllgor Cynllunio wedi gwrthod cais tebyg tua 12 mis yn ôl unig, a bod yn rhaid i'r Pwyllgor ystyried os oedd y cais yma'n goresgyn y rhesymau dros wrthod y cais blaenorol. Y prif reswm dros wrthod y cais yw effaith sŵn ar effaith andwyol ar fwynderau gweledol yr ardal sef y prif reswm am wrthod y cais blaenorol. Pwysleisiodd felly nad oedd y cais cyfredol wedi goresgyn y prif reswm dros wrthod y cais y blaenorol a petai'r cais yn cael ei ganiatáu, yn groes i'r argymhelliad, buasai rhaid cyfeirio y cais i gyfnod o gnoi cil.

(d) Cynnig yr argymhelliad o wrthod y cais gyda chynnig am bleidlais gofrestredig

(dd) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, gwnaed y sylwadau canlynol;

- Pryder wedi amlygu am effaith sŵn, llwch a thrafnidiaeth yn yr ardal yn enwedig i drigolion Talysarn. Rhaid ystyried iechyd a lles trigolion

- Yr adroddiad yn gynhwysfawr ac yn rhoi arweiniad clir
- Digon o agreg llechi yn yr ardal ac felly nid oes galw am fwy. Mewn ymateb i gwestiwn, nododd yr Uwch Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff gall 20 miliwn o dunelli yn reserfau Gwynedd gael eu defnyddio fel agreg. Ychwanegwyd bod digon wrth gefn o graig galed (sydd yn cynnwys llechi).
- Y datblygiad ar safle ôl-ddiwydiannol ac yn gyfle i greu busnes a rhoi hwb i'r economi leol
- Menter newydd gan amaethwr lleol i arall gyfeirio - rhaid croesau'r bwriad os yw yn rhoi gwaith i bobl leol
- Sut allwn fod yn arloesol os rydym yn gwrthod busnesau fydd yn cryfhau'r economi?
- Ni all Tomen Lechi Dolbebin gynnig dim byd gwahanol i'r hyn sydd yn cael ei gynnig gan safleoedd lleol eraill
- Rhaid pwyso a mesur y cais yn ofalus - nid oes angen troi ein cefn gwlad yn amgueddfa, ond yma mae effaith mwynderau yn gorbwyso ar yr effaith economaidd.

- Gwnaed cais gan un aelod i dderbyn cadarnhad nad oedd llythyr wedi ei dderbyn gan y Gwasanaeth Cynllunio yn ei enw.
  Mewn ymateb i'r cais nododd y Cyfreithiwr nad oedd llythyr wedi ei dderbyn

**Yn unol â rheol gweithdrefn 22(6) cofnodwyd y bleidlais ganlynol i wrthod y cais:**

**O blaid y cynnig i wrthod y cais, (10) Y Cynghorwyr: Endaf Cooke, Elwyn Edwards, Gwen Griffith, Anne T. Lloyd Jones, Dyfrig Wynn Jones, Dilwyn Lloyd, June Marshall, W Tudor Owen, Eirwyn Williams a Gruffydd Williams**

**Yn erbyn y cynnig i wrthod, (3) Y Cynghorwyr: John Pughe Roberts, Hefin Williams, ac Eurig Wyn.**

**Atal, (0)**

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais**

1. **O ran yr angen lleol a rhanbarthol am y mwyn, credir bod digon o gronfeydd o lechi yng Ngwynedd ac nid oes rheidrwydd ar yr awdurdod, o ran dosbarthiad rhanbarthol, i sicrhau rhagor o gronfeydd neu ddyraniadau o wastraff llechi. O'r herwydd, nid yw'r datblygiad yn cydymffurfio gyda Chyfarwyddyd a Pholisi Cynllunio Rhanbarthol a Chenedlaethol nag â gofynion Polisi C9, C10 ac C15 y Cynllun Datblygu Unedol. Er mwyn lleihau i'r eithaf ar effaith weledol ac amgylcheddol datblygu mwynau yn Nyffryn Nantlle, buasai'n rhaid i'r awdurdod, yn gyntaf, ystyried estyniadau i'r safleoedd presennol.**

2. **Gan nad oes cynlluniau a lluniadau penodol ar gyfer cynllun adfer, ôl-ofal ac ôl-ddefnydd fesul cam, credir y bydd y bwriad yn cael effaith andwyol ar fwynderau gweledol yr ardal, a hynny yn ystod y cyfnod gweithio ac unwaith y bydd y gwaith wedi dod i ben. At hyn, nid yw'r datblygiad yn cydymffurfio gyda gofynion B10, C9, C14 ac C15 y Cynllun Datblygu Unedol nag â chyfarwyddyd polisi cynllunio cenedlaethol.**

3. **Credir bod y bwriad, ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â gwaith arall yn yr ardal i ddatblygu mwynau, yn debygol o gael effaith andwyol ar fwynderau'r ardal a'i fod yn groes i bolisi B23 y CDU (mwynderau) ac i bolisi C12 (cylchfeydd rhagod).**

**3. Cais Rhif C14/0653/43/LL - Parc Carafanau a Chwrs Golff Gwynus, Pistyll**

Uwchraddio safle carafanau sefydlog presennol a'i ail leoli i ran o gae 472 i ran o gae 470.

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio ar gefndir y cais, gan nodi bod y cais wedi ei gyflwyno i gyfarfod Pwyllgor Cynllunio 24 Tachwedd 24 lle penderfynwyd caniatáu'r cais yn groes i argymhelliad y swyddogion. Yn sgil y penderfyniad, roedd risg sylweddol i'r Cyngor o ran y penderfyniad o ganiatáu yn groes i argymhelliad swyddogion, ac felly cyfeiriwyd y mater i gyfnod o gnoi cil yn unol â rheolau sefydlog y Pwyllgor. Pwrpas adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yw amlygu materion polisi cynllunio, risgiau posib a chynnig opsiynau i'r Pwyllgor eu hystyried cyn dod i benderfyniad terfynol.

Atgoffwyd yr Aelodau y byddai'r bwriad yn cynnwys ail leoli safle carafanau sefydlog i safle newydd a chyfnewid y carafanau sefydlog am garafanau gwyliau sefydlog dwbl. Pwysleisiwyd bod arwynebedd y safle yn 4.96 hectar (cae 470), gydag arwynebedd maes carafanau presennol Gwynus yn cynnwys carafanau sefydlog a theithiol yn 1.69 hectar. Amlygwyd hefyd bod bwriad i greu mynedfa newydd i'r safle a bod y safle wedi ei leoli o fewn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llyn (AHNE). Nodwyd o ran egwyddor y cais bod Polisi D17 yn gefnogol i geisiadau i uwchraddio safleoedd sefydlog drwy estyniadau bach i arwynebedd y tir a drwy adleoli unedau carafanau gwyliau sefydlog o leoliadau amlwg i leoliadau llai amlwg. Bwriad yr egwyddor yma yw galluogi safleoedd carafanau presennol sydd wedi ei lleoli mewn safleoedd gweledol amlwg yn arbennig o fewn yr AHNE i gael eu hadleoli o leoliadau llai amlwg a hynny drwy leihau ardrawiad gweledol ar y tirlun.

Ni ystyrir bod y cais cynllunio presennol yn gymwys i'w ystyried fel estyniad bach gan fod arwynebedd tir yr estyniad yn 4.69 hectar o gymharu â 1.69 hectar presennol (carafanau teithiol a sefydlog) ac o'i gymharu â 0.19 hectar sef arwynebedd y safle carafanau sefydlog Yn ychwanegol i hyn roedd y bwriad yn adleoli carafanau sefydlog o leoliadau cuddiedig i leoliadau llawer mwy amlwg. Pwysleisiwyd felly fod y cais yn annerbyniol o ran egwyddor ac yn gwbl groes i Bolisi D17.

Nodwyd oherwydd maint safle'r cais, y mynediad cerbydol ar wahân ac ati, yr ymddengys fod y bwriad cyfystyr a chreu safle carafanau sefydlog newydd. Pwysleisiwyd fod hyn yn groes i ofynion Polisi D16 o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd sydd yn datgan y gwrthodir cynigion i ddatblygu safleoedd newydd ar gyfer unedau carafanau gwyliau sefydlog neu siales gwyliau. Rhaid nodi fod y polisi hwn yn cael ei weithredu yn llym o fewn yr Awdurdod Cynllunio Lleol ers mabwysiadu'r CDU.

Pwysleisiwyd bod y safle yn 4.96 hectar ac wedi ei leoli yn yr AHNE ac mai cyfrifoldeb statudol y Pwyllgor yw gwarchod, cynnal a gwella yr ardal yma. Roedd y cais yn adleoli carafanau sefydlog i leoliadau llawer mwy amlwg o fewn yr AHNE ac felly'n groes i bolisi B8.

Os caiff y cais ei ganiatáu bydd hyn yn tanseilio polisïau'r Cyngor, yn creu anghysondebau o ran gweithredu ac yn gosod cynsail posib i safleoedd eraill. Nodwyd bod hyd at 200 o safleoedd carafanau eraill yn debygol o fod yn craffu'r penderfyniad yma a thra bod angen delio gyda phob cais ar ei haeddiant roedd hefyd angen sicrhau cysondeb o ran gweithredu polisïau cynllunio

Cynigwyd tri opsiwn i'r Pwyllgor eu hystyried wrth benderfynu'r cais.
Argymhelliad cadarn y swyddogion oedd gwrthod y cais gan ei fod yn gwbl groes i'r CDU.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd cynrychiolydd ar ran yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol:-

- Bod y safle presennol wedi ei sefydlogi ers y 50au hwyr / 60au cynnar

- Gan fod y safle yn wasgaredig, nid yw bellach yn cwrdd â safonau priodol ac felly rhaid addasu'r safle er mwyn sicrhau bod preswylwyr yn parhau i ddefnyddio'r safle
- Nid yw'r cwrs golff yn gweithredu mwyach ac felly hyn yn cyfiawnhau ystyriaeth fel tir Llwyd

(c) Cefnogwyd y cais gan yr aelod lleol, (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), a gwnaed y prif bwyntiau canlynol ganddo:-

- Bod y parc carafanau yn barc teuluol ac wedi bodoli ers dros 60 mlynedd
- Nid yw cae 472 bellach yn addas oherwydd materion Iechyd a Diogelwch
- Maint yr estyniad yn cyd fynd â gofynion Iechyd a Diogelwch ac felly dyna'r prif reswm dros symud 10 carafán sefydlog
- O ran gweithredu'r safle, pwysig yw cadw carafanau sefydlog gyda'i gilydd
- Rhan o gae 470 fydd yn cael ei ddefnyddio
- Bydd symud y carafanau yn golygu eu bod yn llai gweledol o'r lôn
- 250 o goed wedi eu plannu i dirlunio'r safle i leihau'r effaith gweledol ac i greu amgylchedd gwell i fywyd gwyllt
- Lliw'r bwriadedig y carafanau dwbl yn gweddu yn well â'r tirwedd
- Doeth fuasai i'r Pwyllgor fod wedi ymweld â chae 472 yn ystod eu hymweliad safle
- Buasai uwchraddio'r safle yn cadw'r budd yn lleol drwy roi hwb i'r economi mewn ardal lle mae diweithdra yn uchel.
- Bwriad yw defnyddio adnoddau lleol ac adeiladwyr lleol

Ategwyd y Cadeirydd bod rhaid rhoi ystyriaeth ddwys a thrylwyr i gynnwys yr adroddiad

(ch) Cynigiwyd gwrthod y cais ac ystyried opsiwn 5.1 (ii) a chofrestru'r bleidlais

*'Gwrthod y cais yn unol â'r argymhelliad gan awgrymu i'r ymgeisydd drafod opsiynau uwchraddio amgen fyddai'n cwrdd â gofynion y polisïau cynllunio perthnasol ac yn cynnwys estyniad bach sydd yn ymgorffori'r safle presennol'*.

(d) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, gwnaed y sylwadau canlynol gan Aelodau unigol a rhoddwyd ymatebion lle'n berthnasol:

- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â threfn dryloyw ar gyfer ceisiadau gan Gynghorwyr ac aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio nododd y Cyfreithiwr mai cais cynllunio oedd gerbron y pwyllgor a bod yn rhaid i'r Pwyllgor wneud penderfyniad ar sail yr ystyriaethau cynllunio perthnasol a'r polisïau cynllunio perthnasol. Nododd fod y cais yn yn codi pryderon sylweddol gan y gwasanaeth cynllunio a bod y pryderon hynny wedi ei hamlygu yn adroddiad cnoi cil ac yn adroddiad llafar yr Uwch Reolwr. Os bydd y cais yn cael ei ganiatáu yn groes i argymhelliad, bydd rhaid cael rhesymau cynllunio priodol a buasai'n anodd iawn cael rhesymau cadarn i gyfiawnhau caniatáu'r cais.

- Rhaid cadw at bolisïau Cenedlaethol a Lleol. Rhesymau priodol digonol ar gyfer gwrthod yma.
- Rhaid ystyried y cais ac nid yr ymgeisydd. Yr adroddiad yn rhoi eglurder llawn a digonol i asesu'r cais.
- Buasai caniatáu yn gosod cynsail i safleoedd carafanau eraill.
  Ymddengys bod y gwasanaeth cynllunio yn gôr bwysleisio maint cae 470. Ail leoli 10 carafán sydd gerbron y Pwyllgor. Mewn ymateb, cadarnhaodd y cyfreithiwr mai 4.96 hectar oedd ardal y cais cynllunio gan bwysleisio mai'r ymgeisydd oedd wedi cyflwyno'r cais a dyna oedd y cais oedd o flaen y Pwyllgor.

- Cynnigwyd opsiwn 5.1 (ii) gan ystyried y gwelliannau sydd eu hangen ar y maes carafanau

  Mewn ymteb i gwestiwn, beth yw ystyr 'opsiynau uwchraddio amgen' sydd wedi ei ymgorffori yn opsiwn 5.1 (ii), mynegodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio bod modd uwchraddio y safle trwy gynllun sydd yn cwrdd a'r polisiau ac amodau Iechyd a Dioglewch, ond y bydd angen i'r ymgeisydd gynnal trafodaethau gyda'r Gwasanaeth cyn cyflwyno cais pellach a gweithredu ar y cyngor a roddir gan y Gwasanaeth.

- O ran gweithredu opsiwn 5.1 (iii) - mynegodd Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio y buasai angen cytundeb 106 er mwyn dileu caniatâd cynllunio a roddwyd yn ddiweddar i ail-leoli ac uwchraddio carafanau sefydlog..
- Mewn ymateb i gwestiwn parthed penderfyniad yn cael ei ystyried gan Ombwdsman oherwydd i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud drwy geisio ennill mantais. Nodwyd fod hyn yn risg oedd wedi ei amlygu yn yr adroddiad cnoi cil a nodwyd hefyd y buasai posib i'r penderfyniad fod yn destun adolygiad barnwrol.

**Yn unol â rheol gweithdrefn 22(6) cofnodwyd y bleidlais ganlynol i wrthod y cais:**

**O blaid y cynnig i wrthod y cais, (11) Y Cynghorwyr: Craig ab Iago, Elwyn Edwards, Gwen Griffith, Anne T. Lloyd Jones, Dyfrig Wynn Jones, June Marshall, Michael Sol Owen, John Pughe Roberts, Eirwyn Williams, Hefin Williams, ac Eurig Wyn.**

**Yn erbyn y cynnig i wrthod, (2) Y Cynghorwyr: Endaf Cooke a Dilwyn Lloyd**

**Atal, (0)**

**Penderfynwyd: Gwrthod yn unol â'r argymhelliad gan awgrymu i'r ymgeisydd drafod opsiynau uwchraddio amgen fyddai'n cwrdd â gofynion y polisïau cynllunio perthnasol ac yn cynnwys estyniad bach sydd yn ymgorffori'r safle presennol'.**

1. **Byddai'r bwriad yn golygu adleoli'r safle carafanau sefydlog yn ei gyfanrwydd i safle mwy amlwg a gweladwy yn y tirlun ac ni ystyrir fod y safle sy'n destun y cais yn estyniad bach i'r safle presennol ac felly ystyrir fod y bwriad yn groes i ofynion Polisi D17 CDUG. Yn ogystal, ac oherwydd maint a pherthynas y bwriad yng nghyd-destun y safle presennol, ystyrir fod y bwriad hefyd yn groes i Bolisi D16 o GDUG**

2. **Ystyrir y byddai'r lleoliad arfaethedig yn fwy gweladwy o ran lleoliad na'r safle carafanau presennol ac yn sgil hyn ni ystyrir y byddai'r bwriad yn sicrhau fod cymeriad yr AHNE yn cael ei warchod, ei gynnal na'i wella ac y byddai'r bwriad felly yn achosi niwed arwyddocaol i dirwedd wledig yr AHNE yn groes i ofynion Polisi B8 CDUG.**

**4. Cais rhif C14/0745/25/HY – Tir, Ffordd Penrhos, Penrhosgarnedd**

Cais rhannol ol weithredol ar gyfer gosod 2 arwydd stac

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi bod disgrifiad y cais wedi ei addasu yn dilyn gwrthwynebiad i ddileu arwydd bwrdd siâp - v a'r polion fflagiau. Eglurwyd bod canllawiau cynllunio yn cyfyngu ystyriaethau cynllunio ar geisiadau arwyddion i ddiogelwch cyhoeddus (e.e. ffyrdd) a mwynderau gweledol. Nid oedd gan yr Uned Drafnidiaeth wrthwynebiad i'r bwriad ar sail diogelwch ffyrdd ac ni ystyriwyd bod y

bwriad yn debygol o achosi effaith andwyol ar ddiogelwch ffyrdd a strydoedd. Ystyriwyd hefyd fod yr arwyddion gan ystyried y lleoliad a'r datblygiad oeddynt yn eu hysbysebu'n dderbyniol o ran effaith gweledol.

Eglurwyd bod y bwriad yn golygu darparu arwydd stac, (yn mesur 3 medr o uchder a 3 medr o led) bob ochr i fynedfa'r safle yn hysbysu datblygiad tai sydd wedi ei ganiatáu ac sydd yn y broses o gael ei ddatblygu. Nodwyd bod yr ymgeisydd yn gofyn am ganiatâd ar gyfer yr arwyddon hyd at 1.8.2019 a bod angen ystyried i gynnwys hyn fel amod.

(b) Gwnaed y prif bwyntiau canlynol gan yr aelod lleol (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn):

- Bod nifer o weithredoedd y cwmni datblygu yn groes i'r arfer ac y dylid monitro eu gweithredoedd gan sicrhau eu bod yn cadw at eu gair.
- Bod angen i'r datblygwyr gyfathrebu yn well gyda'r gymuned
- Derbyn bod y polion fflag wedi ei tynnu i lawr
- Bod un o'r arwyddion yn achosi niwed gweledol i eiddo cyfagos

(c) Cynigiwyd ac eiliwyd i ganiatáu'r cais ynghyd a'r amodau ychwanegol.

(ch) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, gwnaed y sylwadau canlynol;

- Angen sicrhau bod yr arwyddion yn ddwyieithog
- Awgrymu caniatâd am flwyddyn yn unig
- Angen sicrhau bod y cwmni yn glynu at ganllawiau

**Penderfynwyd: Caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i amodau canlynol:**

**1. Cwblhau datblygiad yn unol â'r cynlluniau diwygiedig a gyflwynwyd ar y 14.10.2014**
**2. Rhaid cynnal a chadw hysbysebion a rhaid iddynt fod mewn cyflwr diogel, glân a threfnus i foddhad rhesymol yr Awdurdod Cynllunio Lleol.**
**3. Gosod caniatâd dros dro - tan 01.08.19**

**5. Cais Rhif C14/0885/33/LL – Tyddyn Cae, Boduan , Pwllheli**

Gosod a gweithredu fferm solar (4.9MW) ynghyd ag isadeiledd cysylltiedig yn cynnwys paneli DV, fframiau gosod, gwrthdroydd, trawsnewidiwr, camerâu CCTV ar bolyn, ffensys ac is-orsafoedd

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi bod y bwriad yn golygu gosod paneli solar ar gyfer creu parc solar. Y bwriad gwreiddiol oedd creu 9MW o drydan i'r Grid Cenedlaethol, ond bellach mae'r cais wedi ei leihau mewn maint i 4.9MW o drydan. Nodwyd hefyd bod un llythyr gwrthwynebu ychwanegol wedi ei dderbyn.
Cyfeiriwyd at bolisi C27 o'r Cynllun Datblygu Lleol sydd yn ymwneud a chynlluniau ynni adnewyddadwy a chynaliadwy.

Mae'r safle wedi ei leoli oddi fewn i Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llyn ac Ynys Enlli ac mae Parc a Gardd Hanesyddol Boduan wedi eu lleoli oddeutu 250m i'r gorllewin. Lleoli'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llyn (AHNE) oddeutu 1.5km tua'r gogledd orllewin. Eglurwyd bod coed, gwrychoedd a chloddiau aeddfed i'w cael oddi amgylch ac o fewn y safle ac ni ystyrir y byddai'r bwriad yn cael effaith sylweddol ar yr AHNE. Ymddengys bod y cynllun yn ei gyfanrwydd yn weledol o un lle ac oherwydd bod y bwriad wedi ei leihau yn sylweddol, fei ystyriwyd yn dderbyniol ac yn addas ar gyfer y lleoliad dan sylw.

Nodwyd bod yr adeiladau sydd yn cael eu cynnwys yn rhan o'r cais i'w lleoli gerllaw'r adeiladau fferm bresennol. Amlygwyd bod ambell i adeilad i'w gosod ar y caeau gerllaw'r paneli solar ac awgrymwyd y gellid gosod amod i sicrhau bod yr adeiladau hyn o liw gwyrdd ac o ddeunydd sydd yn adlewyrchu'r adeiladau amaethyddol a welir o gwmpas yr ardal.

Yn ystod cyfnod yr adeiladu nodwyd y bydd cynnydd amlwg mewn llif traffig, ac mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno cynlluniau i ymdrin â hyn. Cyfeiriwyd at sylw yr Uned Drafnidiaeth y dylid gwneud asesiad o gyflwr y ffordd a'r bont sydd ar y ffordd, yn ystod ac ar ddiwedd y gwaith. Tynnwyd sylw at sylw Gwasanaeth Cynllunio Archaeoleg Gwynedd sydd wedi argymell bod angen gwerthusiad pellach cyn penderfynu'r cais - mae'r Gwasanaeth wedi adnabod potensial ar y safle ar gyfer gweddillion archeoleg.

Awgrymwyd y dylid gosod amodau ychwanegol - lleoli'r paneli yn unol â'r cynlluniau, cynllun rheoli llif ac amseroedd traffig gwaith ac yn ddarostyngedig i dderbyn sylwadau ffafriol ar faterion Archeolegol, ystyriwyd fod y datblygiad yn cydymffurfio gyda'r CDU.

(b) Tynnwyd sylw at y sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd.

(c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd asiant yr ymgeisydd y prif bwyntiau isod:

- Bod y cais yn cyfateb i bolisïau Cenedlaethol a Lleol
- Cadarnhawyd mai 4.9MW oedd y bwriad ac nid 9MW fel yn y cais gwreiddiol
- O ganlyniad i leihad sylweddol yn y bwriad, y gosodiad wedi ei adolygu
- Lleihad i'r bwriad yn golygu lleihad i'r nifer o gerbydau fydd yn ymweld â'r safle yn ystod y cyfnod adeiladu
- Nid oes colled i dir amaeth - bydd defaid yn parhau i bori ar y tir
- Bydd y gwerthusiad archaeoleg i'w dderbyn yn fuan
- Bod ymrwymiad gyda'r gymuned wedi bod yn dda - dim ond 5 gwrthwynebiad wedi ei dderbyn
- Buddion da ar gael i'r gymuned

(ch) Gwnaed y prif bwyntiau canlynol gan yr aelod lleol (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn):

- Pryderon am gynnydd sylweddol mewn cerbydau dros gyfnod yr adeiladu
- Waliau cerrig yn nodweddiadol i'r ardal
- Ffyrdd cefn gwlad yn gul a throellog fydd yn anodd i gerbydau mawr eu llywio.
- Cais gan deulu cyfagos i symud rhai o'r paneli fydd yn creu effaith gweledol
- Cais i ystyried mynedfa newydd o ffordd Pwllheli
- Angen cysoni gwybodaeth o ran maint y bwriad. Rhaid sicrhau mai 4.9MW sydd yn cael ei hysbysebu ar y we ac nid 9MW
- Cynnwys amod ychwanegol i sicrhau bod y cwmni yn cadw at 4.9MW yn unol â'r cais sydd yn cael ei gyflwyno.
- Rhaid derbyn gwybodaeth gan y Gwasanaeth Archaeloleg er mwyn sicrhau bod y cais yn gyflawn ac yn unol a pholisi B7
- Cynnig bod y Pwyllgor yn ymweld â'r safle

**PENDERFYNWYD cynnal ymweliad safle.**

**6. Cais Rhif C14/0902/39/LL – 75, Cae Du, Abersoch**

Dymchwel modurdy presennol a chodi modurdy newydd gyda balconi uwchben, estyniad deulawr ochr gogleddol, codi waliau cynnal newydd, addasiadau ac adnewyddu

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi bod gwelliannau sylweddol wedi ei wneud i'r cynllun ers ei gyflwyno. Nodwyd bod caniatâd cynllunio eisoes yn bodoli ar gyfer estyniad deulawr a newid defnydd y modurdy ( yr ymgeisydd gyda hawl i weithredu'r caniatâd yma hyd Medi 2016). Er hynny, nodwyd bod bwriad y cais dan sylw yn fwy addas.

O ran egwyddor y datblygiad, nodwyd yn gyffredinol bod polisïau B22 a B24 o'r Cynllun Datblygu Unedol, yn caniatáu cynigion ar gyfer ymestyn tai presennol, cyn belled eu bod yn cydymffurfio â meini prawf cysylltiol sydd yn anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y tirwedd a'r amgylchedd ynghyd a chymeriad a gwerth mwynderol yr ardal leol. Ni ystyriwyd y byddai'r bwriad yn effeithio ar fwynderau gweledol yr ardal nag ar gymeriad yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llyn (AHNE) a bod dyluniad yr estyniad yn dderbyniol.

(b) Gwrthwynebwyd y cais gan yr aelod lleol (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), a gwnaed y prif bwyntiau canlynol ganddo:-

- Bod yr estyniad yn debygol o amharu ar fwynderau trigolion sydd yn byw yn y byngalos cyfagos
- Pryder o or-ddatblygu yn y stad
- Rhaid ystyried y trigolion sydd yn preswylio yno
- Buddsoddiad yw bwriad yr estyniad

(c) Cynigwyd ac eiliwyd i ganiatáu'r cais.

**Penderfynwyd: Caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i amodau canlynol:**

**1. Cychwyn o fewn 5 mlynedd.**
**2. Unol gyda chynllun diwygiedig.**
**3. Llechi i gydweddu gyda'r rhai ar yr eiddo presennol.**
**4. Cytuno gorffeniad waliau allanol.**
**5. Gwydr afloyw yn y ffenestr pen grisiau ar yr edrychiad gorllewinol.**
**6. Cytuno ar garreg leol naturiol ar gyfer wynebu'r wal gynnal newydd i flaen yr eiddo.**

**7. Cais Rhif C14/1042/11/LL - Tŷ Cegin, Rhodfa Penrhyn, Maesgeirchen, Bangor**

Codi 5 tŷ sy'n cynnwys 2 dy par a 3 th teras a chreu mynedfa gerbydol newydd.

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi bod safle y cais wedi ei leoli o fewn stad eang Maesgeirchen ar ymylon dinas Bangor ond o fewn ffiniau datblygu'r ddinas fel y'i diffinnir yn Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd. Ystyriwyd y safle fel un yn addas ar gyfer ei ddatblygu a'r bwriad ei hun yn dderbyniol o safbwynt diwallu'r angen lleol am dai.

O ran egwyddor y datblygiad, nodwyd yn gyffredinol bod y safle yn ymateb i ofynion polisi C1 (annog datblygu o fewn ffiniau datblygu). O ran polisi B11, ni thybir y buasai'r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol i lecynnau agored gan nad yw'r safle o werth ecolegol nac yn ychwanegu amrywiaeth weledol i drigolion lleol. Nodwyd bod y llecyn agored yn cael ei ddefnyddio yn achlysurol gan ddefnyddwyr Tŷ Cegin ar gyfer

gweithgareddau, ond adnabuwyd llecynnau agored gwyrdd cyfagos y gellid eu defnyddio.

Nodwyd bod bwriad i greu mynediad newydd i'r safle, ac oherwydd hynny bod angen symud crwban tawelu traffig sydd wedi ei leoli ar y briffordd a thu allan i'r safle. Adroddwyd bod yr Uned Drafnidiaeth yn fodlon gyda lleoliad y fynedfa, ond nid gyda lleoliad bwriedig y crwban tawelu traffig. Amlygwyd bod trafodaethau parthed yn fynedfa yn parhau ond ystyriwyd fod y datblygiad yn cydymffurfio gyda'r CDU.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd asiant yr ymgeisydd y prif bwyntiau isod:
- Bod y cais yn ymateb i anghenion tai ym Maesgeirchen (yn benodol i'r angen am dai dwy loft)
- Bod y datblygiad yn creu lleoliad addas o fewn cymuned
- Yr ymgeisydd wedi ymgynghori gyda'r gymuned parthed colli llecyn gwyrdd, ond llecynnau gwyrdd eraill penodol ar gael gerllaw.
- Bod mannau parcio digonol wedi eu cynnwys yn y cynllun
- Bod y cynllun wedi derbyn cefnogaeth Cyngor Dinas Bangor
- O ran cynlluniau gosod, bydd yr ymgeisydd yn cydweithio gyda'r gymuned.

(c) Cynigiwyd ac eiliwyd i ganiatáu'r cais.

**Penderfynwyd: Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i dderbyn cynlluniau pellach gan yr ymgeisydd a chadarnhad gan yr Uned Drafnidiaeth fod y fynedfa newydd yn dderbyniol.**

**Amodau –**

**1. Amser**
**2. Cydymffurfio gyda chynlluniau**
**3. Llechi**
**4. Deunyddiau**
**5. Tirlunio**
**6. Tynnu hawliau datblygiadau a ganiateir**
**7. Priffyrdd**

**8. Cais Rhif C14/1043/11/LL - Ffordd Tan y Bryn, Maesgeirchen, Bangor**

Codi 6 tŷ deulawr newydd ar ffurf dau floc o 3 tŷ teras 2 lofft gyda gerddi a llecynnau parcio cysylltiol.

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi mai dilyniant ydoedd i gais rhif C14/1042/11/LL; yn safle wedi ei leoli oddi mewn i ffiniau datblygu dinas Bangor ac o fewn stad eang Maesgeirchen. Nodwyd bod y safle wedi ei glirio yn weddol ddiweddar o strwythurau a fodolai yno yn flaenorol ac felly'r egwyddor o ail ddatblygu safleoedd addas fel hyn yn cael eu hystyried yn dderbyniol ac yn cydymffurfio a gofynion polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol perthnasol.

Eglurwyd bod y bwriad yn golygu datblygiad cymharol draddodiadol o ran ei ffurf a'i osodiad gyda gerddi i'r blaen a'r cefnau. Nid oes patrwm unffurf i dai o fewn yr ardal gyfagos ac felly ni ystyrir bydd adrawiad ar fwynderau gweledol preswylwyr cyfagos. Ystyriwyd y safle tir llwyd fel un yn addas ar gyfer ei ddatblygu a'r bwriad ei hun yn dderbyniol o safbwynt diwallu'r angen lleol am dai fforddiadwy.

O ran materion trafnidiaeth a mynediad nodwyd bod yr Uned Drafnidiaeth wedi gofyn am gadarnhad i'r hyn a fwriedir ei wneud i ran o Lon y Parc, sef y ffordd sydd yn rhedeg heibio blaen y safle. Mae'r cynllun yn dangos bwriad i wyro rhan o'r ffordd, ond nid oes gwybodaeth ddigonol wedi ei gyflwyno. Ystyriwyd fod y cais yn cydymffurfio gyda'r CDU.

(b) Tynnwyd sylw at y sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd.

(c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd asiant yr ymgeisydd y prif bwyntiau isod:
- Bod y cais yn ymateb i'r angen am dai dwy lofft ym Maesgeirchen
- Mai hen fodurdai oedd yn bodoli ar y safle sydd bellach wedi eu dymchwel gan nad oedd galw amdanynt

(ch) Cynigwyd a eiliwyd i ganiatáu'r cais

(d) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:
- Bod dyraniad y gerddi yn ymddangos yn annheg
- Bod y cynllun yn ymateb i anghenion Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd
- Oes amod 106 ar y tai?

(dd) Mewn ymateb i'r sylwadau , nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio bod
- Angen i CCG ystyried dyraniad y gerddi wrth osod y tai
- Bod y datblygiad o fewn ffin y Cynllun Datblygu Lleol ac yn diwallu anghenion sydd wedi eu hadnabod

**Penderfynwyd: Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i dderbyn manylion pellach gan yr ymgeisydd yn ymwneud gyda'r trefniadau ynglŷn â Lôn y Parc a derbyn cadarnhad gan yr Uned Drafnidiaeth fod y trefniadau yma'n dderbyniol.**

**Amodau -**
1. **Amser**
2. **Cydymffurfio gyda chynlluniau**
3. **Llechi**
4. **Deunyddiau**
5. **Tirlunio**
6. **Tynnu hawliau datblygiadau a ganiateir**
7. **Priffyrdd**

**9. Cais Rhif C4/1065/42/LL – Ty'n y Coed Touring Park, Morfa Nefyn, Pwllheli**

Lleoli 7 llain carafán teithiol newydd ar safle presennol ynghyd ag ymestyn y safle i leoli 14 llain carafán teithiol gyda gwelliannau i'r fynedfa i'r safle, tirlunio a gwaith cysylltiol.

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi bod y cais wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor gan ei fod yn ddatblygiad o 5 carafan neu fwy. Nodwyd nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cynllun wedi ei dderbyn. Tynnwyd sylw at bolisi D20 sydd yn caniatáu cynigion i gynyddu nifer y lleiniau, estyniadau i safleoedd, neu adleoli lleiniau os yw'r cynnig yn sicrhau gwelliannau amgylcheddol a gweledol, a meini prawf eraill sydd yn ymwneud ag effaith y datblygiad ar yr ardal leol. Amlygwyd bod y safle wedi ei dirlunio yn dda ar hyd y ffiniau'r gyda gwrychoedd aeddfed a choed, a byddai'r tirlunio ychwanegol yn arwain at welliannau amgylcheddol fyddai'n cyfannu'n gadarnhaol i osodiad a gwedd yn y tirwedd.

Credir bod y safle hefyd yn addas i dderbyn unedau ychwanegol ac ni ystyriwyd y bydd niwed i fwynderau trigolion cyfagos yn sgil y cais, o gofio bod y safle yn agos i ffordd sirol.

(b) Cynigiwyd ac eiliwyd i ganiatáu'r cais.

(c) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:
- Bod prinder safleoedd teithiol yng Ngwynedd
- Pryder bod y bwriad yn or-ddatblygiad

(ch) Mewn ymateb i'r sylw parthed pryder o or-ddatblygu, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio bod y swyddogion wedi pwyso a mesur hyn gyda'r holl faterion cynllunio perthnasol eraill, ystyriwyd fod y cais yn cydymffurfio gyda'r CDU.

**Penderfynwyd: Caniatáu yn ddarostyngedig i amodau:**

1. **5 mlynedd**
2. **Unol Â'r cynlluniau**
3. **Cyfyngu niferoedd**
4. **Cyfnod gweithredu**
5. **Cyfnod amser / teithiol yn unig**
6. **Gwyliau yn unig,**
7. **Cadw cofrestr**
8. **Tirlunio**
9. **Diogelu llwybrau cyhoeddus**
10. **Dim storio**

**10. Cais Rhif C14/1083/42/LL – Tu Hwnt i'r Ffrwd, Morfa Nefyn, Pwllheli**

Newid defnydd i ffurfio 16 carafán deithiol ychwanegol yn cynnwys ffordd a lleiniau caled.

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi bod y cais yn cael ei gyflwyno i bwyllgor gan ei fod yn ymwneud â datblygiad o 5 carafán neu fwy. Amlygwyd mai ail gyflwyniad oedd y cais o gais a wrthodwyd gan Pwyllgor Cynllunio Hydref 2013 gan y byddai'r estyniad yn sefyll allan fel nodwedd amlwg ac ymwthiol yng nghefn gwlad.

Nodwyd bod y cae dan sylw gyfochrog a chae sydd eisoes wedi derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer 14 uned deithiol. Mae'r blociau toiledau oedd yn rhan o'r cais hwnnw eisoes wedi ei godi, ond nid yw'r defnydd carafanau wedi ei weithredu. Yn ychwanegol mae caniatad cynllunio wedi ei roddi i osod 11 carafán deithiol a lleiniau caled ar gae islaw. Byddai'r 16 carafán sydd yn destun y cais dan sylw yn ychwanegol i'r 25 carafán sydd eisoes wedi ei ganiatáu ar y safle fydd yn gwneud cyfanswm o 41 uned.

Ymddengys bod yr ymgeisydd wedi dechrau gwaith tirweddu ers cyflwyno'r cais. Nid yw hyn wedi cael cyfle i aeddfedu ac mae'r cae yn parhau i fod yn agored a gweladwy yn y tirlun. Dengys bod bwriad i godi cloddiau mewnol i wahanu'r rhesi carafanau ynghyd a gwaith plannu yng nghorneli'r cae. Nodwyd pryder am effaith gweledol y bwriad, sydd yn agos i ddynodiad Ardal Gwarchod y Dirwedd ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llyn (AHNE) ac nid oes argyhoeddiad bod y bwriad yn arwain at welliannau gweledol fyddai'n gwella'r safle ei hun na'r amgylchedd o'i amgylch ac felly nid yw egwyddorion polisi D20 yn cael eu cwrdd.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd asiant yr ymgeisydd y prif bwyntiau isod:

- Bod caniatâd i faes cyffelyb wedi ei ganiatau
- Bod y safle yn sefyll i ffwrdd o'r B4412 ac nid ydyw o fewn ardal 'sensitif'
- Bod yr ymgeisydd wedi dewis dechrau ail ddylunio'r tirwedd gan roi ystyriaeth ofalus i'r planhigion
- Rhaid cyfarch y budd economaidd - yr ymgeisydd eisoes wedi buddsoddi arian i'r safle gan ddefnyddio adeiladwyr ac adnoddu lleol
- Twristiaeth sydd yn gyrru economi Gwynedd ac felly rhaid cyfarch a gwerthfawrogi'r cais

(c) Gwnaed y prif bwyntiau canlynol gan yr aelod lleol (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn):

- Bod yr ymgeisydd wedi ei eni a'i fagu ar y safle
- Bod yr ymgeisydd eisoes wedi derbyn amodau i geisiadau o ran cyfleusterau sydd eu hangen i wasanaethu'r safle, ond nid yw wedi agor y maes carafannau gan ei fod yn cadw at y rheolau
- Yr ymgeisydd wedi adeiladu clawdd dros 6 troedfedd nad yw yn cael ei adlewyrchu yn y sleidiau/cyflwyniad. Y cloddiau, nid wedi eu plannu gyda 'brigau,' ond coed cyll cynhenid gyda hadau wedi eu casglu yn lleol. Coed cyll yn rhywogaeth sydd yn nodwedd leol arbennig i wrychoedd Llyn
- Nid yw'r cae yn weladwy gan ei fod mewn pant
- Cefnogaeth i'r fenter gan fusnesau lleol o wybod daw preswylwyr i'r safle a hwb i'r economi leol
- Yr ymgeisydd yn berchennog maes carafannau cyfrifol iawn

**PENDERFYNWYD cynnal ymweliad safle.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 4.20 pm

______________________________

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR CYNLLUNIO 2/2/15

**Yn bresennol:** **Y Cynghorydd Michael Sol Owen – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones – Is-gadeirydd**

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Sion Wyn Jones (Eilydd), Dilwyn Lloyd (Eilydd), June Marshall, John Pughe Roberts, Eirwyn Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, Owain Williams ac Eurig Wyn.

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cynghorwyr Anwen Davies, Simon Glyn a R. H. Wyn Williams (Aelodau lleol).

**Hefyd yn bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio), Cara Owen (Rheolwr Rheolaeth Datblygu), Keira Ann Sweenie (Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr), Gareth Roberts (Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu Trafnidiaeth) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Endaf Cooke, Elwyn Edwards, Gwen Griffith, Dyfrig Wynn Jones, W. Tudor Owen a'r Cynghorydd Liz Saville Roberts (Aelod Lleol).

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

(a) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir:

- Y Cynghorydd Gruffydd Williams, yn eitem 5 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C14/0885/33/LL) gan ei fod yn ffrind pennaf hefo chwaer yr ymgeisydd; (cais cynllunio rhif C14/1083/42/LL) oherwydd bod ei dad yn berchen parc carafanau wedi ei leoli llai na chwe milltir o'r safle;
- Y Cynghorydd Owain Williams, yn eitem 5 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C14/1083/42/LL) oherwydd ei fod yn berchennog parc carafanau wedi ei leoli llai na chwe milltir o'r safle.

Roedd yr Aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau a oedd yn rhagfarnu a gadawsant y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y ceisiadau a nodir.

(b) Datganodd yr aelodau canlynol eu bod yn aelodau lleol mewn perthynas â'r eitemau a nodir:

- Y Cynghorydd Michael Sol Owen, (oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C14/0769/45/LL);
- Y Cynghorydd Anwen Davies, (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C14/0885/33/LL);
- Y Cynghorydd Simon Glyn, (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C14/1083/42/LL);
- Y Cynghorydd R. H. Wyn Williams, (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C14/1164/39/LL).

Ymneilltuodd yr Aelodau i ochr arall y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y ceisiadau dan sylw ac ni fu iddynt bleidleisio ar y materion hynny.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2015, fel rhai cywir.

**3. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol i ddatblygu.

Ymhelaethwyd ar fanylion y ceisiadau ac ymatebwyd i gwestiynau mewn perthynas â'r cynlluniau ac agweddau o'r polisïau.

**PENDERFYNWYD**

**1. Cais rhif C14/1083/42/LL – Tu Hwnt i'r Ffrwd, Morfa Nefyn**

Newid defnydd i ffurfio 16 carafán deithiol ychwanegol yn cynnwys ffordd a lleiniau caled.

'Roedd aelodau'r Pwyllgor wedi ymweld â'r safle cyn y cyfarfod.

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 12 Ionawr 2015 y penderfynwyd gohirio'r cais er mwyn cynnal ymweliad safle.

Ystyrir byddai'r estyniad arfaethedig i'r safle carafanau, oherwydd ei leoliad, graddfa, gosodiad a gwedd yn y dirwedd, yn sefyll fel nodwedd amlwg ac ymwthiol o fewn cefn gwlad agored gan effeithio'n niweidiol ar y dirwedd a mwynderau gweledol yr ardal. Nodwyd y cwestiynir os oedd gwir gyfiawnhad i ymestyn y safle o ystyried nad oedd y caniatadau blaenorol wedi eu gweithredu eto. Ychwanegwyd bod y bwriad yn groes i bolisi D20 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (CDUG) a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Llety Gwyliau.

(b) Tynnwyd sylw at y sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd.

(c) Cefnogwyd y cais gan yr aelod lleol (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), a gwnaed y prif bwyntiau canlynol ganddo:-

- Byddai'r datblygiad o fantais i'r economi;
- Nad oedd yr ymgeisydd wedi gweithredu ar y caniatadau blaenorol gan ei fod yn bwriadu agor y safle carafanau ar 1 Mawrth 2015 pan fo'r holl waith wedi ei gwblhau;
- Fel a welwyd ar yr ymweliad safle, bod yr ymgeisydd wedi adeiladu clawdd dros 6 troedfedd gyda choed cyll wedi eu plannu ar y clawdd gyda bwlch o tua 5 medr rhyngddynt;
- Bod y cae o dan sylw yn bellach o'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol na'r ddau gae lle derbyniodd yr ymgeisydd ganiatâd yn flaenorol;
- Nad oedd materion diogelwch cerddwyr gan fod llwybr cyhoeddus at Dafarn Bryn Cynan a bod gwaith o ledu'r fynedfa yn ymyl y ffordd eisoes wedi cymryd lle;
- Ei fod eisiau cylchredeg cynlluniau/lluniau ond nad oedd wedi derbyn hawl;
- Gofyn i'r aelodau gefnogi'r cais.

(ch) Mewn ymateb i sylwadau'r aelod lleol, nododd y Swyddogion:-

- Na chaniateir cylchredeg lluniau heb fod y swyddogion wedi eu gweld ymlaen llaw er tegwch i bawb;
- Bod y caniatadau a dderbyniwyd ar gyfer lleoli 25 carafán deithiol ar y safle eisoes wedi eu gweithredu ond nad oedd y defnydd fel safle carafanau wedi cychwyn;
- Y gwrthodwyd cais tebyg gan yr ymgeisydd ac nid oedd y cais wedi newid digon i gyfiawnhau caniatáu'r cais;
- Mai'r brif ystyriaeth oedd effaith gweledol y datblygiad a chredir y byddai effaith gweledol negyddol ar y dirwedd os caniateir y cais.

(d) Cynigwyd ac eiliwyd i ganiatáu'r cais yn groes i argymhelliad y swyddogion.

Nodwyd y sylwadau canlynol o blaid caniatáu'r cais:

- Y byddai'r datblygiad yn hwb i'r economi;
- Ansawdd uchel o waith wedi ei gwblhau ar y safle eisoes;
- Bod y coed ar y clawdd yn tyfu ac y byddent yn sgrinio'r datblygiad yn ddigonol.

(dd) Nodwyd y sylwadau canlynol yn erbyn caniatáu'r cais:

- Mai mater o farn oedd gweledigaeth y safle yn y dirwedd ond wrth edrych ar y sleidiau gwelir bod y safle yn weledol ac y byddai effaith negyddol;
- Bod y cais yn gynamserol gan fod angen i'r coed aeddfedu er mwyn sgrinio'r datblygiad;
- Y dylid ystyried y cais eto pan fo'r carafanau a dderbyniwyd caniatadau amdanynt yn flaenorol yn eu lle;
- Yn unol â pholisi D20 o'r CDUG bod angen i'r bwriad ffurfio rhan o gynllun i sicrhau gwelliannau gweledol ac nad oedd y bwriad yn cydymffurfio gan fod y safle mewn lleoliad agored gyda thiroedd uwch o amgylch.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Amodau:
1. 5 mlynedd
2. Unol a'r cynlluniau
3. Cyfyngu'r niferoedd
4. Cyfnod aros
5. Teithiol ar daith
6. Dim storio
7. Cadw cofrestr
8. Tirlunio
9. Cynnal a chadw'r tirlunio

**2. Cais rhif C11/1074/24/LL – Brithdir, Rhosgadfan, Caernarfon**

Codi clawdd, lefelu tir a'i hadu, sied amaethyddol, man caled i barcio cerbydau a chadw sied (cais rhannol ôl-weithredol).

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi bod y sied amaethyddol bwriedig ar sail ei ddefnydd, ei leoliad, ei faint a'i raddfa yn un y gellir ei ystyried i fod yn rhesymol angenrheidiol ar gyfer diwallu anghenion amaethyddol daliad o'r maint hwn. Nodwyd er mwyn osgoi amheuaeth ynglŷn â defnydd y sied arfaethedig ystyrir y byddai'n rhesymol sicrhau gosod amod i gyfyngu defnydd y sied ar gyfer defnydd amaethyddol yn unig.

Roedd y datblygiad yn cydymffurfio gyda'r CDUG am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd gwrthwynebydd y prif bwyntiau canlynol:-

- Ei fod yn cwestiynu os oedd yr adeilad ar gyfer defnydd amaethyddol o ystyried ei ddyluniad a'i wneuthuriad;
- Ei fod yn cwestiynu os oedd dyluniad y sied storio boncyffion o ddyluniad addas ar gyfer y fath bwrpas gan nad oedd wedi ei awyru;
- Ei fod yn credu y byddai'r ymgeisydd yn symud ei fusnes presennol i'r safle yma yn anghyfreithlon;
- A yw'r ymgeisydd yn ffermwr cofrestredig?
- Pryder o ran y sŵn fydd yn deillio o'r datblygiad a'r nifer o geir a gedwir ar y safle.

(c) Cynigwyd ac eiliwyd i ganiatáu'r cais.

Mewn ymateb i sylwadau gan aelod parthed defnydd y sied, nododd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu bod y sied wedi ei ddylunio ar gyfer defnydd amaethyddol ac nad oedd tystiolaeth i'r gwrthwyneb o ran ei ddefnydd. Ychwanegodd os caniateir y cais, y gosodir amod defnydd amaethyddol yn unig er mwyn rheoli'r defnydd ac os ceir tystiolaeth o dorri'r amod y byddai'r mater yn cael ei gyfarch gan ymchwiliad gorfodaeth.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Amodau:
1. Yn unol â'r cynlluniau diwygiedig
2. Cyfyngu defnydd y sied i ddefnydd amaethyddol
3. Lliw gwyrdd tywyll i'r cladin
4. Cwblhau'r clawdd
5. Cyfyngu defnydd mannau agored gyferbyn a'r sied
6. Tirweddu
7. Amod cyflwyno sampl o'r cladin tyllog i'w gytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol

**3. Cais rhif C14/0753/03/LL – Gwilan, Ffordd Manod, Blaenau Ffestiniog**

Cais llawn i godi dau annedd unllawr ar wahân.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais am ganiatâd, gan nodi yn dilyn ymgynghori gyda Swyddog Priffyrdd y Cyngor ynglŷn â'r bwriad yr ystyrir bod y ffordd ddi-ddosbarth bresennol yn dderbyniol ar gyfer ymdopi gyda chynnydd bach mewn dwysedd ceir a fyddai'n debygol os caniateir y cais.

Roedd y datblygiad yn cydymffurfio gyda'r CDUG am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad.

(b) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y cwestiynau canlynol:

- Oes modd gosod amod trwsio'r lôn ar ôl cwblhau'r gwaith?
- A fyddai'n bosib lleihau'r troad ar y ffordd fynedfa i'r tai?
- Oedd yr angen am dai yn yr ardal wedi ei brofi ac a fyddai'n rhesymol gosod amod 106 Tai Fforddiadwy?
- A yw'r fynedfa i'r safle yn addas i loriau cludo deunydd adeiladu yn ystod y cyfnod adeiladu a lorïau casglu gwastraff pan fo'r datblygiad wedi ei gwblhau?

(c) Mewn ymateb i'r cwestiynau uchod, nododd y swyddogion -
- Bod modd trafod efo'r ymgeisydd ar gyflwr y lôn ond y byddai hyn yn digwydd tu allan i'r gyfundrefn cynllunio o dan ddeddfwriaeth priffyrdd;
- Bod y wal ar y troad ym mherchnogaeth rhywun arall;
- Oherwydd topograffi'r ardal bod prinder safleoedd datblygu;
- Gan fod y safle wedi ei leoli mewn canolfan trefol byddai angen i'r cynllun fod am 5 neu fwy o dai er mwyn gosod amod fforddiadwy a bod angen cysidro'r farchnad dai yn yr ardal;
- Bod y fynedfa yn addas i loriau ac mai mater i'r ymgeisydd oedd cludo nwyddau adeiladu i'r safle;
- Bod trefniadau casglu gwastraff i'r tai cyfagos yn weithredol eisoes.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Amodau:

1. 5 mlynedd
2. deunyddiau ag edrychiad allanol
3. amodau priffyrdd (mynediad a pharcio)
4. tirweddu
5. tynnu hawliau datblygu a ganiateir
6. amod cyfyngu amser danfoniad i'r safle
7. cydymffurfio gyda'r cynlluniau

Nodiadau Priffyrdd
Cyngor safonol Dwr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru

**4. Cais rhif C14/0769/45/LL – Cyn safle L S Carpets Ltd, Maes yr Orsaf, Pwllheli**

Cadeiriwyd y drafodaeth ar y cais hwn gan yr Is-gadeirydd.

Newid defnydd adeilad o ddefnydd A1 manwerthu i ddefnydd cymysg o fwyty, bar lolfa a bar dawnsio.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi bod y safle o fewn ffin datblygu Pwllheli ac yn ffurfio rhan o ardal Cei'r Gogledd a ddynodir yn y CDUG fel safle ar gyfer ei ail-ddatblygu.

Nodwyd yn dilyn derbyn pryderon yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus o ran lefelau sŵn ac ymgynghori gyda'r uned Iechyd yr Amgylchedd argymhellir gosod amodau rheoli sŵn caeth. Adroddwyd fel cam ychwanegol, argymhellir gosod amod i reoli amser defnyddio'r teras i hyd at 11 yr hwyr er mwyn cadw'r defnydd a sŵn posib tu fewn i'r adeilad yn ystod oriau anghymdeithasol.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd asiant yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol:-
- Ei fod yn ddatblygiad cyffrous a oedd yn ddelfrydol i'r safle;
- Y cwblheir y datblygiad i safon uchel;
- Byddai'r datblygiad yn hwb i'r dref a'r economi leol gyda 20 swydd yn cael ei greu;
- Bod y datblygwr yn buddsoddi'n sylweddol i sicrhau bod y datblygiad yn cydymffurfio â'r amodau sŵn caeth;
- Cyngor Tref yn gefnogol i'r datblygiad.

(c) Gwnaed y prif bwyntiau canlynol gan yr aelod lleol (oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn):
- Bod y Cyngor Tref gyda mwyafrif pleidlais yn argymell caniatáu'r cais;
- Bod y datblygwr am fuddsoddi 1 miliwn i'r fenter yn y flwyddyn gyntaf ynghyd a chreu 20 o swyddi wedi eu targedu at bobl leol;
- Byddai'r bwriad yn cyflwyno atyniad newydd i'r dref a fyddai o fudd i'r sector dwristiaeth a hamdden;
- Y byddai'r amodau caeth a argymhellir yng nghyswllt sŵn a defnydd o'r teras yn ymateb i'r pryderon cysylltiedig â lefelau sŵn;
- Bod adroddiad y swyddogion yn drylwyr ac yn argymell gosod amodau priodol felly dylid caniatáu'r cais.

Cynigwyd a eiliwyd i ganiatáu'r cais.

(ch) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:

- Bod wir angen datblygiad ar y safle a fyddai'n codi ansawdd;
- Ei fod yn bwysig bod arwyddion a deunydd yn y datblygiad yn gwbl ddwyieithog ac os yn briodol dylid gosod amod i'r perwyl hyn;

- Y dylid nodi cefnogaeth y Cyngor Tref i'r datblygiad;
- Oedd yr 20 swydd a oedd yn deillio o'r datblygiad yn llawn amser neu ran amser?
- Y dylid ystyried codi uchder y rheiliau wrth yr Harbwr;
- Y dylai'r ymgeisydd ystyried rhoi cyfyngiadau sŵn pan fo pobl yn bwyta er mwyn sicrhau bod yr awyrgylch yn briodol;
- Yn gefnogol i'r datblygiad ac y gobeithir y bydd yn llwyddiant.

(d) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd y swyddogion -
- Nad oedd yn bosib gosod amod dwyieithrwydd ond gellir rhoi arweiniad i'r datblygwr;
- Nad oedd gwybodaeth o ran y swyddi i law ond y byddai budd economaidd yn deillio o'r swyddi.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Amodau:
1. 5 mlynedd
2. Unol â'r cynlluniau diwygiedig
3. Gorffeniad i'w gytuno
4. Amod lefelau sŵn
5. Cwblhau asesiad monitor sŵn cyn defnyddio'r adeilad.
6. Gosod dyfais rheoli sŵn yn y system sŵn cyn defnyddio'r adeilad
7. Cyfyngu oriau defnyddio'r teras i fyny at 11pm yr hwyr
8. Amodau Dŵr Cymru

**5. Cais rhif C14/0885/33/LL – Tyddyn Cae, Boduan**

Gosod a gweithredu fferm solar (4.9MW) ynghyd ag isadeiledd cysylltiedig yn cynnwys paneli DV, fframiau gosod, gwrthdroydd, trawsnewidiwr, camerâu CCTV ar bolyn, ffensys ac is-orsafoedd.

'Roedd aelodau'r Pwyllgor wedi ymweld â'r safle cyn y cyfarfod.

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 12 Ionawr 2015 y penderfynwyd gohirio'r cais er mwyn cynnal ymweliad safle.

Cyfeiriwyd at bolisi C27 o'r CDUG a oedd yn nodi y gellir caniatáu cynigion am gynlluniau ynni adnewyddadwy a rheoli ynni cyn belled ag y gellir cydymffurfio a chyfres o feini prawf yn ymwneud ag effaith ar ansawdd gweledol y dirwedd a ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol. Nodwyd bod y bwriad yn cydymffurfio gyda holl ofynion y polisi.

Tynnwyd sylw at y sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd gan nodi bod Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd wedi cadarnhau bod angen cynnwys amod archeolegol os caniateir y cais a sylwadau'r Uned AHNE na fyddai'r datblygiad yn effeithio'n arwyddocaol ar Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn (AHNE).

Roedd y datblygiad yn cydymffurfio gyda'r CDUG am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad.

(b) Gwnaed y prif bwyntiau canlynol gan yr aelod lleol (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn):-
- Bod y ffordd tuag at safle'r cais yn anaddas;
- Y dylid gohirio penderfyniad ar geisiadau o'r math yma hyd nes bod Cyngor Gwynedd yn asesu os gellir defnyddio asedau ac adnoddau'r cyngor ar gyfer y math yma o ddatblygiad er budd lleol;

- Bod y Cyngor Cymuned yn cefnogi'r bwriad ond yn holi os oedd angen cynyddu'r strwythur trydanol;
- Cais gan deulu cyfagos i ail-leoli 3 rhes o baneli a oedd ger eu tŷ er mwyn lleihau'r effaith gweledol;
- Nad oedd wedi cael dangos ar yr ymweliad safle yr edrychiad o'r annedd a enwir 'Y Felin':
- Y dylid ystyried cyfyngu'r tripiau lori yn nol ac ymlaen yn ystod y cyfnod adeiladu i 2 drip y dydd;
- Bod angen i'r Uned Drafnidiaeth gadw golwg ar gyflwr y bont a'r efail.

(c) Nododd yr Uwch Gyfreithiwr y dylai'r pwyllgor ddiystyru sylw'r aelod lleol y dylai'r Cyngor asesu os gellir defnyddio asedau ac adnoddau'r cyngor ar gyfer y math yma o ddatblygiad er budd lleol cyn caniatáu ceisiadau o'r math yma gan nad oedd yn berthnasol a'i fod yn fater i'r aelodau i'w godi yn y lle priodol.

Mewn ymateb i sylwadau'r aelod lleol, nododd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu -

- Y dangoswyd yr olygfa o'r Felin i'r aelodau o'r ffordd wrth adael y safle;
- Bod yr asiant wedi cydweithio efo'r swyddogion o ran lleoliad y paneli solar a newidiwyd y cynllun cychwynnol. Ystyrir bod lleoliad y paneli solar yn dderbyniol fel ag y maent gan fod yr anedd yn wynebu'r ffordd arall;
- Byddai cyfyngu'r nifer o dripiau lori yn ystod y cyfnod adeiladu ymhellach yn golygu y byddai'r cyfnod adeiladu yn cynyddu ac yr ystyrir y byddai hyn yn creu mwy o aflonyddwch i drigolion cyfagos;
- Y byddai cytundeb traffig arbennig rhwng yr Uned Drafnidiaeth a'r ymgeisydd lle gwneir asesiad o gyflwr y ffordd a'r bont yn ystod ac ar ddiwedd y gwaith adeiladu gyda'r ymgeisydd yn ariannu unrhyw waith atgyweirio.

Cynigwyd a eiliwyd i ganiatáu'r cais.

(c) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:

- Y dylid ystyried lleihau'r nifer dyddiol o dripiau lori;
- Bod angen sicrhau budd cymunedol o ganlyniad i ddatblygiadau o'r math yma;
- Cyfrifoldeb pwy yw dad-gomisiynu'r safle?
- Bod y bwriad wedi ei leihau ond teimlad ei fod yn or-ddatblygiad;
- Y dylid gofyn i'r ymgeisydd ystyried ail-leoli'r 3 rhes o baneli solar yn unol â sylw'r aelod lleol;
- Bod y safle'n guddiedig;
- Cefnogol i'r bwriad gan y dylid defnyddio mwy o'n hadnoddau naturiol;
- Bod y bwriad yn cyd-fynd a'r polisïau.

(ch) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio:-

- Bod unrhyw ddatblygiad yn creu aflonyddwch ond bod cwblhau datblygiad oddi mewn cyfnod penodol a gosod amodau priodol yn lliniaru'r effaith;
- O ran budd cymunedol, ei fod yn ystyriaeth tu allan i'r gyfundrefn cynllunio ac yr awgrymir bod y Cyngor Cymuned yn trafod y mater efo'r cwmni;
- Cyfrifoldeb yr ymgeisydd oedd adfer y safle ar ddiwedd y cyfnod;
- Y gellir gofyn i'r ymgeisydd ystyried ail-leoli'r 3 rhes o baneli solar ond ni ellir mynnu.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais gan ofyn i'r ymgeisydd ystyried ail-leoli'r 3 rhes o baneli solar ger eiddo 'Y Felin'.**

Amodau:

1. 5 mlynedd
2. Cwblhau'r datblygiad yn unol â'r cynlluniau diwygiedig

3. Rhaid lleoli'r paneli yn y lleoliadau a ddangosir ar y cynlluniau diwygiedig
4. Cytuno deunyddiau allanol yr holl adeiladau
5. Cytuno deunyddiau/lliwiau'r fframiau a'r gorchudd di-llachared
6. Cytuno ar leoliad a lliw'r polion camerâu
7. Ymgymryd â'r gwaith yn unol gyda'r cynllun tirlunio
8. Cwblhau'r datblygiad yn unol â chamau lliniaru'r adroddiad ecolegol
9. Cwblhau/gweithredu'r datblygiad yn unol â'r mesuriadau yn y cynllun rheoli tirwedd a bioamrywiaeth
10. Amodau priffyrdd
11. Cynllun rheoli llif ac amseroedd traffig gwaith
12. Amodau archeolegol
13. Dylid gosod unrhyw geblau trydan o'r datblygiad i'r cysylltiad trydanol o dan ddaear ac fel y'i cytunir yn gyntaf gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol
14. O fewn 12 mis i'r paneli solar a ganiateir drwy hyn beidio cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu trydan, rhaid eu tynnu'n barhaol oddi ar y tir ac adfer y safle yn ôl i'w gyflwr gwreiddiol
15. Cyflwyno manylion system rheoli dŵr wyneb
16. Dim adeilad, strwythur na chodi lefel tir o fewn 7 medr i ben glan unrhyw gwrs dŵr
17. Cytuno system goleuo'r safle

**6. Cais rhif C14/1164/39/LL - 94 Ystâd Cae Du, Abersoch**

Estyniad cefn ar lefel llawr cyntaf gyda grisiau i'r lefel is ynghyd a chadw ffenestr gromen cefn.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi y lleolir yr eiddo o fewn rhes o dai teras ar allt yng nghanol ystâd Cae Du o fewn ffin datblygu Abersoch a'r AHNE.

Nodwyd tra na ellir esgusodi'r ffaith bod gwaith o godi'r ffenestr wedi cymryd lle cyn penderfynu'r cais, ystyrir fod yr hyn a adeiladwyd yn dderbyniol ac yn parchu a chydweddu gyda'r adeilad.

Roedd y datblygiad yn cydymffurfio gyda'r CDUG am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad.

(b) Gwrthwynebwyd y cais gan yr aelod lleol (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), a gwnaed y prif bwyntiau canlynol ganddo:-

- Bod cymeriad ystâd Cae Du yn newid gydag estyniadau yn fwyfwy;
- Bod y Cyngor Cymuned o'r farn ei fod yn or-ddatblygiad o'r safle;
- Nad oedd gwrthwynebwyr yn bresennol yn y cyfarfod gan fod y gwaith bron a'i gwblhau cyn penderfynu;
- Ei bryder y byddai caniatáu'r cais yn gosod cynsail o ran ffenestr gromen ar y stad;
- Bod angen ystyried bob cais ar ei haeddiant ond bod angen hefyd edrych ar y safle a'r ardal.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Amodau:
1. Estyniad a'r ffenestr gromen yn unol â'r cynlluniau
2. Gorffeniad i gydweddu â'r eiddo presennol

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 3.45pm.

____________________________

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 8/12/14

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr, Annwen Hughes, Llywarch Bowen Jones, Dilwyn Lloyd, W.Tudor Owen, Peter Read, Angela Russell, Ann Williams, Elfed W Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Siôn Huws (Uwch Gyfreithiwr), Gwenan Mai Williams (Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu), Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

## 1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i'r Pwyllgor gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Eryl Jones Williams, Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Huw Edwards a Louise Hughes. Nodwyd bod y Cynghorydd Huw Edwards yn wael iawn a bod aelodau'r Pwyllgor yn anfon eu dymuniadau gorau ato am wellhad buan.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

**Teledu Cylch Cyfyng (TCC)**
Cyfeiriwyd at ddigwyddiad yn Abermaw lle bu i'r Heddlu adrodd wrth y Cynghorwyr Eryl Jones Williams ac Annwen Hughes nad oedd TCC yn gweithio neu wedi ei ddiffodd i ffwrdd mewn rhai safleoedd. Adroddodd Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu ei bod wedi trafod y mater gydag Mr Ian Williams o'r Heddlu ac ymddengys bod problemau gydag offer ddim yn gweithio neu fod staff ddim yn ymwybodol o sut i lawr lwytho / casglu gwybodaeth.

Cyfeiriwyd at yr amodau TCC sydd yn cael eu cynnwys ar nifer o geisiadau trwyddedu. Rhaid ystyried yr angen i fonitro a chosbi os nad yw'r amod yn cael ei weithredu. Eglurwyd bod angen i eiriad yr amod fod yn gynhwysfawr er mwyn cosbi.

Atgoffwyd yr aelodau hefyd os yw amod yn cael ei thorri, bod gan y Cynghorwyr neu'r Heddlu hefyd yr hawl i wneud cais am adolygiad o'r drwydded.

**PENDERFYNWYD cynnwys y mater fel eitem ar y Pwyllgor nesaf (9.3.15) a gwahodd Mr Ian Williams o'r Heddlu i fynychu gan mai yr Heddlu sydd fel arfer yn cyflwyno amodau TCC.**

## 4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 15 Medi 2014, fel rhai cywir yn ddarostyngedig ar;

i. Cywiro enw'r Cadeirydd - Eryl Jones Williams ac nid Eryl Lloyd Williams yn eitem 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

## 5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfodydd o’r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar 3.9.2014 a 25.9.2014.

Gofynnwyd cwestiwn i’r Cyfreithiwr os oedd gan aelod yr hawl i gynrychioli ymgeisydd mewn gwrandawiad os oes gan yr aelod hwnnw fudd personol. Os bydd gan yr aelod fudd personol a ddylai fod yn aelod o’r Pwyllgorau Trwyddedu?

Mewn ymateb, nodwyd mai cyfrifoldebau'r pleidiau Gwleidyddol yw penodi unigolyn ar bwyllgor - sedd i’r grŵp sydd yn cael ei gynnig.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:40a.m a daeth i ben am 10:55am

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 8/12/14

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr, Annwen Hughes, Llywarch Bowen Jones, Dilwyn Lloyd, W.Tudor Owen, Peter Read, Angela Russell, Ann Williams, Elfed W Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Siôn Huws (Uwch Gyfreithiwr), Gwenan Mai Williams (Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu), Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**1. ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Eryl Jones Williams yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod yma yn unig.

**2. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd pawb i'r Pwyllgor gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Eryl Jones Williams, Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Huw Edwards a Louise Hughes. Nodwyd bod y Cynghorydd Huw Edwards yn wael iawn a bod aelodau'r Pwyllgor yn anfon eu dymuniadau gorau ato am wellhad buan.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**5. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 15 Medi 2014, fel rhai cywir.

**6. COFNODION IS –BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

31.7.2014

Derbyniwyd cofnodion yr is-bwyllgor fel gwybodaeth.

**7. CYWIRO GEIRIAD POLISI TRWYDDEDU CERBYDAU HACNI A HURIO PREIFAT**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio yn datgan bod angen gwneud cywiriad i gymal 3, rhan C tudalen 4 o'r Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat. Ers cymeradwyo'r polisi ar y 15.9.2014, daeth i'r amlwg bod y geiriau 'newid cerbyd' yn ymddangos yn y cymal. Atodwyd copi o'r polisi diwygiedig gyda'r cyfeiriad at 'newid cerbyd' wedi ei ddileu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL GYMERADWYO'R GWIRIAD I EIRIAD POLISI TRWYDDEDU CERBYDAU HACNI A HURIO PREIFAT.**

**8. ADRODDIAD FFIOEDD A THALIADAU ARFAETHEDIG 2014/15 – ADRAN GWARCHOD Y CYHOEDD**

Cyflwynwyd at sylw'r aelodau dabl o ffioedd a thaliadau arfaethedig 2014/15 - Adran Gwarchod y Cyhoedd i'w cymeradwyo yn swyddogol cyn bydd modd eu cyflwyno i'r cyhoedd. Nodwyd lle mae deddfwriaeth yn caniatáu disgresiwn lleol o safbwynt gosod lefel ffioedd, mae asesiad yn cael ei wneud yn flynyddol o gostau'r gwasanaethau hyn.

Argymhellir codi ffioedd 2014/15, lle mae disgresiwn i wneud hynny, o 2.5% i gyd-fynd a lefel chwyddiant yn unig a symud at adennill costau gwasanaethau perthnasol. Ategwyd y bydd posib i elfennau rhai ffioedd gael eu hadolygu.

Mewn ymateb i gwestiwn am yr angen i godi ffi am eiddo a codi ffi a'r yr un sydd yn darparu gwasanaeth tatw, pigo croen, electrolysis ac aciwbigo, nodwyd bod hyn i sicrhau cysondeb a safon o fewn y gwasanaeth gan fod llawer o drosiant mewn staff mewn rhai busnesau. Drwy osod ffi, mae hyn yn sicrhau hylendid offer ac eiddo ac addasrwydd y person sydd yn cynnig y gwasanaeth. Elfen bwysig i sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu gwarchod.

Yn ychwanegol, holiwyd y swyddog trwyddedu ar y gwaith sydd yn cael ei wneud o dargedu pobl sydd yn gweithredu gwasanaeth tatw pigo croen, electrolysis ac aciwbigo yn eu cartrefi. O ran gwasanaeth tatw, eglurwyd fod gweithredu busnes o'r fath o eiddo domestig yn anghyfreithlon ac mai'r Uwch Weithredwr Iechyd a Diogelwch sydd yn gorfodi fel rheol(HSE) er bod gan swyddogion y Cyngor bwerau a all gael eu defnyddio mewn perthynas â atal ymdaeniad afiechydon heintus.
Ategwyd bod cynllun rhannu gwybodaeth gyda'r cyhoedd drwy ddatganiadau i'r wasg, wedi ei weithredu i dynnu sylw at y risg o gael gwaith wedi ei wneud mewn cartref.

Mynegwyd pryder ymysg yr aelodau bod adran Gwarchod y Cyhoedd yn wynebu toriadau i'w gwasanaeth er bod ffioedd trwyddedu yn cael eu cynyddu i adennill costau i'r gwasanaeth. O ganlyniad, bydd swyddogion yn cymryd cyfrifoldebau ychwanegol a'r gwasanaeth yn ymddangos yn adweithiol yn hytrach na rhagweithiol.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ffioedd a gynigir gan Bennaeth yr Adran Rheoleiddio**

Materion ychwanegol:

a) Yn dilyn newidiadau o fewn strwythur gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd lle bydd nifer y rheolwyr yn lleihau o saith i bump, adroddwyd y byddai Gwenan Mai Williams yn dychwelyd i faes Amgylchedd ac y bydd Sheryl Le Bon Jones yn derbyn cyfrifoldebau dros y gwasanaeth trwyddedu. Diolchwyd i Gwenan Mai Williams am ei gwasanaeth a'i chefnogaeth i'r Pwyllgorau Trwyddedu a dymunwyd pob dymuniad da iddi yn ei swydd newydd. Diolchwyd hefyd i Ceridwen Pritchard, sydd newydd ymddeol fel Swyddog Trwyddedu am ei gwaith a'i chefnogaeth dros y blynyddoedd i'r gwasanaeth. Nodwyd mai Eirlys Jones fydd yn cymryd cyfrifoldebau Ceridwen Pritchard.

   Gwnaed cais am gopi o'r strwythur newydd fel bod aelodau yn derbyn gwybodaeth gyfredol o'r newidiadau.

b) Newidiadau i drefniadau ceisiadau tacsi yn erbyn y polisi. Gwnaed awgrymiad bod y Cynghorydd Peter Read yn cefnogi'r Cynghorwyr Eryl Jones Williams a Tudor Owen gyda' r newidiadau ac i'w gynnwys ar y panel penderfyniadau. Derbyniwyd bod angen adolygu'r polisi yn fuan a bod angen i'r Llywodraeth weithredu ar benderfyniadau ar fyrder.

   Derbyniwyd y cynnig. Y Cynghorydd Peter Read i gysylltu gyda'r Rheolwr Trwyddedu.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00a.m. a daeth i ben am 10:40am

______________________________

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 9/12/14

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Lesley Day (Cadeirydd).
Y Cynghorydd Tom Ellis (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Anwen Davies Jean Forsyth, Selwyn Griffiths, Siân Gwenllïan, Annwen Hughes, Jason Humphreys, Sïon Jones, Michael Sol Owen, Mandy Williams-Davies.

**Hefyd yn bresennol**: Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Gofal Cwsmer); Cynghorydd Annwen Daniels (yn cysgodi)

**Swyddogion:** Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella / Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Huw Ynyr (Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Carey Cartwright (Rheolwr Dysgu a Datblygu) a Cara Williams (Cydlynydd Hyfforddiant Aelodau) ar gyfer eitem 8 yn unig

**1. CROESO AC YMMDIHEURIADAU**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Lesley Day gyda chroeso arbennig i'r Cynghorydd Siân Gwenllïan i'w chyfarfod cyntaf a'r Cynghorydd Annwen Daniels, aelod newydd o'r Cyngor oedd yn cysgodi. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorwyr, Gweno Glyn, Dilwyn Morgan a Mair Rowlands a Vera Jones (Rheolwr Aelodau - Gwasanaethau Democrataidd)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Cyfeiriwyd at benderfyniad Mr Leighton Andrews (Gweinidog Gwasanethau Cyhoeddus yn y Cynulliad) i atal y grant mae Llywodraeth Cymru yn ei dalu i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddarparu cefnogaeth i wella i Awdurdodau yng Nghymru o fis Ebrill 2015**.**

**Penderfynwyd anfon llythyr yn enw'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiadd, at Mr Leighton Andrews yn gofyn iddo ail ystyried ei benderfyniad**.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Medi, 2014 fel rhai cywir yn ddarostyngedig i;
i. Cywiro mai'r Cynghorydd Tom Ellis yw'r Is-gadeirydd ac nid y Cynghorydd Anne Lloyd Jones

**5. GWE-DDARLLEDU**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch datblygiadau gwe-ddarlledu. Eglurwyd bod cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 4.12.14 wedi ei ddarlledu yn fewnol ac wedi bod yn ymarfer llwyddiannus. Amlygwyd bod gwe ddarlledu yn bwysig i ddelwedd y Cyngor ac yn werthfawr i rannu

gwybodaeth gyda'r cyhoedd. Gwahoddwyd sylwadau pellach gan aelodau'r Pwyllgor a'u barn ynglŷn â llunio canllaw cryno.

Yn ystod y drafodaeth amlygwyd :-

- Bod yr hyfforddiant gwe ddarlledu wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Cynigiwyd bod angen hyfforddiant penodol i Gadeiryddion a hyfforddiant i Aelodau ar gyflwyno.
- Bod angen nodyn sydd yn egluro trefn pwyllgor er mwyn i'r cyhoedd fod yn gyfarwydd â'r rheolau. Nodwyd pryder o ran dealltwriaeth y cyhoedd ac felly argymhellwyd y dylai'r cadeirydd grynhoi'r penderfyniadau neu egluro'r argymhellion.
- Y pwyllgorau fydd yn cael eu gwe ddarlledu. Y bwriad hyd yma yw darlledu cyfarfodydd Y Cyngor a Phwyllgor Cynllunio yng Nghaernarfon. (Eglurwyd mai rhesymau technegol yn unig sydd dros y penderfyniad o ddarlledu Pwyllgor Cynllunio yng Nghaernarfon yn unig).
  Awgrymwyd y dylid ystyried gwe ddarlledu cyfarfodydd y Cabinet Ffurfiol gan mai yma mae'r grym a'r arweiniad i wneud penderfyniadau gweithredol. Mynegwyd yr angen i amlygu gwaith Craffu a fyddai yn cyfleu'r her a'r drafodaeth cyn penderfyniad y Cabinet. Cynigiwyd y gallai'r Fforwm Craffu ddewis eitemau a fyddai o ddiddordeb i'r cyhoedd. Rhaid sicrhau balans ac amlygu bod y Cyngor yn gweithredu yn 'iach'
- Os bydd y gwe ddarlledu yn llwyddiannus, bydd angen adolygu oriau cytundeb gan ystyried ystadegau fydd yn tystiolaethu'r defnydd. Priodol fuasai i Eleri Williams (Rheolwr Gwybodaeth a Gwasanaethau ar y Wefan) fynychu'r cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chytuno y dylid creu canllaw cryno gyda'r Cynghorwyr Lesley Day, Selwyn Griffiths, Sïon Jones a Tom Ellis i gydweithio gyda swyddogion i'w lunio.**

## 6. YSTYRIAETH I YSMYGU E-SIGARENAU MEWN PWYLLGORAU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i ysgogi trafodaeth ar e-ysmygu gan aelodau etholedig Gwahoddwyd y Pwyllgor i ystyried os dylai'r Cyngor fabwysiadu datganiad polisi sydd yn ymestyn y gwaharddiad o staff a chwsmeriaid rhag ddefnyddio e-sigarenau o fewn adeiladau'r Cyngor a'r cyffiniau, i aelodau etholedig.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Nodwyd y dylid sicrhau gweithrediad un rheol i bawb ac y dylai gwahardd e-sigarenau o fewn adeiladau'r Cyngor a'r cyffiniau
- Os bydd angen trafodaeth bellach ynglŷn â pholisi cyffredinol y Cyngor y dylid ei gyfeirio at yr Aelod Cabinet neu at y Pwyllgor Craffu Corfforaethol.

**PENDERFYNWYD y dylai'r Cyngor fabwysiadu datganiad polisi sydd yn ymestyn y gwaharddiad ar y defnydd o e-sigarenau yn adeiladau'r Cyngor a'u cyffiniau i aelodau etholedig**

## 7. GWEFANNAU CYNGHORAU CYMUNED A THREF

a) Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid adroddiad ar ddatblygiadau gyda grant £500 Llywodraeth Cymru i gael presenoldeb ar y we i Gynghorau Cymuned / Tref. Mynegwyd bod Opsiwn 2, sef cydweithio â chynghorau tref a chymuned eraill yn y sir i sefydlu gwefan ar y cyd bellach wedi cael ei brisio a bod protocolau ar droed

Yn ystod y drafodaeth:-

- Mynegwyd pryder nad oedd arweiniad digonol o'r hyn sydd ei angen. Awgrymwyd llunio pecyn i'r cynghorau cymuned / tref fydd yn rhoi arweiniad o'r hyn sydd yn bosib ei ddarparu.
- O ran rhannu ymarfer da gwefannau sydd eisoes wedi eu sefydlu, nodwyd bod rhaid cadw'r wefan yn syml a diweddaru'r wefan yn gyson gan sicrhau gwybodaeth gyfredol.
- O ran yr iaith ddewisol ar gyfer y gwefannau, cynigiwyd mai mater i'r Cynghorau Cymuned yw hyn.

**PENDERFYNWYD parhau i gefnogi'r gwaith o hwyluso datblygiad sefydlu gwefannau i gynghorau tref a chymuned yn ystod 2014/15.**

b) Mewn ymateb i ymddangosiad gwefan newydd y Cyngor, nodwyd yr angen i roi mwy o amlygrwydd i waith y Cabinet. Rhaid symleiddio'r mynediad er mwyn amlygu pwysigrwydd eu gwaith. Rhaid hefyd cael mynediad haws at gyfrifoldebau pob Aelod a'r pwyllgorau y maent yn aelodau ohonynt. Eglurwyd, bod y Cyngor wedi archebu system rheoli rhaglenni pwyllgorau (Modern Gov) fydd, mewn amser yn cynnwys Adran 'Democratiaeth'. Y bwriad yw cael y system yn ei le erbyn Pasg 2015. Bydd y rhaglen hefyd yn cynnwys ap i sicrhau bod rhaglenni yn cael eu lawr lwytho yn awtomatig i lechi Cynghorwyr

## 8. CYFWELIADAU DATBLYGU PERSONOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd lle atgoffwyd y pwyllgor bod 20 aelod wedi derbyn Cyfweliad Datblygu Personol. O'r cyfweliadau, codwyd nifer o themâu cyffredinol, a'r bwriad yw eu cyfarch drwy'r rhaglen hyfforddiant cyfredol.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Awgrymwyd y byddai'n fuddiol gweithredu ar wybodaeth 'pwy yw pwy' yn fuan er mwyn sicrhau gwybodaeth gyfredol. Awgrymwyd y gellid defnyddio Rhaeadr i gyfarch hyn.
- I'r rhai hynny oedd wedi cael cyfweliad, adroddwyd bod y cyfweliad wedi bod o fudd ac wedi amlygu gwendidau / anawsterau fuasai heb eu hamlygu fel arall. Anogwyd aelodau eraill i gymryd mantais o'r sefylfa.

**PENDERFYNWYD cyflwyno adroddiad i gyfarfod o'r pwyllgor hwn yn y misoedd nesaf ar ymateb yr 20 aelod i'r cyfweliadau datblygu personol a beth sydd wedi digwydd yn sgil y cyfweliadau.**

## 9. DARPARIAETH HYFFORDDIANT AR-LEIN

Yn sgil trafodaeth parthed adroddiadau blynyddol yr Aelodau, cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Dysgu a Datblygu ar ddarpariaeth hyfforddiant ar ffurf ar-lein i Aelodau. Eglurwyd bod y Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant priodol i gefnogi Aelodau i gyflawni eu rolau yn effeithiol ac mae dysgu drwy dechnoleg erbyn hyn yn gyffrous a rhaid cymryd mantais ohono. Pwysleisiwyd bod yr e-ddysgu yn ychwanegol i'r rhaglen hyfforddiant aelodau;

- yn cynnig pob math o dechnoleg e.e., fideo, modiwlau, ymchwil ar y we ac yn y blaen
- defnyddio gwahanol ddyfeisiau megis, i-pad, smartphone, gliniaduron a chyfrifiaduron PC
- cyfle i greu deunyddiau dysgu diddorol a deniadol o'r ansawdd uchaf
- cynnig darpariaeth gyfleus, hyblyg yn rhoi gwerth am arian (drwy osgoi amser a chostau teithio)

Y cam nesaf fydd codi ymwybyddiaeth.

Yn ystod y drafodaeth:-

- gwnaed cais i ansawdd a chynnwys y modiwlau hyfforddiant fod yn syml a hawdd mynd ato gyda chefnogaeth a chyfarwyddyd (nodwyd y byddai sesiynau cychwynnol gyda Chydlynydd Hyfforddiant Aelodau yn rhoi blas o'r hyn fydd ar gael).
- Amlygwyd bod hyn yn cyfarch yr aelodau hynny sydd yn cael anawsterau mynychu hyfforddiant oherwydd ymrwymiadau gwaith.

Diolchwyd i'r Rheolwr Dysgu a Datblygu am y wybodaeth.

**10. DATBLYGU DEFNYDD I-PADS A HYFFORDDIANT**

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid adroddiad ar ddatblygiadau mewn trefniadau hyfforddiant i wneud defnydd gwell o'r i-pad ac 'apps' i gefnogi'r defnydd. Adroddwyd bod cyfarfodydd wedi eu cynnal gyda Phennaeth Ysgol Gynradd Llanrug i lunio pecyn hyfforddi oedd yn cynnwys pynciau yr oedd yr aelodau wedi eu hamlygu.

Yn ystod y drafodaeth:

- Adroddwyd bod angen sicrhau gwell defnydd o'r i-pads. Cydnabuwyd bod yr i-pad yn declyn gwych ar gyfer trefn a gwybodaeth a bod potential iddo gynnig mwy.
- Awgrymwyd bod angen hyfforddiant pellach ar ddefnyddiau 'cyfryngau cymdeithasol'.

Nodwyd bod angen 5 am fod yn rhan o beilot o 'apps' er defnydd ar yr i-pads (i gynnwys swyddogion ac aelodau)

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.55am.

__________________________

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR ARCHWILIO 18/12/14

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Pughe Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Robert J. Wright (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Anwen Davies, Eddie Dogan, Tom Ellis, Aled Ll. Evans, John B. Hughes, Aeron M. Jones, Charles Wyn Jones, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen, Angela Russell, Gethin Glyn Williams a Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau)

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru), Hawis Jones (Rheolwr Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd – ar gyfer Eitem 7 ar y rhaglen), Caroline Lesley Roberts (Rheolwr Buddsoddi – ar gyfer Eitem 13 ar y rhaglen) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cynghorydd R. H. Wyn Williams (Aelod Cabinet Gofal), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol) a Glenda Lloyd Evans (Rheolwr Gwasanaeth - Gwasanaeth Pobl Hŷn) ar gyfer Eitem 5(b) ar y rhaglen.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Huw Edwards, Trevor Edwards, Sion Wyn Jones a Mr John Pollard.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 25 Medi 2014, fel rhai cywir.

## 3. CYLLIDEB REFENIW 2014/15

### (a) GORWARIANT YM MAES GWASANAETHAU POBL HŶN (ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT)

Adroddwyd yr ystyriwyd yr adroddiad gan y Cabinet ar 25 Tachwedd 2014 a chyflwynwyd eu penderfyniad i sylw'r pwyllgor –

"a) Derbyn yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) ynglŷn â'r sefyllfa gorwariant yn y maes Pobl Hŷn (Oedolion, Iechyd a Llesiant).
b) Derbyn yr esboniad o ran tuedd dwyster.
c) Gofyn am adroddiad diwedd Chwarter 3 yn amlygu'r camau sydd ar y gweill yn y Gwasanaeth i newid diwylliant i gyfundrefn trawsnewid a galluogi.
ch) Derbyn cadarnhad ar ddiwedd Chwarter 3 bod yr egwyddor o newid diwylliant wedi cael ei fabwysiadu gan reolwyr a swyddogion yr Adran Gofal."

Croesawyd yr Aelod Cabinet Gofal a'r swyddogion i'r cyfarfod.

Nododd yr Aelod Cabinet Gofal bod newidiadau wedi eu gwneud eisoes ond byddai'r newid mawr yng nghyswllt darparu gwasanaethau cymdeithasol yn cymryd amser. Adroddwyd y cynhelir adolygiad 'O'r Dechrau i'r Diwedd Oedolion' er mwyn delio â'r gorwariant ac i ymateb i'r twf mewn demograffi.

Ychwanegodd bod Pennaeth yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ar gyfnod salwch a bod swyddogion wedi cymryd baich ychwanegol. Pwysleisiwyd bod holl aelodau'r Cyngor efo rhan i'w chwarae o ran newid y diwylliant i geisio atal y gorwariant.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y derbyniwyd cydnabyddiaeth ariannol i geisio ymateb i'r twf mewn demograffi yn y blynyddoedd diwethaf ond nad oedd effaith demograffi i'w weld tan yn ddiweddar.

Tywysodd yr aelodau drwy'r adroddiad, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:-

- Bod gwariant y Cyngor ar ofal nyrsio yn gymharol uwch na chynghorau eraill tebyg ac yr edrychir ar y mater;
- Ei fod yn anodd dod i gasgliad pendant ar y gwir arbediad a oedd yn deillio o'r gwasanaeth Galluogi;
- Y cynhelir adolygiad o'r gwasanaeth Galluogi;
- Bod yr uchafswm taliad wythnosol o £55 am ofal cartref yn golygu bod mwy o unigolion yn aros adref. Petai nifer o'r unigolion yma mewn cartref preswyl, byddent yn talu'n llawn am eu gofal;
- Bod cymhlethdod anghenion gofal pobl yn cynyddu;
- Yn sgil y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 bod angen cynnal trafodaethau anodd efo Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr;
- Bod angen rhoi cymorth i staff o ran rheoli cyllideb ac yr angen i staff reng flaen berchnogi'r rhaglen ariannol;
- Y gwneir gwaith rhagweithiol clodwiw gan swyddogion i gyfarch y gorwariant a bod angen i hyn barhau i'r dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, nodwyd:-

- Bod tystiolaeth yn dangos bod unigolion anghymwys yn derbyn gwasanaeth Galluogi. Nodwyd bod y trefniadau stopio darparu'r gwasanaeth pan fo unigolyn ddim ei angen, angen eu gwella.
- O ran eglurder, y darperir gwasanaeth Galluogi am gyfnod hyd at 12 wythnos ac mai 6 wythnos oedd y cyfnod cyfartalog;
- Bod gwasanaethau a ddarperir gan y Trydydd Sector, megis cynllun Ffrindia' Age Cymru Gwynedd a Môn, yn werthfawr a bod angen gweithio yn fwy rhagweithiol â'r Trydydd Sector;
- Y sefydlir tîm at ei gilydd fel peilot blwyddyn yn Ysbyty Alltwen, Tremadog ar y cyd efo Iechyd, a fyddai'n trafod gydag unigolion beth sy'n bwysig iddynt;
- Bod angen arfogi staff i newid y ffordd o weithio yn hytrach na pharhau a'r arfer o ddarparu pecynnau gofal i unigolyn;
- Er mwyn llwyddo i gyrraedd y gofynion bod angen rhoi sylw i Ofalwyr a sicrhau bod cynllun wrth gefn pan fo gofalwr yn mynd yn sâl;
- O ran amserlen, y canolbwyntir ar drawsffurfio'r gwasanaethau yn ogystal â chynnal trafodaethau anodd efo Iechyd. Nodwyd y disgwylir gweld newid yn y gromlin ariannol ar ddiwedd Chwarter 3, lle dadansoddir y sefyllfa gyfredol;
- Y darperir gofal canolraddol i unigolion oedd wedi eu rhyddhau o'r ysbyty mewn cartrefi preswyl cyn iddynt ddychwelyd adref. Nodwyd bod y ddarpariaeth ar gael yn Ardal Arfon ac yn y dyfodol byddai ar gael yn Nwyfor a Meirionnydd. Bwriedir ariannu'r gwlâu ar y cyd efo Iechyd gan fod y Gronfa Ganolraddol yn dirwyn i ben.

Nododd y Pennaeth Cyllid bod arwyddion cynnar bod y diwylliant yn newid yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a chaiff hyn effaith ar y cyfrifon erbyn y 3ydd chwarter, ond gan ei fod yn broses hir dymor ni ddisgwylir achubiaeth lawn ar unwaith. Ychwanegodd bod gwaith yn mynd yn ei flaen yng nghyswllt cyllideb y Cyngor ar gyfer 2015/16 ac ar hyn o

bryd rhagwelir y dyrennir dros £400k yn ychwanegol i gyllideb yr Adran i'w digolledu am y gost ychwanegol oherwydd twf demograffi.

Diolchwyd i'r Aelod Cabinet Gofal a'r swyddogion am eu cyfraniad a dymunwyd yn dda i'r Aelod Cabinet ar ei ymddeoliad o'r Cabinet.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a derbyn penderfyniad y Cabinet.**

**(b) ADOLYGIAD AIL CHWARTER (MEDI 2014)**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid, a oedd yn nodi yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, y disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio graffu adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

Adroddodd yr Aelod Cabinet Adnoddau y cyflwynwyd adroddiadau adolygiad cyllideb ail chwarter i'r Cabinet ar 25 Tachwedd 2014. Cyflwynodd y penderfyniadau canlynol i sylw'r pwyllgor i'w craffu -

"a) Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2014) o'r Gyllideb Refeniw.
b) Nodi sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, a chymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu harweiniad/rheolaeth.
c) Cymeradwyo cyllideb ychwanegol o £44k i'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, i ddod o gyllidebau Corfforaethol y Cyngor."

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed reserfau, nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau ni ellir rhagweld y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ond fe fonitrir y sefyllfa bob chwarter.

Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid mai tanwariant wedi ei gynaeafu ar gyfer rheswm penodol oedd yn y cronfeydd wrth gefn adrannol, ac edrychir ar gyfran o'r arian yma gyda golwg ar ei roi yn y gronfa ddiswyddo. Nodwyd bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi adolygu lefelau cronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol Cymru a'u bod yn fodlon â sefyllfa Cyngor Gwynedd.

Diolchwyd i holl staff y Cyngor sy'n ymwneud â chyllidebau'r Cyngor am eu gwaith caled a manwl.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau.**

**4. RHAGLEN GYFALAF 2014/15 – ADOLYGIAD DIWEDD YR AIL CHWARTER (MEDI 2014)**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid yn rhoddi manylion am y rhaglen ddiwygiedig a'r ffynonellau ariannu perthnasol.

Adroddodd yr Aelod Cabinet Adnoddau yr ystyriwyd yr adroddiad gan y Cabinet ar 25 Tachwedd 2014 a chyflwynodd eu penderfyniad i sylw'r pwyllgor –

"PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2014) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig, sef:

- addasiad £2,699,000 gwir lithriadau o 2013/14
- lleihad £3,111,000 mewn benthyca heb gefnogaeth
- cynnydd £2,134,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- cynnydd £425,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf

- cynnydd £176,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- lleihad £351,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
- cynnydd £417,000 mewn defnydd o gronfeydd eraill"

Nodwyd ei fod yn galonogol bod gwerth y rhaglen gyfalaf am y tair blynedd gyfredol dros £92 miliwn, a oedd yn gyflawniad sylweddol yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

Adroddwyd bod cynllun Pont Briwet wedi ei graffu yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 2 Rhagfyr. Nododd aelodau o'r Pwyllgor, oedd hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor Craffu, y derbyniwyd atebion onest a didwyll gan swyddogion yn y cyfarfod ond bod risg dal i fodoli yng nghyswllt llithriad amserlen a'r goblygiadau ariannol.

**PENDERFYNWYD:**

**(i) Nodi'r sefyllfa a derbyn penderfyniad y Cabinet.**

**(ii) Gwahodd yr Aelod Cabinet Amgylchedd a'r swyddogion perthnasol o'r Adran Rheoleiddio i gyfarfod nesaf y Gweithgor Gwella Rheolaethau parthed cynllun Pont Briwet.**

## 5. ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi diweddariad o ran yr adroddiadau archwilio allanol a dderbyniwyd gyda'r atodiad yn manylu ar yr adroddiadau, y camau gweithredu a'r trefniadau craffu.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi bod y Pwyllgor wedi ei fodloni bod argymhellion archwilwyr allanol yn derbyn sylw digonol.**

## 6. ASESU CYNLLUNIAU ARIANNOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru.

Adroddwyd y cynhelir asesiad o gynlluniau ariannol holl awdurdodau lleol Cymru gydag adroddiad cyffredinol i'w gyhoeddi yn y dyfodol. 'Roedd y gwaith yn canolbwyntio ar reolaeth ariannol y Cyngor yng ngwyneb gostyngiadau cyllidebol er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol.

Daethpwyd i'r casgliad cyffredinol bod gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol effeithiol heb unrhyw ddiffygion uniongyrchol. Nodwyd nad oedd gan Swyddfa Archwilio Cymru unrhyw gynigion ar gyfer gwella ond nodir cyfleoedd posib i'r Cyngor ystyried wrth atgyfnerthu ei drefniadau cynllunio ariannol.

Awgrymwyd y dylai'r Cyngor ystyried rhoi polisi ffurfiol ar waith ynghylch y defnydd o gronfeydd wrth gefn a balansau.

Croesawodd y Pennaeth Cyllid yr adroddiad a nododd y rhoddir sylw i'r cyfleodd posib a nodir. O ran polisi ar gronfeydd a balansau, eglurodd y Pennaeth Cyllid nad oedd modd gwahanu'r ystyriaeth ohonynt o'r risgiau cyllidebol eraill a materion fel cyllideb wrth gefn, darpariaeth am chwyddiant, ayb.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed reserfau ysgolion, nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau bod canllawiau pendant mewn lle ar gyfer ysgolion gyda monitro ac adolygu cyson o'r sefyllfa a rhoddir pwysau ar yr ysgolion gyda reserfau rhy uchel i'w ddefnyddio ar gyfer addysg y disgyblion. Ychwanegodd mai mater i'r Pennaeth a Llywodraethwyr ydoedd a gofynnodd i unrhyw aelod a oedd yn Llywodraethwr ysgol i godi'r mater.

Diolchwyd i holl staff y Cyngor am eu gwaith caled a manwl roedd wedi arwain at farn gadarnhaol Swyddfa Archwilio Cymru yng nghyswllt cynlluniau ariannol. Ychwanegodd Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru bod gwaith da gan staff a threfn penderfyniadau gwleidyddol effeithiol y Cyngor yn sicrhau cydnerthedd ariannol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 7. LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL

Cyflwynwyd y Llythyr a oedd yn rhoi crynodeb o'r archwiliad blynyddol gan Reolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru. Nododd y Pennaeth Cyllid fod y "llythyr" yn cadarnhau'r hyn adroddodd Swyddfa Archwilio Cymru i gyfarfod y Pwyllgor ar 25 Medi 2014.

Nododd aelod y dylai Uned Gyfathrebu'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'r adroddiadau calonogol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 8. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfarfod o'r gweithgor uchod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2014 i ystyried archwiliad 'Ysgolion Uwchradd – Llywodraethu' a oedd wedi derbyn categori barn B a tri archwiliad a dderbyniodd gategori barn C yn ystod y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2014 a 12 Medi 2014 sef -

a) Cofrestr Diogelwch Staff
b) Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion
c) Cymunedau'n Gyntaf – Y Rhaglen Newydd

Gwahoddwyd Uwch Reolwyr i fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y materion sy'n codi o'r archwiliadau a'r gwaith a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiadau archwilio er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol dan sylw.

Nodwyd y cafwyd sicrwydd yn y Gweithgor bod y materion a amlygwyd gan Archwilio Mewnol yn cael sylw teilwng a bod camau yn cael eu cymryd.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed archwiliad Ysgolion Uwchradd - Llywodraethu, nododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg y byddai'n cynnwys archwiliad o bresenoldeb llywodraethwyr ar y tri cwrs mandadol yng nghynllun archwilio 2015/16. Nododd na fyddai'n ymarferol ei gynnal cyn hynny.

Nododd aelod y byddai'n hoffi amserlen dynn ar gyfer yr archwiliad, gan fod y drefn newydd mewn lle ers Medi 2013 a bod risg i'r Cyngor.

Awgrymodd y Pennaeth Cyllid y gellir anfon neges uniongyrchol at yr Adran Addysg yn gofyn iddynt roi sylw i'r mater fel blaenoriaeth a chynnal archwiliad yn 2015/16.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) derbyn yr adroddiad;**
**(ii) anfon neges at yr Adran Addysg yn gofyn iddynt roi sylw i bresenoldeb Llywodraethwyr yn y tri cwrs mandadol fel blaenoriaeth;**
**(iii) bod Archwilio Mewnol yn cynnal archwiliad yn gwirio presenoldeb Llywodraethwyr yn y tri cwrs mandadol yn 2015/16.**

**9. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL**

**Gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 30 Tachwedd 2014**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 15 Medi a 30 Tachwedd 2014. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyfeiriodd y swyddog at -

- 13 o adroddiadau am archwiliadau o'r cynllun gweithredol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 1 Adroddiad arall (memoranda a.y.b)
- 2 o adolygiadau grant
- 9 archwiliad dilyniant
- 1 archwiliad ymatebol

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol -

**Canolfannau Hamdden**

Nodwyd bod archwiliad wedi bod gerbron y Pwyllgor yn ddiweddar a bod y Gwasanaeth yn y broses o ail drefnu er mwyn ymdrechu i reoli a lliniaru risgiau canolfannau hamdden yn well yn y dyfodol.

Mewn ymateb i sylw gan aelod, nododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg bod system rheoli integredig mewn lle gan y Gwasanaeth Canolfannau Hamdden a bod Archwilio Mewnol wedi cael mewnbwn wrth iddo gael ei ddatblygu. Ymhellach, gwelwyd ymarfer da yn rhai o'r canolfannau, a bod y Gwasanaeth Hamdden eisoes yn adnabod arferion da a'u rhaeadru i'r holl ganolfannau hamdden. Nodwyd gan fod yr adroddiad wedi derbyn barn archwilio 'C', yn unol â'r arferiad byddai'r adroddiad yn dod gerbron y Gweithgor Gwella Rheolaethau.

**Archwiliadau Dilyniant**

Mewn ymateb i ymholiad, nododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg bod tri archwiliad wedi derbyn barn dilyniant anfoddhaol ac ymhelaethodd arnynt yn unigol:

- **Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion** – Rhoddwyd sylw i'r mater mewn cyfarfod o'r Gweithgor a gan fod trefniadau grant wedi symud ymlaen ni welir budd mewn edrych ar y mater unwaith eto;
- **Tocynnau Teithio Rhad** – Gan fod materion troseddol wedi codi teimlir ei fod yn gynamserol ac yn amhriodol i roi sylw i'r mater yn bresennol;
- **Porthladdoedd** – Nid oedd yr argymhellion wedi eu gweithredu ac y gellir ystyried dod a'r adroddiad gerbron y gweithgor.

**PENDERFYNWYD**

**(a) derbyn yr adroddiadau ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 15 Medi 2014 i 30 Tachwedd 2014 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

**(b) bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor, ynghyd â'r Cynghorwyr Tom Ellis, Dilwyn Morgan a Angela Russell i wasanaethu ar y Gweithgor i ystyried yr archwiliadau oedd wedi derbyn categori barn 'C' yn ogystal ag archwiliad dilyniant Porthladdoedd.**

**(c) Mai cyfrifoldeb unrhyw aelod na allai fod yn bresennol yn y Gweithgor oedd trefnu eilydd.**

**10. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2014/15**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2014/15.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 30 Tachwedd 2014 yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy'n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol:-

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 33 |
| Crëwyd Papurau Gwaith | 3 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 13 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 1 |
| Disgwyl Adolygiad | 7 |
| Adroddiad Drafft | 4 |
| Adroddiad Terfynol | 37 |
| Cyfanswm | 98 |
| Wedi ei ganslo | 3 |

Nodwyd bod gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at ddiwedd Tachwedd yn is na'r targed ac na fyddai 22 archwiliad wedi eu rhyddhau er mwyn cwrdd â'r targed chwarterol o gwblhau 59 allan o 98, sef 60%.

Adroddwyd bod y sefyllfa o dan adolygiad parhaus. Tynnwyd sylw bod cynllun effeithlonrwydd Archwilio Mewnol yn golygu gostyngiad capasiti o 3 swyddog ac o ganlyniad roedd cwrdd â'r targed erbyn diwedd y flwyddyn yn gynyddol heriol.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2014/15.**

**11. RHEOLAETH TRYSORLYS 2014/15 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid ar weithgaredd rheolaeth trysorlys y flwyddyn gyfredol.

Adroddwyd bod Côd Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys yn argymell y dylid hysbysu aelodau o weithgareddau Rheolaeth Trysorlys o leiaf dwywaith y flwyddyn. 'Roedd yr adroddiad canol blwyddyn hwn yn sicrhau bod y Cyngor yn arddel arfer gorau.

Cadarnhaodd y Rheolwr Buddsoddi, yn ystod y chwe mis rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2014, arhosodd gweithgarwch benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol, ac nid oedd unrhyw fanciau lle'r oedd y Cyngor wedi adnau arian yn methu ad-dalu.

Nodwyd y cynhelir seminar i'r aelodau ar 30 Ionawr 2015, efo ymgynghorwyr o Gwmni Arlingclose, a fyddai'n darparu eglurhad manwl o newidiadau sylweddol yn y maes rheolaeth trysorlys.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.40pm

____________________________

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR SAFONAU 26/1/15

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Lesley Day, Eryl Jones-Williams a Michael Sol Owen.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr Gwilym Ellis Evans (Cadeirydd), Ms Linda Byrne, Miss Margaret E.Jones a'r Dr Einir Young.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Mr David Clay.

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Rhun ap Gareth (Dirprwy Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriad:-** Mr Sam Soysa.

Croesawyd cynrychiolwyr o Bwyllgor Safonau Cyngor Ynys Môn oedd yn bresennol i arsylwi ar y cyfarfod.

Croesawyd y Cynghorydd Lesley Day i'w chyfarfod cyntaf o'r pwyllgor hwn.

Estynnwyd croeso hefyd i Rhun ap Gareth, Dirprwy Swyddog Monitro.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Mr Gwilym Ellis Evans (Cadeirydd) a Mr David Clay fuddiant personol yn eitem 10 ar y rhaglen – Adroddiad y Swyddog Monitro ar Ymchwiliad i Gŵyn yn Erbyn y Cynghorydd 'A' – oherwydd bod ganddynt gysylltiadau agos â rhai o'r partïon.

'Roedd yr aelodau o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu, a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Medi, 2014 fel rhai cywir.

**3. CEISIADAU AM ODDEFEB**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro ar geisiadau a dderbyniwyd am oddefeb mewn cysylltiad â thrafodaethau yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion. Cyn ystyried y ceisiadau unigol, rhoddodd y Swyddog Monitro amlinelliad o'r broses trefniadaeth ysgolion.

(A) <u>Cais gan y Cynghorydd John Pughe Roberts</u>

Nododd y Swyddog Monitro:-

- Bod y Cynghorydd John Pughe Roberts, Aelod Corris / Mawddwy ar Gyngor Gwynedd, yn gofyn am oddefeb gyffredinol, oherwydd ei rôl fel aelod lleol, i siarad a phleidleisio mewn cysylltiad â thrafodaethau ar ad-drefnu addysg yn nalgylch Ysgol y Gader, Dolgellau.

- Bod gan y cynghorydd fuddiant yn y mater oherwydd bod ei ferch yn ddisgybl yn yr ysgol a'i chwaer yn gweithio yno.

Wrth ystyried y cais:-

- Nodwyd ei bod yn bwysig bod aelod lleol yn gallu cyfrannu at y broses, ond y dylai hynny ddigwydd o fewn y prosesau cychwynnol anffurfiol sy'n digwydd yn lleol.
- Cyfeiriwyd at benderfyniadau blaenorol mewn achosion tebyg ble caniatawyd goddefebau i aelodau â buddiant gymryd rhan yn y trafodaethau lleol yn unig ac awgrymwyd y dylid ymlynu at y cynsail a sefydlwyd eisoes fel bod y pwyllgor yn gyson yn ei benderfyniadau.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais am oddefeb i'r Cynghorydd siarad, ond nid i bleidleisio, mewn cyfarfodydd dan nawdd y Cyngor ynglŷn ag Ysgol y Gader sy'n cael eu cynnal yn yr ardal, ond na chaiff siarad, na bod yn bresennol na phleidleisio mewn cyfarfod o'r Cyngor, Cabinet nac unrhyw un o'i bwyllgorau a'i bod yn ofynnol iddo ddatgan yn glir ymhob cyfarfod y mae'n cymryd rhan ynddo ei fod wedi cael goddefeb, gan egluro union natur y cyfyngiadau arno, a bod hynny'n cael ei nodi yng nghofnodion y cyfryw gyfarfodydd.**

(B) <u>Cais gan y Cynghorydd Dilwyn Morgan</u>

Nododd y Swyddog Monitro:-

- Bod y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Aelod Y Bala ar Gyngor Gwynedd, yn gofyn am oddefeb gyffredinol, oherwydd ei rôl fel aelod lleol, i siarad a phleidleisio mewn cysylltiad â thrafodaethau ar ad-drefnu addysg yn nalgylch Ysgol y Berwyn, Y Bala.
- Bod y cynghorydd wedi nodi bod ganddo fuddiant yn y mater oherwydd bod ei wraig yn gwneud gwaith llanw yn achlysurol yn ysgolion y dalgylch ac yn rhoi gwersi cerdd mewn ysgolion ar ran Canolfan William Mathias ac oherwydd ei fod yntau yn Llywodraethwr yn Ysgol y Berwyn.
- Nad oedd o'r farn bod y buddiannau hyn yn rhagfarnu gan nad oedd gwraig y cynghorydd yn aelod o staff parhaol unrhyw ysgol yn y dalgylch a bod y cynghorydd wedi'i benodi'n Llywodraethwr ar ran yr Adran Addysg. Gan hynny, argymhellodd nad oedd angen bwrw ymlaen â'r cais.

**PENDERFYNWYD peidio bwrw ymlaen â'r cais.**

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chynnwys '*partner'* yn y rhestr o gysylltiadau a fernir yn rhy agos i ganiatáu goddefeb o safbwynt ysgolion penodol, nododd y Swyddog Monitro mai canllawiau gan y Pwyllgor Safonau oedd yn cyfeirio at '*ŵr'* neu '*wraig'* ac y byddai cais ynglŷn â '*phartner'* neu unrhyw gais arall angen ei ystyried yn ôl ei haeddiant, ond ni fyddai ei fodolaeth neu beidio yn y canllawiau yn llyffetheirio disgresiwn y Pwyllgor.

## 4. AELODAETH Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn hysbysu'r aelodau fod tymor swydd dau o aelodau annibynnol y pwyllgor, sef Mr Gwilym Ellis Evans (Cadeirydd) a Mr Sam Soysa (Is-gadeirydd) yn dod i ben ym mis Chwefror eleni, yn dilyn gwasanaethu dau dymor, ac yn amlinellu'r camau fydd angen eu dilyn i benodi aelodau annibynnol newydd.

Diolchwyd i Mr Gwilym Ellis Evans a Mr Sam Soysa am eu cyfraniad gwerthfawr i waith a datblygiad y Pwyllgor Safonau dros nifer o flynyddoedd a dymunwyd yn dda i'r ddau yn y dyfodol.

Diolchodd Mr Gwilym Ellis Evans i'w gyd-aelodau ar y pwyllgor a'r swyddogion am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd.

Mewn ymateb i gwestiynau, nododd yr Uwch Gyfreithiwr:-

- Y byddai'r hysbyseb am aelodau annibynnol newydd yn ymddangos ar Wefan, '*Twitter'* a '*Facebook'* y Cyngor.
- Nad oedd yna fwriad i roi'r hysbyseb yn y papurau bro, yn bennaf oherwydd prinder amser ac adnoddau, ond pe ceid anhawster denu ymgeiswyr, y byddai'r papurau bro yn ffordd dda o ledaenu'r neges.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**5. HYFFORDDIANT I GYNGHORAU CYMUNED**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn amgáu copi o lythyr a anfonwyd at gynghorau cymuned i geisio'u barn ar gynnwys a ffurf yr hyfforddiant y gellir ei gynnig iddynt ac yn gofyn am farn y pwyllgor ar yr awgrymiadau yn y llythyr, ac unrhyw awgrymiadau eraill ynglŷn â'r math o gefnogaeth y gellir ei gynnig i gynghorau cymuned a thref.

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad, nododd yr Uwch Gyfreithiwr y derbyniwyd tua 16 o ymatebion gan gynghorau cymuned erbyn hyn, a bod pob un ohonynt yn ffafriol i'r awgrymiadau.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Nodwyd bod clerc Cyngor Tref Abermaw yn dweud nad oedd wedi derbyn y llythyr. Mewn ymateb, eglurodd yr Uwch Gyfreithiwr fod yna fas data o enwau / cyfeiriadau clercod cynghorau cymuned ar wefan y Cyngor, gyda'r clercod eu hunain yn gyfrifol am hysbysu'r Cyngor o unrhyw newidiadau. Nododd y Swyddog Monitro ei fod yn derbyn y gallai fod yna fylchau yn yr wybodaeth ar brydiau a bod angen edrych ar hyn. Nodwyd hefyd bod angen gwirio bod y llythyr at Gyngor Tref Abermaw wedi ei anfon i'r person cywir.
- Holwyd a anfonwyd y llythyr at Gadeiryddion y cynghorau yn ogystal. Atebodd y Swyddog Monitro nad oedd y Cyngor yn cadw manylion cyswllt y cadeiryddion.
- Nodwyd y dylid annog pob cyngor cymuned i sefydlu cyfeiriad e-bost ac y gellid e-bostio'r cynghorau cymuned i ofyn am enw / cyfeiriad eu cadeiryddion.
- Gofynnwyd i'r swyddogion edrych beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y gofyn i gynghorau cymuned sefydlu gwefannau ar y cyd neu'n unigol.
- Awgrymwyd bod angen edrych ar ryw fath o hyfforddiant i gadeiryddion hefyd ar greu a chynnal diwylliant priodol.
- Pwysleisiwyd bod darparu hyfforddiant priodol i gynghorau cymuned yn talu ar ei ganfed.
- Eglurwyd mai rôl y Swyddog Monitro oedd ceisio gwella safonau. 'Roedd yn gwneud gwaith mwy uniongyrchol gyda rhai cynghorau cymuned ond nid oedd ganddo unrhyw bŵer drostynt.
- Nodwyd, petai cynghorau cymuned yn derbyn mwy o swyddogaethau yn y dyfodol, y byddai'n rhaid sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn gadarn.
- Awgrymwyd y byddai o fudd petai pob cyngor cymuned yn derbyn copi o reolau sefydlog Unllais Cymru ar gyfer cynghorau tref a chymuned.
- Nodwyd bod y clercod angen cefnogaeth gan eu bod mewn swydd eithaf unig sy'n galw am arbenigedd a chefndir mewn amrediad o feysydd gwahanol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 6. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

Gan gyfeirio at ran 2.7 o'r adroddiad, nododd yr Uwch Gyfreithiwr fod Achos 201403463 wedi ei gau erbyn hyn hefyd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

Yn wyneb buddiant y Cadeirydd yn eitem 10 ar y rhaglen, ac yn absenoldeb yr is-gadeirydd, penodwyd Dr Einir Young i gadeirio'r ddwy eitem ganlynol.

## 7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 18C, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd ei fod yn ymwneud â thrafodion y Pwyllgor Safonau wrth ddod i benderfyniad ar fater a gyfeiriwyd ato. Credir na ddylid datgelu'r wybodaeth rhag ofn i unrhyw gyhoeddusrwydd ynglŷn â'r achos ragfarnu sefyllfa'r cynghorydd cyn unrhyw wrandawiad. Fel canlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

## 8. ADRODDIAD Y SWYDDOG MONITRO AR YMCHWILIAD I GŴYN YN ERBYN Y CYNGHORYDD 'A'

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro ar ei ymchwiliad i gŵyn yn erbyn y Cynghorydd 'A' a gofynnwyd i'r pwyllgor ddod i benderfyniad yn unol â gofynion y rheoliadau perthnasol.

Amlinellodd y Swyddog Monitro fanylion yr honiad, y cefndir cyfreithiol, yr ymchwiliad a gynhaliwyd ganddo, y ffeithiau, ei ganfyddiadau ar y ffeithiau a'i gasgliadau. Yna ymneilltuodd o'r cyfarfod.

Manylodd yr Uwch Gyfreithiwr ar y drefn i'w dilyn wrth ystyried y gŵyn.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Oherwydd amgylchiadau'r achos, awdurdodi'r Uwch Gyfreithiwr i addasu'r drefn yn yr achos hwn, er hwylustod i'r aelod sy'n destun yr ymchwiliad, drwy ofyn iddo a fyddai'n fodlon cyflwyno ei sylwadau'n ysgrifenedig, mewn perthynas â chasgliadau'r ymchwiliad a'r honiad ei fod wedi methu, neu y gallai fod wedi methu, â chydymffurfio â chôd ymddygiad yr awdurdod.**

**(b) Ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig a dderbynnir cyn penderfynu oes angen galw cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Safonau i ystyried a phenderfynu ar y mater.**

**(c) Cadw papurau'r achos yn gyfrinachol tan ar ôl unrhyw wrandawiad a dileu'r cyfeiriadau at unigolion pan fydd y papurau yn cael eu cyhoeddi.**

**PENDERFYNWYD ail agor y cyfarfod i'r wasg a'r cyhoedd.**

Ar derfyn y cyfarfod, nododd yr Uwch Gyfreithiwr y cynhelid Cynhadledd Safonau Cymru yng Nghaerdydd ar 20 Hydref, 2015.

Nododd y Cadeirydd y cyflwynid cofnodion cyfarfod diwethaf Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru i gyfarfod nesaf y pwyllgor hwn.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 12.30pm.

______________________________

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR IAITH 29/1/15

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eirwyn Williams (Is-gadeirydd yn cadeirio).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Elwyn Edwards, Tom Ellis, Alan Jones Evans, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllian, Eric Merfyn Jones, Elfed Williams, Gruffydd Williams a Hefin Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Y Gymraeg).

**Swyddogion:** Arwel E.Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Colin Morris (Rheolwr Cefnogi Busnes) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Hefyd yn bresennol:** Meirion Davies (Cyfarwyddwr Datblygu Menter Iaith Conwy) a Dwynwen Hywel a Matthew Thomas (Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Gweno Glyn, Charles W.Jones a Liz Saville Roberts.

Cyfeiriwyd â thristwch at farwolaeth y Cynghorydd Huw Edwards yn dilyn gwaeledd hir a chydymdeimlwyd â'r teulu yn eu profedigaeth.

Safodd y pwyllgor fel arwydd o barch.

**1. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Eirwyn Williams yn is-gadeirydd y pwyllgor hwn am weddill 2014/15.**

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Ioan Thomas fuddiant personol yn eitem 8(b) ar y rhaglen - Cefnogaeth i Fusnesau gan Gomisiynydd y Gymraeg - oherwydd bod ei fab yn gweithio i'r Comisiynydd.

Nid oedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Hydref, 2014 fel rhai cywir.

<u>Mater yn codi o'r cofnodion</u>
<u>Eitem 2 – Mater yn codi o gofnodion cyfarfod 26 Mehefin, 2014</u>
<u>Eitem 6 – Gosodiadau Tai Cymdeithasol</u>

Nodwyd y derbyniwyd ymateb gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i lythyr y Gwasanaeth Tai yn nodi sylwadau a phryderon yr aelodau, ond bod y llythyr a dderbyniwyd yn anghyflawn.

**PENDERFYNWYD cylchredeg ymateb llawn y Gweinidog i'r aelodau pan fydd ar gael.**

## 4. ADRODDIAD YR AELOD CABINET – Y GYMRAEG

Cyflwynwyd – adroddiad llafar yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg, yn manylu ar ddau ddatblygiad diweddar o fewn y maes, sef y trafodaethau i symud llwyddiannau Siarter Iaith Gwynedd i gynghorau eraill yng Nghymru a'r cyd-weithio rhwng y Cyngor a Menter Iaith Bangor ar baratoi cais am grant o'r gronfa gyfalaf i Fentrau Iaith.

**PENDERFYNWYD trosglwyddo'r neges i'r Grŵp Busnes fod y pwyllgor hwn yn awyddus i'r Cyngor llawn nesaf dderbyn cyflwyniad gan yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg ar Strategaeth Iaith Gwynedd.**

## 5. CREU MARCHNAD LAFUR GYMRAEG

Derbyniwyd cyflwyniad gan Meirion Davies (Cyfarwyddwr Datblygu Menter Iaith Conwy) ar greu Marchnad Lafur Gymraeg er mwyn cryfhau'r economi a chryfhau sefyllfa'r Gymraeg ar draws Cymru. Rhoddodd ddadansoddiad o sefyllfa'r Gymraeg gan nodi mai prif fwriad y cynllun oedd creu troedle economaidd i'r Gymraeg drwy leihau allfudiad, adnabod y galw am wasanaethau Cymraeg, ehangu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, cyplysu'r angen efo cyfleoedd gwaith a hyfforddiant ac adnabod cyfleoedd economaidd. Derbyniwyd swm o £20,000 gan Lywodraeth Cymru i baratoi cais ar y cyd gyda Phrifysgol Aberystwyth am arian Ewropeaidd ar gyfer elfen sgiliau unigolion ac elfen mentergarwch cymdeithasol y cynllun, a bwriedid ymgeisio hefyd am arian cyfatebol gan y Llywodraeth maes o law.

Cafwyd trafodaeth o amgylch y cwestiynau / sylwadau canlynol gan aelodau:-

- Cost y cynllun.
- Pwysigrwydd cryfhau'r economi ac amodau gwaith i ddenu a chadw pobl ifanc o fewn y sir.
- Lleihau effaith mewnfudo drwy gadw neu ddenu pobl yn ôl.
- Y tuedd i fewnforio nyrsys o wledydd eraill oherwydd cap y Llywodraeth ar y niferoedd sy'n cael eu hyfforddi yn y maes bob blwyddyn.
- Diffyg cyfleoedd i bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig.
- Yr effaith ar yr iaith o gau ysgolion bach gwledig a sut bod cadw'r boblogaeth drwy greu gwaith yn lleol yn arwain at gadw ysgolion yn agored.
- Yr angen i bobl ifanc weld eu hunain yn rhan o'r frwydr iaith er mwyn dwyn rhagor o bwysau ar y Llywodraeth.
- Yr angen i wneud mwy i annog pobl ifanc lleol i fod yn fentrus a chychwyn eu busnesau eu hunain yn hytrach na chanolbwyntio sylw ar geisio denu busnesau mawr o'r tu allan i'r ardal.
- Diffyg hyfforddiant NVQ Gofal Plant drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Yr angen i symud gwerthoedd y Cyngor hwn i gyrff eraill o fewn y sector gyhoeddus gan ddefnyddio'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i hyrwyddo hyn.
- Yr angen i fod yn rhagweithiol a rhoi gwaith i gwmnïau lleol sy'n cyflogi Cymry Cymraeg a phwysigrwydd y prosiect Cadw'r Budd yn Lleol.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cefnogi'r gwaith sy'n mynd rhagddo gan y mentrau iaith i sefydlu cynllun i greu marchnad lafur Gymraeg, gan ddarparu unrhyw gymorth ymarferol a geisir.**

**(b) Defnyddio'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol fel cyfrwng i ddwyn perswâd ar gyflogwyr eraill yn y sector gyhoeddus i fod â pholisïau mwy tebyg i Gyngor Gwynedd o ran yr iaith ac adrodd yn ôl ar yr hyn sy'n digwydd o ran cydweithio gyda chyrff sector cyhoeddus eraill.**

Diolchwyd i Meirion Davies am ei gyflwyniad.

## 6. CEFNOGAETH I FUSNESAU

(A) Cyflwynodd y Rheolwr Cefnogi Busnes adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn manylu ar yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud a'r hyn mae modd iddo'i wneud i hyrwyddo busnesau lleol i wneud y defnydd gorau o'r iaith Gymraeg.

Cafwyd trafodaeth o amgylch y cwestiynau / sylwadau canlynol gan aelodau:-

- Y duedd i allanoli gwaith sydd o fewn gallu crefftwyr lleol.
- A yw trefniadau presennol y Cyngor yn ddigon llyfn a hyblyg ac yn gwthio'r ffin mor bell ag y gellir o ran y gofynion cyfreithiol?
- Y camau sydd ar droed o fewn y cynllun Cadw'r Budd yn Lleol i gynyddu hyder busnesau lleol yn y broses dendro.
- Diffyg cwmnïau lleol i wneud y gwaith ac ansicrwydd contractwyr lleol ynglŷn â sut i gael mynediad i waith y Cyngor.

Holwyd pam bod y Cyngor wedi gwerthu tir diwydiannol yn Nefyn. Eglurwyd nad oedd hyn yn fater i'r pwyllgor hwn ond cytunodd y Rheolwr Cefnogi Busnes i wneud ymholiadau a chysylltu'n uniongyrchol â'r aelod a gododd y mater.

(B) Derbyniwyd cyflwyniad byr gan Dwynwen Hywel o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar y gwasanaethau sydd ar gael i fusnesau gan y Comisiynydd.

Cafwyd trafodaeth o amgylch y cwestiynau / sylwadau canlynol gan aelodau:-

- Y cynlluniau o ran hyrwyddo, treialu a lansio gwefan newydd y Comisiynydd ar gyfer busnesau.
- Pwysigrwydd cael cwmnïau mawr i brynu i mewn i hyn.
- Rôl yr aelodau o ran hyrwyddo'r gwasanaeth o fewn eu wardiau.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod, cadarnhaodd Dwynwen Hywel y gallai roi cyflwyniad i grŵp sy'n ceisio annog busnesau lleol yn Nyffryn Nantlle i ddefnyddio'r Gymraeg.

**PENDERFYNWYD annog cynghorwyr i ledaenu'r wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael i fusnesau o fewn eu hardaloedd a rhoi cyhoeddusrwydd i hyn drwy Raeadr a Rhwydwaith Busnes Gwynedd ar adeg lansio gwefan newydd y Comisiynydd.**

Diolchwyd i Dwynwen Hywel am ei chyflwyniad.

## 7. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD A MÔN 2011-26

Cyflwynwyd – llythyr gan Gymdeithas yr Iaith at Gadeirydd y Pwyllgor yn codi'r cwestiynau a ganlyn mewn perthynas â rhan a swyddogaethau'r Pwyllgor Iaith yn y broses o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol:-

(1) Sut mae'r Pwyllgor Iaith wedi bod yn craffu hyd yma yn y broses o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol?
(2) Sut mae'r Pwyllgor Iaith wedi ymateb i'r diffygion amlwg sydd yn y model a ddefnyddiwyd hyd yma i asesu effaith y Cynllun Datblygu Lleol ar y Gymraeg?
(3) Sut mae'r Pwyllgor Iaith yn craffu ar y Cynllun Adnau?
(4) A yw'r model a ddefnyddir i asesu effaith ieithyddol y Cynllun Adnau yn addas?

Mewn ymateb i'r cwestiynau hyn, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol fod datblygiad y cynllun a'r asesiad effaith ieithyddol wedi derbyn sylw gan y Pwyllgor Iaith, gan egluro ymhellach:-

- Bod y swyddogaethau penodol sydd wedi'u dirprwyo i'r Pwyllgor Iaith wedi'u nodi yng Nghyfansoddiad y Cyngor.
- Y derbyniodd y pwyllgor adroddiad yn ei gyfarfod ym Mawrth 2012 ar y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol a thrafodwyd datblygu methodoleg i wneud asesiad cynaliadwyedd ayb. Yn sgil cyflwyno adroddiad pellach i'r pwyllgor yn Hydref 2013 ar yr asesiad effaith ieithyddol, sefydlwyd y Gweithgor Cynllunio a'r Iaith Gymraeg a gyfarfu yn ystod 2014 ac a gyfrannodd at ddatblygiad pellach y fethodoleg.
- Nad oedd y Pwyllgor Iaith yn bwyllgor craffu, ond 'roedd modd i aelodau unigol gyflwyno eu sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori rhwng canol Chwefror a diwedd Mawrth.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Ei bod yn anodd ymateb i gwestiynau (3) a (4) gan nad yw'r Cynllun Adnau wedi ei gyhoeddi eto.
- Y dylai'r pwyllgor ail-ategu ei wrthwynebiad i lefel twf tai arfaethedig y Cynllun Adnau drafft ac effaith hynny ar gymunedau lleol.

**PENDERFYNWYD gadael y mater ar y bwrdd am y tro a chynnal cyfarfod arbennig o'r pwyllgor i drafod y mater ymhellach ar ôl cyhoeddi'r cynllun adnau.**

## 8. CWYNION IAITH

(A) Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn manylu ar y cwynion iaith diweddaraf i law.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Bod angen cyfleu'r neges i'r penaethiaid nad yw'r methiannau i gydymffurfio â Pholisi Iaith y Cyngor yn dderbyniol.
- Bod Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru, sy'n rhan o Gyngor Sir Ddinbych ac sy'n prosesu dirwyon parcio ar ran Cyngor Gwynedd, yn gweinyddu'n llwyr drwy gyfrwng y Saesneg. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol nad oedd cŵyn benodol i law y tro hwn, ond y gellid trafod y mater gyda'r adran a gofyn am adroddiad yn ôl.

(B) Ystyriwyd - cŵyn a dderbyniwyd gan aelod o'r pwyllgor ynglŷn â phenderfyniad Bwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) i lacio'r gofynion Cymraeg ar gyfer swyddi Cyfarwyddwr Adnoddau a Chyfarwyddwr Asedau ac Isadeiledd.

Cyflwynwyd – ymateb Ffrancon Williams, Prif Weithredwr CCG i'r gŵyn, yn nodi:-

- Y bu i Fwrdd CCG benderfynu llacio'r gofynion Cymraeg ar gyfer y ddwy swydd fel eithriadau i'w Cynllun Iaith Gymraeg mewn ymateb i set o amgylchiadau yn cynnwys anghenion y busnes i'r dyfodol, asesiad o'r sgiliau a'r profiadau gofynnol i sicrhau hyfywedd parhaus y busnes, asesiad o argaeledd y sgiliau a'r profiadau gofynnol hynny yn y farchnad gyflogaeth a phrofiad y cwmni o anawsterau wrth geisio penodi ymgeiswyr i swyddi uwch a swyddi rheoli sy'n bodloni holl feini prawf y swyddi, gan gynnwys y gofynion Cymraeg, yn arbennig y swyddi hynny sy'n gofyn am sgiliau technegol a phrofiad mewn meysydd penodol.
- Y llenwyd swydd y Cyfarwyddwr Asedau ac Isadeiledd dros dro gan unigolyn di-gymraeg am gyfnod o 5 mlynedd, ac yn ystod y cyfnod, ni lwyddwyd i ddod o hyd i ymgeisydd Cymraeg.

- Y llenwyd swydd y Cyfarwyddwr Adnoddau dros dro hefyd am gyfnod o 2 flynedd gan unigolyn di-gymraeg ac ers i'r deiliad diwethaf adael y busnes rhoddwyd trefniadau tymor byr ar waith i geisio cwrdd â'r angen mewn ffordd wahanol hyd nes y llwyddwyd i ddatrys y sefyllfa ar gyfer yr hirdymor.
- Bod amcanion Cynllun Iaith Gymraeg CCG wedi eu cynnal yn gadarnhaol yn ystod y cyfnodau hyn, a bod yr adroddiad monitro blynyddol a gyflwynwyd i Gomisiynydd y Gymraeg yn profi hynny, gyda 95% o staff y cwmni yn siarad Cymraeg.
- Bod gwaith ymchwil yn dangos mai carfan fechan iawn o unigolion sydd â'r sgiliau angenrheidiol a'r profiad yn y sector i ymgymryd â'r ddwy swydd Cyfarwyddwr dan sylw, hyd yn oed petai'r garfan yn cael ei hymestyn i gynnwys y rhai sy'n uniaith Saesneg, a byddai cyfyngu'r garfan ymhellach i bobl ddwyieithog yn rhwystr pellach i'r gwaith o benodi'n llwyddiannus.
- Y penderfynwyd peidio cynnwys amod cytundebol mewn perthynas â dysgu'r Gymraeg ar gyfer y ddwy rôl dan sylw oherwydd y gallai fod yn rhwystr sylweddol wrth geisio denu ymgeiswyr sydd, o bosib' yn cymryd risg uchel yn eu gyrfa wrth adleoli teulu ac ildio cyflogaeth sicr a pharhaol yn rhywle arall a gallai olygu bod yr union ymgeiswyr yr hoffai CCG eu denu yn troi eu cefnau ar y cyfle.
- Bod Bwrdd CCG wedi ymrwymo i gydweithio â chyrff perthnasol dros yr hirdymor i oresgyn yr anawsterau a wynebir gan y cwmni a sefydliadau eraill wrth geisio penodi siaradwyr Cymraeg i uwch swyddi rheoli yng Nghymru.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

(1) Bod penderfyniad CCG i beidio cynnwys y Gymraeg fel sgil hanfodol ar gyfer dwy o'i uwch-swyddi:-

- Yn mynd yn groes i Gynllun Iaith y corff sy'n amcanu i hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith gweinyddu fewnol CCG gan ddarparu cyfleoedd hyfforddiant i staff i ddatblygu a gwella eu sgiliau a'u hyder ieithyddol yn y Gymraeg.
- Yn mynd i arwain at grebachu, nid hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gan y gweithlu a'r corff.
- Yn mynd i agor y drws i gyrff eraill ddilyn yr un llwybr.
- Yn mynd i greu risg sylweddol hollol annerbyniol i'r iaith Gymraeg.
- Yn mynd i greu risg sylweddol i weledigaeth Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r Gymraeg.
- Yn mynd i greu risg sylweddol i weledigaeth Strategaeth Iaith Gwynedd sydd wedi'i gymeradwyo gan Gabinet a Chyngor Gwynedd a phartneriaid allweddol yn y sir.
- Yn mynd yn groes i gyngor Comisiynydd y Gymraeg sydd wedi galw am oedi'r broses.

(2) Mai Cyngor Gwynedd roddodd fodolaeth i'r corff, i gyflawni un o wasanaethau pwysicaf y sir ar ran y Cyngor, sef darparu cartrefi, a bod dyletswydd ar CCG i barchu Polisi Iaith Gwynedd.

(3) Bod y Saesneg yn gymhwyster hanfodol, a hynny'n cael ei gymryd yn ganiataol, ar gyfer pob swydd gyhoeddus yng Nghymru. Nifer cymharol fechan o swyddi sy'n gofyn am y Gymraeg fel cymhwyster hanfodol, ac mae'n bwysig peidio ildio dim gyda'r swyddi hynny.

(4) Bod Strategaeth Iaith Gwynedd yn cyfeirio mewn sawl lle at bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, ac wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae hefyd yn pwysleisio'r angen i fwy o gyrff ddilyn esiampl Cyngor Gwynedd i normaleiddio'r Gymraeg fel iaith gweinyddiaeth a chyfathrebu mewnol.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Galw ar Gartrefi Cymunedol Gwynedd i lynu at ei Gynllun Iaith Gymraeg yn yr achos penodol yma ac i'r dyfodol.**

**(b) Gofyn am gefnogaeth Hunaniaith, yn sgil ei ymrwymiad i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith ei bartneriaid ymhob sector o fywyd Gwynedd, i ddwyn pwysau ar gyrff fel CCG i gryfhau, a chynnal, eu polisïau a'u Cynlluniau Iaith.**

**(c) Gofyn am adroddiad cynhwysfawr erbyn y cyfarfod nesaf yn edrych ar 'y gwersi i'w dysgu' o'r achos penodol yma gan ofyn am gydweithrediad Comisiynydd y Gymraeg a chyrff eraill, megis Hunaniaith, wrth baratoi'r adroddiad.**

**(ch) Gofyn am argymhellion clir ynglŷn â pha gamau ychwanegol sydd angen eu cyflwyno i sicrhau bod cyrff gwirfoddol ac eraill yn cadw at lythyren eu polisïau iaith pan fo allanoli / trosglwyddo cyfrifoldebau oddi wrth Gyngor Gwynedd yn digwydd.**

**(d) Galw am eglurhad llawn o gyfrifoldebau cynghorwyr Gwynedd sydd yn enwebeion Cyngor Gwynedd ar gyrff allanol o safbwynt gwarchod Polisi Iaith y Cyngor, gan nodi bod disgwyl iddynt gyflawni eu swyddogaethau drwy ddilyn persbectif Cyngor Gwynedd, a modd o gyfathrebu hynny i holl gynghorwyr Gwynedd.**

**(dd) Galw ar Gomisiynydd y Gymraeg i egluro'r sefyllfa statudol bresennol o ran Cynlluniau Iaith gwahanol gyrff. O gofio'r newid sydd ar droed yn sgil cyhoeddi'r Safonau Iaith, fydd yn berthnasol i awdurdodau lleol a chyrff sector cyhoeddus, gelwir am eglurhad gan Gomisiynydd y Gymraeg am statws cyrff hyd braich ac elusennau o ran y Safonau.**

**(e) Gofyn i CCG gael trafodaeth benodol gyda'r Cyngor ar y mater, ar ôl derbyn cyngor cyfreithiol ynglŷn ag union hawliau'r Cyngor.**

**(f) Pwysleisio gwerthfawrogiad y Cyngor o'r gwaith da sy'n cael ei gyflawni gan CCG, ond gan nodi fod y mater hwn yn peri pryder.**

**9. YMCHWILIADAU IAITH**

Nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol fod y briff ar gyfer yr Ymchwiliad Iaith – Y Defnydd o'r Gymraeg wedi'i gytuno gydag aelodau'r ymchwiliad ac y cynhelid cyfarfod cyntaf y grŵp ar 23 Chwefror.

Dosbarthwyd papur gan y Cynghorydd Craig ac Iago, Pencampwr Iaith, yn awgrymu nifer o ffrydiau gwaith y gallai'r pwyllgor ymchwilio iddynt.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd ymchwilio i'r materion hynny y mae gan y Cyngor fwyaf o ddylanwad drostynt a lle mae modd gwneud gwahaniaeth, megis trwyddedu a grantiau.

Diolchwyd i'r aelod am baratoi'r papur.

**PENDERFYNWYD edrych ar yr awgrymiadau, mewn ymgynghoriad â'r Pencampwr Iaith, a chyflwyno cynigion i'r pwyllgor o ran y meysydd fyddai'n ymarferol i gynnal ymchwiliad iddynt.**

Ar ddiwedd y cyfarfod, cytunwyd i anfon cyfarchion y pwyllgor at Ruth Richards, cyn Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith, yn dilyn ei phenodiad yn Brif Weithredwr Dyfodol i'r Iaith, ac i ddymuno'n dda iddi i'r dyfodol.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 1.20pm.

**CADEIRYDD**